Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.wales.gov.uk

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Rheolau Cymhwystra ac Amodau ar gyfer cael Cymorth o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020

Fersiwn 3.0

Ionawr 2018

Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru
EU Funds: Investing in Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

HANES FERSIWN

Fersiwn	Dyddiad	Sylwadau
1.0 (ERDF yn unig)	23 Rhagfyr 2014	Heb ei chyhoeddi ar dudalennau Cyllid yr UE ar wefan Llywodraeth Cymru. Anfonwyd yn uniongyrchol at ymgeiswyr ERDF.
1.1 & 1.1b (ERDF ac ESF)	2 Ebrill 2015	Fersiwn 1.0 wedi'i hehangu i gynnwys ESF. Wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth a'r rheolau caffael diweddaraf. Mae fersiwn 1.1b yr un fath â fersiwn 1.1. heblaw am ychydig o newidiadau yng ngheiriad Adran 25 yn ymwneud â phryd y gellir derbyn cadarnhad ysgrifenedig gan drydydd partïon
2.0	Awst 2016	Esboniad o bynciau e.e. gweithwyr asiantaeth, costau uned ar gyfer costau staff prosiect, cyfranogwyr anghymwys sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau / gweithrediadau a ariennir gan ESF, y broses gaffael i'w mabwysiadu o fewn cynlluniau a gaiff eu rhoi ar waith gan Gyrff Cyfryngol a newidiadau i Atodiad D i gyd-fynd â dogfen WEFO, 'Canllawiau ar asesu cymhwystra cyfranogwyr'.
3.0	Ionawr 2018	Datganiad gan CIFAS - rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau atal twyll. E-gydlyniad - mae paragraff wedi'i dynnu oddi ar linell amser ar gyfer ymgorffori wedi dod i ben. Talebau a Thocynnau, wedi'u diwygio pan ystyrir eu talu. Eglurhad ar yr ardoll brentisiaeth - nid cost uniongyrchol ond gellir ei adennill drwy'r gyfradd unffurf (cost anuniongyrchol.) Ychwanegodd paragraff i atgyfnerthu'r angen i gadw cofnodion er mwyn i'r archwiliad / MVT wirio'r costau a hawlir / cyfrifo. Ychwanegwyd eglurhad ar gyfrifiadau tâl salwch. Ychwanegwyd cyfrifiad cyfradd fesul awr bob mis. Ychwanegir llinell i nodi bod Ffioedd Archebu yn gymwys os na ellir eu hosgoi. Eglurhad bod rhaid defnyddio cofrestr asedau ar gyfer gwario dros £ 5k er gwaethaf polisïau ei hun. Ychwanegwyd nodyn arfer gorau o gadw cofnod rhestr o'r holl offer a brynwyd gan ddefnyddio cronfeydd strwythurol. Noder gan ddweud bod y Rhaglen Waith ar gau i newydd-ddyfodiaid. Costau teithio a chynhaliaeth cyfranogwyr ESF - eglurhad o ofynion tystiolaeth. Arian Cyfatebol - eglurhad o'r hyn y gellir / na ellir ei ddefnyddio fel Arian Cyfatebol. Refeniw Net - ychwanegwyd llinell i egluro bod rhaid datgan y refeniw a gynhyrchir. Yn unol â Rheolau Dichonoldeb, nodwyd nodyn i hysbysu buddiolwyr yr ymweliadau y bydd MVT yn

		eu cwblhau ar ôl cwblhau. Mae'r adran gaffael wedi'i oruchwylio er mwyn egluro hefyd enghraifft o ofynion sylfaenol. Ychwanegodd eglurhad ar Gynlluniau GBER & De-Minimis. Ychwanegwyd llinell ynglŷn ag Atodlen 3 a'r angen iddynt gael eu harwyddo cyn y blaen gan gynnwys eu hawliadau mewn hawliadau i WEFO. Mae Atodiad D wedi'i ddileu a chyfeiriodd buddiolwyr at yr arweiniad o'r enw 'Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020: Canllawiau ar Asesu Cymhwysedd Cyfranogwyr.' Templed 3 - Enghraifft o lythyr secondiad arfer gorau

GEIRFA

Ni, ein	Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), rhan o Lywodraeth Cymru a'r awdurdod rheoli ac awdurdod ardystio dynodedig ar gyfer y rhaglenni.
Chi, eich	Buddiolwyr cronfeydd yr UE fel a ddiffinnir yn y canllawiau ar wahân 'Modelau Cyflawni WEFO 2014-2020'.
CE, y Comisiwn	Y Comisiwn Ewropeaidd
ERDF	Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
ESF	Cronfa Gymdeithasol Ewrop
UE, yr Undeb	Yr Undeb Ewropeaidd
Rhaglenni	Rhaglenni Gweithredol y Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru, sef y dogfennau rhaglennu ffurfiol a fabwysiadwyd gan y CE.
Gweithrediadau, prosiectau	Y cynigion a nodir yn eich cais am gyllid ac a gymeradwywyd gennym ni neu gan Gorff Cyfryngol lle'i dynodwyd gennym. Caiff y termau eu hegluro ymhellach yn y canllawiau ar wahân 'Modelau Cyflawni WEFO 2014-2020' sydd ar gael ar dudalennau Cyllid yr UE ar wefan Llywodraeth Cymru.
Rheoliadau, Rheoliadau'r UE, Deddfwriaeth yr UE	Cyfraith yr UE sydd â grym cyfreithiol cyfrwymol ym mhob un o Aelod-wladwriaethau'r UE, sy'n gyfartal â chyfreithiau cenedlaethol. Caiff pecyn deddfwriaethol y Cronfeydd Strwythurol ei restru isod[#]
Cronfeydd Strwythurol	ERDF ac ESF

[#] Caiff deddfwriaeth yr UE sy'n berthnasol i'r Cronfeydd Strwythurol ei diwygio ac fe ychwanegir ati'n barhaus ond ar adeg cyhoeddi, Ebrill 2015, mae'n cynnwys:

- Rheoliad yr UE 1303/2013, 17 Rhagfyr 2013 (Darpariaethau Cyffredin y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd a Darpariaethau Cyffredinol y Cronfeydd Strwythurol)
- Rheoliad yr UE 1301/2013, 17 Rhagfyr 2013 (Rheoliad ERDF)
- Rheoliad yr UE 1304/2013, 17 Rhagfyr 2013 (Rheoliad ESF)
- Rheoliad yr UE 288/2014, 25 Chwefror 2014 (Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn)
- Rheoliad yr UE 184/2014, 25 Chwefror 2014 (Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn)
- Rheoliad yr UE 480/2014, 3 Mawrth 2014 (Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn)
- Rheoliad yr UE 215/2014, 7 Mawrth 2014 (Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn) fel y'i diwygiwyd gan Reoliad yr UE 1232/2014, 18 Tachwedd 2014
- Rheoliad yr UE 522/2014, 11 Mawrth 2014 (Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn)
- Rheoliad yr UE 821/2014, 28 Gorffennaf 2014 (Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn)
- Rheoliad yr UE 1011/2014, 22 Medi 2014 (Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn)
- Rheoliad yr UE 207/2015, 14 Chwefror 2015 (Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn)
- Rheoliad yr EU 2015/1970, 8 Gorffennaf 2015 (Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn)

Cynnwys

RHAN 1: CYFLWYNIAD **9**

1. Cefndir 9

2. Diben 9

3. Perthnasedd 9

4. Cwmpas a dimensiynau cymhwystra 9

RHAN 2: RHEOLAU AC AMODAU CYFFREDINOL **12**

5. Rheolau sylfaenol 12
5.1 Eglurhad a chanllawiau 13
5.1.1 Y sail i'r cymorth 13
5.1.2 Camgymeriadau anfwriadol ('gwallau') a thwyll 13
5.1.3 Disodli costau anghymwys 14
5.1.4 Trywyddion archwilio 14
5.1.4.1 Cyfnodau cadw dogfennau a chofnodion 15
5.1.4.2 Fformat dogfennau 16
5.1.4.3 Cofnodion a dogfennau nad ydynt yn cael eu dal ar safle'r buddiolwr 19

RHAN 3: COSTAU CYMWYS **21**

6. Dulliau o gyfrifo a datgan eich costau cymwys 21

7. Costau real 22
7.1 Diffiniad o 'gostau real' 22
7.2 Rheolau
7.3 Eglurhad A Chanllawiau 22
7.3.1 Diffiniad o gostau 'a ysgwyddwyd' / 'wedi'u hysgwyddo' 22
7.3.2 Diffiniad o gostau 'a dalwyd' / 'wedi'u talu' 23
7.3.3 Diffiniad o 'adnabyddadwy' a 'gwiriadwy' 24
7.3.4 Talu am nwyddau neu wasanaethau ymlaen llaw 24
7.3.5 Cadw taliadau yn ôl, symiau ar gyfer hapddigwyddiadau, cyfrifon ysgrow a bondiau talu diwydiant-benodol tebyg. 25
7.4 Gwerth Am Ariian A Rheolaeth Ariannol Gadarn 26
7.5 Eglurhad A Chanllawiau 26
7.5.1 Gwerth am arian 26
7.5.2 Cyflawni gwerth am arian mewn pryniannau gwerth-isel cylchol sy'n ymwneud â'r un nwyddau neu wasanaethau neu rai tebyg 26
7.5.3 Y rheol 'cyllido dwbl' 27

7.5.4 Defnyddio cyfleusterau, asedau ac offer arall y mae'r buddiolwr eisoes yn meddu arnynt 27
7.6 Dyddiadau Cymhwystra 28
7.7 Eglurhad A Chanllawiau 28
7.7.1 Cymeradwyaeth ôl-weithredol i weithrediadau 28
7.7.2 Costau rhagarweiniol (contractau gwaith) 29

8. CATEGORÏAU COSTAU: Costau uniongyrchol 30
8.1 Diffiniad o gostau 'uniongyrchol' 30
8.2 Dyrannu costau uniongyrchol 30
8.3 Diffiniad o gostau 'anuniongyrchol' 34

9. Costau staff uniongyrchol 35
9.1 Rheolau 35
9.2 Eglurhad A Chanllawiau 36
9.2.1 Cofnodi amser 39
9.2.2 Costau hyfforddi staff 43
9.2.3 Secondiadau o'r tu allan 44
9.2.4 Absenoldeb eithriadol am dâ 44
9.2.5 Cynlluniau colli swydd a diswyddo 44
9.2.6 Taliadau yn ôl disgresiwn i staff neu gyn-aelodau o staff 45
9.2.7 Costau recriwtio, pecynnau adleoli a lwfansau amhariad 45
10.1 Eglurhad A Chanllawiau 46
10.1.1 Lletygarwch a diddanu 46
10.1.2 Costau statudol a gorfodol 46
10.1.3 Yswiriant 47
10.1.4 Defnyddio safle ac offer y buddiolwr 47

11. Teithio a chynhaliaeth ar gyfer staff uniongyrchol 47

12. Gwasanaethau ac arbenigwyr allanol
12.1 Taliadau i Gymell Ymgysylltiad yn Rhaglen WEFO Gwerthusiadau 46
48

13. Offer 49
13.1 Dull caffael: prynu, rhentu neu brydlesu 50
13.2 Costau dibrisiant 50
13.3 Offer ail law 51

14. Gwariant cyfalaf 51
14.1 Prosiectau adeiladu: costau paratoi'r safle 52
14.2 Cofrestrau asedau 52

15. Costau uniongyrchol darparu cymorth ariannol ar gyfer eraill 52

16. CATEGORÏAU COSTAU: costau anuniongyrchol 53

17. Cyfraniadau O Fath Arall 55

17.1 Rheolau, Eglurhad A Chanllawiau 55
17.1.1 Gwaith di-dâl (amser gwirfoddolwyr) 57
17.1.2 Tir ac adeiladau a geir yn rhodd 57
17.1.3 Rhoi cyfrif am gyfraniadau o fath arall 58

18. Crynodeb ac eglurhad pellach o 'gostau real' anghymwys 58

19. Costau symlach 60
19.1 Cyflwyniad 60
19.2 Nodweddion allweddol - cipolwg 61
19.3 Perthnasedd costau symlach 63
19.4 Eithrio gweithgareddau, prosiectau neu weithrediadau 'wedi'u caffael yn llawn' 64
19.5 Cyfnodau'r prosiect a chostau symlach: Cyfnod ymbaratoi WEFO 64
19.6 Cyfraddau, telerau ac amodau ar gyfer costau symlach 64
19.6.1 Cyfradd safonol o 15% ar gyfer costau anuniongyrchol 64
19.6.2 Cyfradd safonol o 25% ar gyfer costau anuniongyrchol (Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd) 65
19.6.3 Cyfradd safonol o 40% ar gyfer costau uniongyrchol ac anuniongyrchol ESF 67
19.6.4 Costau unedau ar gyfer costau staff y prosiect 68

RHAN 4: RHEOLAU CRONFA-BENODOL AR GYFER ERDF 70

20. Gweithgareddau ERDF cymwys 70

21. Cymhwystra daearyddol gweithrediadau ERDF 71

22. Prosiectau Mawr 72

RHAN 5: RHEOLAU CRONFA-BENODOL AR GYFER ESF 75

23. Gweithgareddau ESF cymwys 75

24. Cymhwystra daearyddol gweithgareddau ESF 76
24.1 Gweithgareddau sy'n digwydd y tu allan i'r UE 77

25. Cymhwystra daearyddol cyfranogwyr ESF 77
25.1 Rheolau manwl 78

26. Amser cyfranogwyr ESF (cyfaniadau o fath arall gan gyflogwyr) 82

27. Costau gofal i alluogi unigolion i gyfranogi mewn gweithgareddau ESF 85

28. Cymhwystra cyfranogwyr 85
28.1 Meini prawf cyffredinol 85
28.2 Meini prawf prosiect-benodol 86
28.3 Asesiad o gymhwystra a thrywydd archwilio 87

29. Bwrsariaethau, ysgoloriaethau, lwfansau, taliadau a chymorth ariannol uniongyrchol tebyg gan y rhaglenni ESF i gyfranogwyr 89

30. Ystyriaethau eraill o ran gwerth am arian mewn prosiectau ESF 90

RHAN 6: AMODAU ERAILL AR GYFER CYLLID 92

31. Gweithgareddau cymwys – rheolau cyffredinol 92

32. Refeniw 93

33. Cyllid cyfatebol 99

34. Cyhoeddusrwydd ac amlygrwydd cyllid yr UE 101

35. Rheolau parhauster 104

36. Cydymffurfio â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol (Yr UE, y DU, Cymru) 105

36.1 Cyfreithiau a rheoliadau'r UE 105

36.2 Cyfreithiau a rheoliadau'r DU a Chymru 106

36.3 Rheolau caffael 106

36.3.1 Cydymffurfiaeth â deddfwriaeth caffael cyhoeddus (Contractau Cyhoeddus) 106

36.3.2 Contractau y tu allan i gwmpas deddfwriaeth caffael cyhoeddus (contractau preifat/ caffael yn y sector preifat) 108

36.3.3 Sefydliadau o fewn cwmpas Datganiad Caffael Cyhoeddus Cymru (WPPS) 111

36.3.4 Safonau gofynnol ar gyfer yr holl weithgarwch prynu a chaffael 111

36.3.5 Sefydliadau / busnesau bach a chanolig (buddiolwyr) sy'n cael cymorth ariannol uniongyrchol drwy gyfrwng cynllun grant sy'n ddarostyngedig i Reolau Cymorth Gwladwriaethol 113

36.3.6 Ymdrin â gwrthdaro buddiannau (gwirioneddol, posibl neu ganfyddedig) 113

36.4 Cymorth Gwladwriaethol 117

37. Rheolau ac amodau ar gyfer Cymorth Technegol 119

38. Cyfuno cymorth o fwy nag un o Gronfeydd yr UE 121

ATODIAD A – Gweithrediadau cydweithredol 123

ATODIAD B – Archwiliadau a gwiriadau 125

ATODIAD C – Trywyddion archwilio 127

ATODIAD D - Costau Symlach: Cardiau Cyfradd 122

ATODIAD E - Cyflawni a Gaffaelir o Hyfforddiant Diogelwch yn y gweithle(ESF)

TEMPLED 1: Taflen amser o gofnodi amser staff uniongyrchol
TEMPLED 2: Datganiad cyflogwr o amser cyfranogwr
TEMPLED 3: Enghraifft o lythyr secondiad

RHAN 1: CYFLWYNIAD

1. Cefndir

Caiff y rheolau a'r amodau ar gyfer defnyddio'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd eu pennu'n rhannol gan ddeddfwriaeth yr UE ac yn rhannol gan reolau cenedlaethol a sefydlwyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

Mae rheolau cenedlaethol ar gyfer Cymru yn berthnasol yn niffyg unrhyw reol benodol yn neddfwriaeth yr UE neu pan fo'r rheolau cenedlaethol yn llymach na gofynion yr UE. Mae'r rheolau cymhwystra cenedlaethol ar gyfer Cymru lawn cyn bwysiced â rheolau'r UE ac mae eu diystyru'n achosi'r un canlyniad, sef gwneud y gwariant cysylltiedig yn anghymwys i gael cymorth yr UE.

2. Diben

Diben y ddogfen hon yw helpu buddiolwyr, a darpar fuddiolwyr, i ddeall a chymhwyso'r rheolau cenedlaethol ac Ewropeaidd trwy osgoi, lle bynnag y bo'n bosibl, dermau technegol, cyfeiriadau a jargon cyfreithiol, a darparu atebion i gwestiynau ymarferol ac enghreifftiau o arfer gorau.

3. Perthnasedd

Mae'r rheolau a'r amodau yn y ddogfen hon yn berthnasol i bedair rhaglen y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru sy'n cyfrannu tuag at amcan yr UE o ran 'Buddsoddi ar gyfer swyddi a thwf', sef:

- Rhaglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ar gyfer Dwyrain Cymru
- Rhaglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd
- Rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer Dwyrain Cymru
- Rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd

4. Cwmpas a Dimensiynau Cymhwystra

Mae'r rheolau a'r amodau'n ymwneud â **grantiau a chymorth ad-daladwy** yn unig. Ystyr cymorth ad-daladwy (a elwir weithiau'n 'grantiau ad-daladwy') yw cymorth ariannol uniongyrchol y mae'n rhaid iddo, o dan amgylchiadau penodol, gael ei ad-dalu i ni yn rhannol neu yn llawn.

Bydd rheolau ac amodau ar wahân yn cael eu cyhoeddi maes o law ar gyfer Offerynnau Ariannol – buddsoddiadau ad-daladwy megis ecwiti, benthyciadau a gwarantau – a gefnogir gan raglenni'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru.

Yn olaf, mae gan raglen Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd Iwerddon-Cymru, a gyllidir gan ERDF, ei rheolau cymhwystra ei hun ac felly nid yw'r rhaglen honno wedi'i chynnwys o fewn cwmpas y ddogfen hon ychwaith.

TROSOLWG: Dimensiynau Cymhwystra

Telir cymorth yr UE mewn perthynas â gwariant cymwys gan fuddiolwyr. Mae cymhwystra gwariant yn gysyniad ehangach o lawer na chymhwystra costau yn unig. Ceir sawl dimensiwn i wariant sy'n ei wneud yn gymwys i gael cyfraniad o'r Cronfeydd Strwythurol:

Cymhwystra daearyddol	Efallai y bydd angen i weithgareddau a gefnogir gan yr UE ddigwydd mewn ardal benodedig. Efallai y bydd angen i fusnesau neu bobl sy'n cael cymorth gan brosiect fod wedi'u lleoli mewn ardal benodol hefyd.
Cwmpas yr ymyrraeth	Ceir cyfyngiadau ar y mathau o weithgareddau a diwydiannau a all gael eu cefnogi gan y Cronfeydd Strwythurol.
Costau	Mae rhai mathau o gostau wastad yn anghymwys ac mae eraill yn gymwys dim ond os ydynt yn bodloni amodau penodol. Gall y gallu i ddangos y cyswllt uniongyrchol rhwng cost a gweithgaredd prosiect cymwys ddylanwadu ar ei statws cymhwystra hefyd (pa un a yw'r gost yn 'anuniongyrchol' ynteu'n 'uniongyrchol').
Amseriad y gwariant	Ceir rheolau ynglŷn â'r cyfnod y gall gwariant a gweithgaredd ddigwydd, gan gynnwys rheolau arbennig ar wariant sydd wedi digwydd cyn i gytundeb cyllid grant gael ei gwblhau.
Lefel neu fynychder y gwariant	Dim ond ar adegau y cytunwyd arnynt yn y gadwyn daliadau y caiff gwariant cymwys ei 'gyfrif', gan ddibynnu pwy sy'n gwneud y taliad a phryd y caiff yr arian ei dalu mewn gwirionedd.
Cyfreithiau a rheoliadau eraill yr UE/ y DU/ Cymru	Mae'n rhaid i'r holl weithgareddau a gyllidir gan Gronfeydd yr UE gydymffurfio â rheolau a pholisïau'r UE megis caffael cyhoeddus, cystadleuaeth, yr amgylchedd a chyfle cyfartal yn ogystal â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau'r DU/ Cymru. Mae'n rhaid i gymorth gydymffurfio â rheolau'r UE ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol a lle mae'r rheolau hynny'n llymach na rheolau'r Cronfeydd Strwythurol, maent wastad yn cael blaenoriaeth.
Gofynion o ran gwybodaeth a chyhoeddus-rwydd	Mae'n rhaid i gymorth o Gronfeydd yr UE gael cyhoeddusrwydd da gan fuddiolwyr.
Rheolau ynglŷn â 'chostau real'	Ac eithrio costau dibrisiant a chyfraniadau o fath arall gan drydydd partïon, dim ond costau a ysgwyddwyd mewn gwirionedd gan fuddiolwr, ac a ategir gan anfonebau neu ddogfennau cyfatebol, sy'n gymwys.

Rheolau ynglŷn â 'chostau symlach'	Mae'n rhaid i gostau cymwys gael eu cyfrifo a'u datgan mewn modd sy'n cydymffurfio â'r telerau ac amodau cymwys a nodir yn ein cytundeb cyllid grant. Ni ellir defnyddio costau symlach i ddatgan costau cymwys gweithgareddau, prosiectau neu weithrediadau sydd wedi'u caffael yn llawn.
Trywyddion archwilio	Mae'n rhaid i dystiolaeth o wariant, gweithgareddau, allbynnau ac o gydymffurfiaeth â'r holl amodau cyllido perthnasol gael ei chadw nes bod y buddiolwr wedi cael ei hysbysu gan WEFO nad oes mo'i hangen mwyach.
Parhauster prosiectau	Mewn rhai achosion, mae'n rhaid i fuddsoddiadau/ gweithgareddau/asedau gael eu cynnal am amser penodol y tu hwnt i ddiwedd cyfnod gweithredu'r prosiect i osgoi gorfod ad-dalu cymorth yr UE.

RHAN 2: RHEOLAU AC AMODAU CYFFREDINOL

5. Rheolau sylfaenol

[1] Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r rheolau a'r amodau a nodir yn y ddogfen hon.

[2] Mae costau'n gymwys dim ond os ydynt yn **angenrheidiol** ar gyfer rheoli, cychwyn neu gyflawni'r gweithgareddau a'r camau gweithredu a gymeradwywyd gennym ni.

[3] Mae'n rhaid i weithgarwch a gwariant prosiectau fod yn **gyfreithlon**, gan gydymffurfio â'r holl gyfreithiau a rheoliadau cymwys ar lefel Cymru, y DU, yr UE a rhyngwladol.

[4] Mae'n rhaid i linell gost addas yn y **gyllideb** gael ei chymeradwyo gennym ni ar gyfer y mathau o gostau yr ydych yn bwriadu eu datgan fel rhai cymwys (costau staff, gwariant cyfalaf, costau anuniongyrchol etc). Bydd hyn yn cael ei ddangos yn y cynllun cyllido a'r proffil cyflawni neu ddogfennau cysylltiedig a gymeradwywyd gennym ni.

[5] Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r amodau cyffredinol a phenodol a nodir yn ein **cytundeb cyllid grant** ac unrhyw reolau cymwys gan yr UE ynglŷn â **Chymorth Gwladwriaethol**, a fydd o bosibl yn mynd y tu hwnt i'r rheau a'r amodau a ddisgrifir yn y ddogfen hon.

[6] Mae'n rhaid i chi sicrhau bod yr holl **gofnodion cyfrifyddu a dogfennau ategol** perthnasol yn cael eu cadw, o ran gwybodaeth ariannol a gwybodaeth arall, i ddangos eich bod yn cydymffurfio â'r rheolau a'r amodau. Mae'n rhaid i chi gadw'r rhain nes ein bod ni'n eich hysbysu nad oes mo'u hangen mwyach.

[7] Mae'n rhaid i chi gadw cofnod cyfoes o enw a chyfeiriad yr holl sefydliadau yr ydych chi wedi cytuno y gallant **gadw cofnodion y prosiect**, gan gynnwys cyd-fuddiolwyr, contractwyr a phartneriaid cyflawni.

[8] Mae'n rhaid i'r **trywydd archwilio** fod yn wiriadwy, ar gael yn rhwydd a chael ei ddal mewn fformat sy'n diogelu ei ddilysrwydd a'i gyfanrwydd.

[9] Mae'n rhaid i gofnodion cyfrifo a dogfennau ategol fod **ar gael yn rhwydd** ar gyfer archwiliadau, gwiriadau ac unrhyw ymchwiliad cysylltiedig. Gweler Atodiad B am fwy o wybodaeth am 'archwiliadau a gwiriadau'. Byddwn yn amcanu at roi cymaint o rybudd â phosibl ond dim ond 12 niwrnod gwaith o rybudd ynghylch ymweliadau archwilio y mae'n rhaid i archwilwyr y CE ei roi'n gyfreithiol, felly dylech sicrhau bod eich trefniadau rheoli cofnodion yn ddigon cadarn i ddarparu ar gyfer ceisiadau o'r fath.

[10] Mae'n rhaid i chi **hwyluso mynediad** at gofnodion y prosiect os cewch gais gennym ni, y cyrff archwilio a rheoli cenedlaethol dynodedig neu sefydliadau perthnasol yr UE (Y Comisiwn Ewropeaidd, Llys Archwilwyr Ewrop, Swyddfa Gwrth-dwyll Ewrop).

5.1 EGLURHAD A CHANLLAWIAU

5.1.1 Y Sail i'r Cymorth

Bydd y cymorth gan yr UE a delir i chi'n grant anad-daladwy oni bai y nodir ei fod yn 'gymorth ad-daladwy' yn eich cytundeb cyllid grant. Mae 'grant anad-daladwy' yn golygu nad oes angen i gyfraniad ariannol yr UE gael ei ad-dalu i ni cyn belled â bod y rheolau ac amodau cyllido wedi'u bodloni.

5.1.2 Camgymeriadau Anfwriadol ('Gwallau') a Thwyll

Er bod gwallau'n digwydd yn gymharol anaml, a thwyll yn beth prinnach byth, mae'n rhaid i ni ddiogelu cyllideb yr UE trwy sefydlu mesurau i atal, canfod a chywiro unrhyw wallau ac i ymchwilio'n drylwyr i unrhyw amheuon o dwyll.

Mae gwariant nad yw'n cydymffurfio â rheolau'r UE neu reolau cenedlaethol yn afreolaidd ('afreoleidd-dra') ac felly ni ellir ei ddatgan wrth y CE fel gwariant sy'n gymwys ar gyfer cymorth yr UE. Os yw cymorth yr UE wedi cael ei dalu'n barod gennym ni i fuddiolwr, mae'r CE yn ei gwneud yn ofynnol i ni geisio adennill y symiau a dalwyd yn ddiangen.

Ystyr twyll, yng nghyd-destun rhaglenni'r UE, yw gwneud rhywbeth neu ddatgan rhywbeth yn fwriadol a chithau'n gwybod ei fod yn anghywir a bod hynny'n arwain, neu y gallai fod wedi arwain, at dalu arian yr UE ar gam. Mae hefyd yn golygu peidio â gwneud rhywbeth neu ddatgan rhywbeth yn fwriadol a chithau'n gwybod y byddai'n arwain (neu y gallai arwain) at dalu arian yr UE ar gam. Felly mae'r diffiniad hwn yn gymwys i orddatgan gwariant cymwys a thanddatgan – neu beidio ag adrodd ar – refeniw a derbyniadau'r prosiect, yn ogystal â diffyg cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau adrodd a hysbysu eraill a nodir yn ein cytundeb cyllid grant.

Nid ydym yn goddef twyll o gwbl a byddwn yn ymchwilio i unrhyw amheuon o dwyll. Mae gennym hefyd rwymedigaeth reoleiddiol i hysbysu Swyddfa Gwrth-dwyll Ewrop (OLAF) ynghylch achosion lle ceir amheuaeth o dwyll neu dwyll gwirioneddol.

ATAL TWYLL

Nodwch y gallwn rannu'r data a roddwch i ni gydag asiantaethau atal twyll a thrydydd partïon at ddibenion atal a chanfod twyll. Er mwyn inni gydymffurfio ag egwyddor prosesu teg diogelu data, mae angen i ni roi gwybod i chi sut y gall eich data personol gael ei ddefnyddio.
Bydd y wybodaeth a gasglwn gennych yn cael ei rannu gydag asiantaethau atal twyll

a fydd yn ei ddefnyddio i hatal twyll a gwyngalchu arian ac i wirio'ch hunaniaeth. Os canfyddir twyll, gellid gwrthod rhai gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth yn y dyfodol. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am sut y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth hon a'r asiantaethau atal twyll hyn, a'ch hawliau diogelu data trwy gysylltu â Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru
Mae rhagor o wybodaeth hefyd ar gael ar http://gov.wales/docs/caecd/publications/171113-fair-process-cy.pdf

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â hyn, cysylltwch â WEFO

5.1.3 Disodli Costau Anghymwys

Os yw ein gwiriadau neu'n harchwiliadau ni'n canfod bod rhai o'r costau cymwys a ddatganwyd gennych, mewn gwirionedd, yn anghymwys ar gyfer cymorth yr UE, ni fyddwn yn caniatáu i chi ddisodli'r swm hwnnw â gwariant newydd. Mewn geiriau eraill, bydd cyfanswm y costau cymwys a gymeradwywyd ar gyfer eich prosiect, i bob pwrpas, yn cael ei ostwng trwy ddidynnu swm y costau anghymwys a bydd y cyfraniad gan yr UE a fyddai wedi cael ei dalu am y rhan honno o'r gwariant yn cael ei golli. Byddwn yn ailddefnyddio'r cyfraniad hwn gan yr UE a ganslwyd er budd gweithrediadau eraill a gefnogir gan raglen yr UE.

5.1.4 Trywyddion Archwilio

Mae'r trywydd archwilio'n cynnwys dwy elfen: cofnodion cyfrifyddu a dogfennau ategol.

Mae '**dogfen**' yn golygu naill ai cyfrwng electronig (cofnodion digidol, cofnodion a ddechreuodd ar ffurf ddigidol neu ddogfennau mewn copi caled a droswyd yn ffurf ddigidol) neu gofnodion papur ('copi caled') sy'n cynnwys gwybodaeth neu ddata perthnasol [gweler erthygl 2(17) yn Rheoliad yr UE 1303/2013].

Mae '**cofnodion cyfrifyddu'** yn golygu'r cofnodion ariannol ar gyfer y gwariant cymwys, cyllid cyfatebol, refeniw prosiect a derbyniadau eraill a gaiff eu codio/ priodoli fel cost i'r prosiect ac sy'n tanategu'r symiau yr ydych chi'n eu datgan wrthym ni yn eich hawliadau rheolaidd am daliadau.

Mae'n rhaid i chi sicrhau bod trywydd archwilio digonol yn cael ei gynnal i ddangos bod eich prosiect yn cael ei weithredu mewn modd effeithiol a chydymffurfiol a chymhwystra gwariant a ddatganwyd.

Mae'n rhaid i chi sicrhau bod yr holl gofnodion a dogfennau perthnasol ar gael ar gais fel a nodir yn y cytundeb cyllid grant, er enghraifft i hwyluso gwiriadau, archwiliadau neu unrhyw ymchwiliadau cysylltiedig.

Mae **Atodiad C** yn darparu mwy o ganllawiau ymarferol.

5.1.4.1 Cyfnodau Cadw Dogfennau a Chofnodion

Yn wahanol i gyfnodau rhaglennu blaenorol, nid yw cyfnodau cadw ar gyfer buddiolwyr yn gysylltiedig â phroses cau'r Rhaglen mwyach, sy'n golygu y bydd cyfnodau cadw cyfartalog yn lleihau i gyfnod sydd rhwng 5 a 10 mlynedd o'r dyddiad y byddwch yn datgan y gwariant wrthym ni neu, os yn berthnasol, wrth Gorff Cyfryngol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, tua **3 blynedd yn dilyn diwedd eich gweithrediad** fydd y cyfnod cadw.

Fodd bynnag, os nad yw cyfanswm y gwariant cymwys a gymeradwywyd ar gyfer eich gweithrediad yn fwy nag €1m, bydd y cyfnod cadw yn y rhan fwyaf o achosion yn llawer byrrach - tua **4 blynedd o'r adeg y cyflwynwyd pob hawliad am daliad** i ni neu'r Corff Cyfryngol.

Byddwch yn cael eich hysbysu yn ysgrifenedig ynghylch y cyfnodau cadw gwirioneddol sy'n gymwys i'ch gweithrediad.

Caiff y rheolau manwl ar gyfer pennu'r union gyfnod cadw eu nodi yn y blwch isod.

NODYN I STAFF WEFO

Mae'n rhaid i WEFO hysbysu buddiolwyr yn ysgrifenedig ynghylch y **dyddiad dechrau** ar gyfer pennu'r cyfnod cadw dogfennau a'r **cyfnod cadw** ei hun. Bydd y cyfnod cadw'n cyfateb i'r naill neu'r llall o'r isod:

- ar gyfer gweithrediadau lle mae cyfanswm y gwariant cymwys cymeradwy'n llai nag EUR €1m, **3 blwyddyn galendr** o'r 31 Rhagfyr sy'n dilyn cynnwys y **gwariant cymwys blynyddol** yn y cyfrifon a gyflwynir gan WEFO i'r CE bob mis Mawrth.

- ar gyfer pob gweithrediad arall, **2 flwyddyn galendr** o'r 31 Rhagfyr sy'n dilyn cynnwys y **gwariant cymwys terfynol** sy'n dynodi bod y gweithrediad wedi'i gwblhau.

Dim ond ar adeg cymeradwyo'r gweithrediad y mae gwerth y trothwy o €1m mewn punnoedd Sterling yn cael ei ystyried.

Efallai y bydd yn dal yn angenrheidiol i'r buddiolwr gadw dogfennau am gyfnod hwy os yw'n ofynnol yn ôl y rheolau cymwys ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol neu os oes archwiliadau neu ymchwiliadau'n mynd rhagddynt a bod y buddiolwr yn cael ei gynghori'n benodol i gadw'r trywyddion archwilio nes clywir yn wahanol.

Gweler Rheoliad yr UE 1303/2013, erthygl 140, para 1 a 2.

Gall y dasg o hysbysu buddiolwyr cynlluniau cymorth o'r dyddiad cychwyn gael ei chyflawni gan WEFO neu ei dirprwyo i'r Corff Cyfryngol (os yw Corff Cyfryngol yn rheoli gweithrediad y cynllun cymorth).

5.1.4.2 Fformat Dogfennau

Gall dogfennau gael eu cadw mewn unrhyw un o'r fformatau canlynol:

- Dogfennau a ddechreuodd ac sy'n bodoli ar ffurf ddigidol yn unig h.y. cofnodion **'digidol o'r cychwyn'** megis negeseuon e-bost, cofnodion cronfeydd data, taenlenni a ffeiliau gairbrosesu etc. Mae hyn yn ymestyn i gofnodion strwythuredig ac anstrwythuredig ac yn cynnwys, er enghraifft, systemau rheoli cofnodion electronig; fformatau ffeiliau digidol, megis PDF, JPEG a TIF pan gânt eu creu a'u trosglwyddo'n ddigidol; pytiau o fideo, ffotograffiaeth ddigidol a.y.b .
- **Fersiynau** electronig/ digidol o ddogfennau papur gwreiddiol a ddelir ar gludwyr data a dderbynnir yn gyffredinol megis microffilm, delweddau dyblyg/ wedi'u sganio/ wedi'u digideiddio a.y.b.
- Dogfennau **papur** gwreiddiol.
- **Copiau** cywir ardystiedig o ddogfen bapur wreiddiol.

[Gweler erthygl 140 o Reoliad yr UE 1303/2013].

<u>Amodau ar gyfer derbyn dogfennau a ddechreuodd ar ffurf electronig/ ddigidol</u>

Er mwyn sicrhau dilysrwydd a chyfanrwydd cofnodion 'electronig/ digidol yn unig' fel y gellir dibynnu arnynt at ddibenion cyfreithiol ac archwilio, mae'n rhaid i chi fod yn sicr bod y systemau TGCh/ rheoli gwybodaeth sydd ar waith wedi'u cynllunio i gydymffurfio â safonau diogelwch a dderbynnir yn y DU. Yn benodol, mae'n rhaid i'r system fod wedi'i chynllunio fel ei bod yn cydymffurfio â **Safon Brydeinig BSI BIP0008-1:2014** neu **ISO 27001:2013**.

Os bydd buddiolwr yn defnyddio safon ddiogelwch arall, rhaid rhoi manylion y system, ynghyd â thystiolaeth, os yw ar gael, i WEFO ymlaen llaw i gadarnhau bod y system yn bodloni gofynion y Safon Brydeinig / ISO. Yna, bydd WEFO yn cadarnhau a yw'r system honno yn cyrraedd safon ddiogelwch a dderbynnir yn y DU.

Dylech gael y sicrwydd perthnasol ynghylch safonau diogelwch gan eich Swyddog TGCh/Sicrhau Gwybodaeth neu eich tîm rheoli. Mae'r dull hwn yn ymestyn i geisio sicrwydd ynghylch cofnodion a ddelir ar systemau TGCh unrhyw gyd-fuddiolwyr neu gyflawnwyr dan gontract/ cyflawnwyr trydydd parti sy'n dal unrhyw ddogfennau'n electronig/ yn ddigidol.

At ddibenion ein gwiriadau a'n harchwiliadau ni, dylech gadw dogfen sy'n disgrifio'r gweithdrefnau yr ydych wedi'u cyflawni i gael y sicrwydd angenrheidiol bod safonau diogelwch digonol wedi'u sefydlu i ddibynnu ar yr wybodaeth a ddelir yn electronig/ yn ddigidol.

Os nad ydych yn gallu cael y sicrwydd angenrheidiol ynghylch y safonau diogelwch, yna ni fydd y cofnodion yn dderbyniol at ddibenion cydymffurfio'r CE/ WEFO [erthygl 140(6) o Reoliad yr UE 1303/2013].

Amodau ar gyfer derbyn fersiynau digidol dyblyg, wedi'u sganio, wedi'u digideiddio o ddogfennau papur gwreiddiol

Mae'n rhaid i fuddiolwyr sy'n defnyddio systemau sganio, e-archifo neu brosesu delweddau (lle mae dogfennau papur gwreiddiol yn cael eu sganio a'u storio ar ffurf ddigidol) sicrhau bod **prosesau a rheolaethau ardystio** wedi'u sefydlu sydd, o leiaf:

- Yn gwarantu bod pob 'e-ddogfen' (delwedd wedi'i sganio) union yr un fath â'r fersiwn bapur wreiddiol.
- Yn atal neu'n canfod gweithredoedd i sganio'r un ddogfen bapur i gynhyrchu nifer o e-ddogfennau gwahanol o'r un ddogfen wreiddiol (mae pob e-ddogfen yn dal i fod yn unigryw ac ni ellir ei hailddefnyddio at unrhyw ddiben arall ar wahân i'w diben gychwynnol).
- Lle mae dogfen yn darparu tystiolaeth o drafodiad ariannol, dylai'r broses gymeradwyo, gyfrifyddu a thalu ar gyfer pob e-ddogfen fod yn unigryw (ni ddylai fod yn bosibl cymeradwyo'r un e-ddogfen, rhoi cyfrif amdani na'i thalu ddwywaith).
- Unwaith y maent wedi'u sganio, mae prosesau a rheolaethau'n atal neu'n canfod gweithred i diwygio e-ddogfennau neu greu copïau wedi'u haddasu (neu mae fersiynau wedi'u diwygio/ wedi'u haddasu yn cael eu dal fel fersiynau ar wahân ac mae'r fersiwn wreiddiol heb ei haddasu o'r ddelwedd yn dal i fod ar gael at ddibenion archwilio).

Yn ystod gwiriadau ac archwiliadau gellir gofyn am gael archwilio'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu i ddarparu sicrwydd ynghylch y prosesau a rheolaethau ardystio uchod, a gellir gofyn hefyd am gael arsylwi ar y broses sganio ac ardystio'n cael ei chyflawni mewn amser real.

Copïau cywir ardystiedig o ddogfennau papur gwreiddiol (llungopïau)

Mae'n rhaid i'r ddogfen wedi'i llungopïo gynnwys 'datganiad ardystio'. Mae'n rhaid i'r datganiad ardystio fod wedi'i anodi ar, neu ei atodi wrth, y copi. Nid oes angen marcio'r ddogfen wreiddiol.

Os yw dogfen yn cynnwys nifer o dudalennau yna dylid ardystio'r dudalen gyntaf a dylid nodi ar y dudalen gyntaf faint o dudalennau sydd wedi'u hatodi (fel arall, gellid ardystio pob tudalen).

Mae'n rhaid i'r datganiad ardystio gael ei awdurdodi/ ei lofnodi a'i arnodi â'r dyddiad gan gyflogai sy'n gallu tystio bod y copi yn ddelwedd ddyblyg gywir o'r ddogfen wreiddiol.

Caiff y datganiad ardystio'i ychwanegu ar yr adeg y gwneir y copi. Fel arall, gellir ychwanegu'r datganiad ardystio'n fuan wedyn os yw'r llofnodai'n gallu cofio gweld y fersiwn wreiddiol a'i fod felly'n dal i allu cadarnhau bod y copi'n foddhaol.

Gall y ‘datganiad ardystio’ gael ei ddewis gan bob buddiolwr ond mae’n rhaid iddo gynnwys y canlynol o leiaf:

- Llofnod [neu dystiolaeth debyg o awdurdodiad]
- Dyddiad
- ‘Copi cywir’, ‘copi ardystiedig’, ‘ardystiedig’ [neu ymadrodd tebyg i ddynodi’r hyn y mae’r llofnod a’r dyddiad yn ei gynrychioli]

Argymhellir, ond nid yw’n orfodol, bod y datganiad ardystio hefyd yn cynnwys enw’r llofnodai mewn llythrennau breision/ swydd y llofnodai neu gyfeirnod unigryw arall (megis rhif y cyflogai/ rhif ar y gyflogres) fel bod staff y prosiect yn y dyfodol a/neu archwilwyr yn gallu adnabod y llofnodai’n rhwydd os oes angen.

Mae’r canlynol yn enghraifft o ddatganiad ardystio sy’n cydymffurfio â’r gofynion:

Yr wyf yn tystio bod y ddogfen hon yn gopi cywir o’r ddogfen wreiddiol LLOFNOD: DYDDIAD: ENW MEWN LLYTHRENNAU BREISION/ SWYDD YN Y SEFYDLIAD [dewisol]: ENW’R SEFYDLIAD [dewisol]: NIFER Y TUDALENNAU A ARDYSTIWYD YN Y DDOGFEN HON [os yn berthnasol]:

Os yw’n fwy effeithlon, gellir defnyddio un datganiad ardystio ar gyfer swp o lungopïau. Mae’n rhaid i’r datganiad ardystio gynnwys:

- rhif cyfeirnod/ cod swp unigryw i adnabod y swp.
- nifer y dogfennau – a nifer y tudalennau os yw dogfennau unigol yn cynnwys mwy nag un dudalen – sydd wedi’u cynnwys yn y swp ardystiedig.
- cyfeirnodau/ rhifau pob dogfen sydd wedi’u cynnwys yn y swp. Os nad yw’r dogfennau wedi’u cyfeirnodi/ rhifo yn barod, yna dylid ychwanegu cyfeirnodau/ rhifau at bob dogfen cyn ardystio’r swp.

<u>Ystyriaethau eraill</u>

Wrth benderfynu ar y fformat mwyaf priodol ar gyfer dogfen, cofiwch y gall fod angen cadw cofnodion am gyfnod hwy nag sy’n ofynnol yn ôl polisi cadw dogfennau arferol eich sefydliad. Fe all fod angen i chi labelu a storio cofnodion ar gyfer prosiectau’r UE i’w hatal rhag cael eu difa cyn pryd. Bydd angen i chi ystyried materion ymarferol hefyd megis lle storio a’r perygl o ddifrod neu ddarfodedigrwydd technolegol.

Dylech roi ystyriaeth arbennig i’r perygl o ddarfodedigrwydd technolegol cofnodion digidol, o ran y caledwedd TGCh neu’r cymwysiadau meddalwedd a ddefnyddir i

gael mynediad at y cofnodion. Bydd angen i sefydliadau sy'n dal cofnodion sicrhau bod cofnodion gwreiddiol yn cael eu hadfer o'r holl systemau cofnodion electronig y mae perygl iddynt ddod yn ddarfodedig neu beidio â bod yn hygyrch mwyach.

I fod yn glir, nid oes disgwyliad na gofyniad gan WEFO na'r Comisiwn Ewropeaidd bod yn rhaid defnyddio dogfennau ar ffurf copi caled na 'llofnodion gwlyb' na'u bod yn ddewisach na chofnodion digidol. Yn wir, mae'r CE a Llywodraeth Cymru yn rhoi anogaeth lawn i fuddiolwyr fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i gofleidio manteision gweinyddu di-bapur, gan gynnwys cyfranogi yn y system e-Gydlyniant a fydd yn cael ei lansio gan WEFO yn hwyrach yn 2015.

Felly dylai buddiolwyr nodi'r canllawiau yn 5.1.4.2 uchod ac ystyried sut y gall technoleg ddarparu dulliau addas, er enghraifft, o adnabod a dilysu dogfen, neu ddangos bod trafodiad, gwybodaeth neu benderfyniadau wedi cael awdurdodiad.

5.1.4.3 Cofnodion a Dogfennau nad ydynt yn cael eu dal ar Safle'r Buddiolwr

Gall cofnodion a dogfennau ategol gael eu dal gan:

- fuddiolwyr (y buddiolwr arweiniol, cyd-fuddiolwyr, buddiolwyr cynllun cymorth); neu
- bartneriaid cyflawni trydydd parti megis darparwyr gwasanaethau/ contractwyr wedi'u caffael.

Cyfrifoldeb y buddiolwr (neu'r buddiolwr arweiniol os oes cyd-fuddiolwyr i'w cael) yw sicrhau bod y gofynion o ran trywyddion archwilio'n cael eu hegluro wrth gyd-fuddiolwyr a phartneriaid cyflawni eraill.

Felly mae'n rhaid i gontractau, cytundebau a phrotocolau gyda phartneriaid cyflawni/ darparwyr nodi'r rheolau o ran trywyddion archwilio.

Mae'n rhaid i'r holl gofnodion fod ar gael yn rhwydd ar gyfer archwiliadau, gwiriadau ac unrhyw ymchwiliadau cysylltiedig. Byddwn yn amcanu at roi cymaint o rybudd â phosibl i chi pan fydd angen i ni archwilio cofnodion prosiect ond, yn enwedig gan mai dim ond 12 niwrnod gwaith o rybudd y mae'n ofynnol i'r CE ei roi ar gyfer ei archwiliadau, dylech sicrhau bod trefniadau'n ddigon cadarn i ddarparu ar gyfer ceisiadau o'r fath.

Os nad yw'r cofnodion ar gael yn ystod yr ymweliadau hyn, gellid datgan ar unwaith bod y gwariant cysylltiedig yn anghymwys.

Lle caiff cofnodion eu dal mewn lleoliadau ar wahân i safle'r buddiolwr arweiniol – megis cyfleusterau storio oddi ar y safle neu safleoedd partneriaid a darparwyr gwasanaethau/ contractwyr – yna **mae'n rhaid i'r buddiolwr gynnal hapwiriadau rheolaidd** i sicrhau:

- Bod cofnodion yn adferadwy ac yn hygyrch;
- Bod partneriaid/ darparwyr yn caniatáu mynediad llawn at gofnodion ar eu safle, gan gynnwys lle y bo'n berthnasol, mynediad i weld cofnodion 'digidol o'r cychwyn' neu wedi'u digideiddio gan ddefnyddio dyfais neu weithfan TGCh addas;
- Bod cofnodion yn gyflawn; wedi'u strwythuro ac yn drefnus; mewn cyflwr da; ac mewn fformat derbyniol sy'n ateb gofynion WEFO.

Mae'n rhaid i chi gadw cofnod o'r hapwiriadau rheolaidd hyn a gyflawnwyd mewn perthynas â sefydliadau partner, gan gynnwys manylion unrhyw gamau cywirol a gymerwyd pan oedd canlyniadau'r hapwiriadau'n anfoddhaol.

Lle mae'n eglur nad yw partneriaid/ darparwyr yn gallu cyrraedd y safonau hyn, mae'n rhaid i'r holl gofnodion gael eu trosglwyddo a'u dal gan y buddiolwr.

Lle mae'r buddiolwr yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol, dylai hefyd ystyried ei gwneud yn ofynnol trosglwyddo dogfennau gwreiddiol ar yr adeg pan fo cyd-fuddiolwyr/ darparwyr yn cyflwyno'u hanfonebau neu eu datganiadau o wariant.

Gall llungopïau, delweddau wedi'u sganio a chofnodion digidol a ddelir gan bartneriaid/ darparwyr fod yn gofnodion derbyniol yn amodol ar y trefniadau diogelu arferol o ran eu dilysrwydd a ddisgrifir yn 5.1.4.2.

Yn yr un modd, lle mae'r buddiolwr yn cael ei hysbysu, neu'n amau, y bydd partner/ darparwr yn rhoi'r gorau i fasnachu cyn bo hir (dirwyn y busnes i ben, ei ddiddymu, datodiad etc) neu fod digwyddiad arall ar ddod, a allai amharu ar y gallu i gydymffurfio â'r holl ofynion o ran cadw cofnodion, mae'n rhaid iddo drefnu bod y cofnodion yn cael eu trosglwyddo a'u dal ar ei safle ei hun.

Fe'ch atgoffir y bydd diffyg trywydd archwilio digonol, neu anallu i gael mynediad at gofnodion yn ystod archwiliadau a gwiriadau, yn arwain at ddatgan bod y gwariant cysylltiedig yn anghymwys a gostyngiad cyfatebol yng ngrant yr UE. Bydd hyn yn digwydd ni waeth pa un a gafodd y broblem ei hachosi gan weithredoedd y buddiolwr ei hun ynteu gan weithredoedd partner/ darparwr. Mae'n bwysig iawn felly bod y buddiolwr yn egluro'r gofynion yn eglur wrth ei bartneriaid o'r dechrau.

Yn olaf, fel a nodir yn y cytundeb cyllid grant, mae'n rhaid i chi gadw rhestr gyfoes o leoliad holl gofnodion y prosiect drwy'r amser.

Gweler **Atodiad C** am fwy o wybodaeth am drywyddion archwilio.

RHAN 3: COSTAU CYMWYS

6. Dulliau o Gyfrifo a Datgan eich Costau Cymwys

Pan fyddwch yn ymgeisio am gyllid, byddwn ni'n gweithio gyda chi i nodi'r opsiynau ar gyfer rhagfynegi, cyfrifo ac adrodd ar wariant cymwys. Caiff swm grant yr UE y byddwn ni'n ei dalu i chi ei bennu gan y gwariant cymwys y byddwch chi'n ei ddatgan wrthym ni. Yr opsiynau yw:

costau real	•Gweler **Adran 7**. Cyfrifir costau cymwys trwy gyfeirio at y costau yr ydych chi wedi'u hysgwyddo a'u talu, ynghyd, os yw'n berthnasol, â chyfraniadau o fath arall gan drydydd partïon a thaliadau dibrisiant.
cyfraddau safonol	•Gweler **Adran 19**. Gan ddefnyddio'r dull 'costau symlach', cyfrifir costau cymwys trwy gymhwyso canran ar sail cyfradd safonol i rai categorïau costau eraill. Er enghraifft, costau anuniongyrchol yn cael eu cyfrifo fel % benodedig o gostau staff.
cost uned neu lwmp-swm	•Gweler **Adran 19**. Gan ddefnyddio'r dull 'costau symlach', cyfrifir costau cymwys trwy ddefnyddio cost uned benodedig ar gyfer cyflawni gweithgareddau y cytunwyd arnynt neu gyflawni allbynnau/ canlyniadau y cytunwyd arnynt.
cymysg	•Cyfuniadau o'r dulliau uchod o fewn yr un gweithrediad: rhai categorïau o gostau - neu gostau gweithgareddau/ prosiectau cyfan - yn cael eu had-dalu gan ddefnyddio 'costau symlach' ac eraill gan ddefnyddio 'costau real'.

Mewn rhai prosiectau, neu ar gyfer rhai categorïau o gostau, efallai na fydd yr opsiynau hyn i gyd ar gael - gweler **Adran 19.**

7. Costau Real

7.1 Diffiniad o 'Gostau Real'

Costau a ysgwyddwyd ac a dalwyd mewn gwirionedd gan fuddiolwyr ac a ddatganwyd fel gwariant cymwys yn eich hawliad am daliad i ni neu, lle y bo'n berthnasol, i'r Corff Cyfryngol a ddynodwyd gennym ni i dderbyn eich hawliad.

Yn ogystal â chostau a ysgwyddwyd ac a dalwyd mewn gwirionedd gennych chi, mae 'costau real' hefyd yn cynnwys:

- Cyfraniadau o fath arall gan drydydd partïon - gweler **Adran 17**.
- Taliadau dibrisiant – gweler **13.2**.

Ar gyfer pob cost unigol a hawlir, mae'n rhaid bod tystiolaeth bod y symiau wedi cael eu talu mewn gwirionedd gennych chi, ynghyd ag anfonebau taledig – neu ddogfennau cyfatebol – sy'n profi realiti'r costau sydd wedi'u datgan.

7.2 RHEOLAU

[11] Mae'n rhaid i gostau real fod yn adnabyddadwy, yn wiriadwy ac wedi'u cofnodi yn eich cofnodion cyfrifyddu a chan ddefnyddio eich arferion cyfrifyddu costau arferol a safonau cyfrifyddu perthnasol y DU. Mewn geiriau eraill, ni ddylech newid eich polisïau ac arferion cyfrifyddu costau dim ond am fod eich prosiect yn cael ei ariannu'n rhannol o gronfeydd yr UE.

[12] Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich hawliad inni, neu lle y bo'n berthnasol i'r Corff Cyfryngol, dim ond pan fo'r costau wedi cael eu hysgwyddo a'u talu mewn gwirionedd, ac eithrio ar gyfer costau dibrisiant a chyfraniadau o fath arall gan nad yw'r symiau hynny'n cael eu talu gennych chi mewn gwirionedd.

[13] Mae cyflogau neu lwfansau a dalwyd gan drydydd parti, cyflogwr fel arfer, er budd cyfranogwyr ESF ac a ardystiwyd yn briodol, yn gostau real (cyfraniadau o fath arall).

7.3 EGLURHAD A CHANLLAWIAU

7.3.1 Diffiniad o Gostau 'a ysgwyddwyd' / 'wedi'u hysgwyddo'

Costau y mae buddiolwr yn atebol amdanynt h.y. rhwymedigaeth gytundebol, gyfreithiol neu rwymedigaeth debyg i wneud taliad. Nid yw'r un fath â dyddiad yr anfoneb o anghenraid gan y gallai dyddiadau anfonebu fod cyn neu ar ôl y dyddiad y caiff cost 'ei hysgwyddo'. Mae taliadau ar gyfer anfonebau a gyflwynwyd cyn bod nwyddau neu wasanaethau wedi cael eu derbyn neu eu darparu yn cael eu hystyried yn daliadau 'a ysgwyddwyd ac a dalwyd' dim ond o dan yr amgylchiadau a nodir yn 7.3.4.

Mae'n rhaid i gostau cymwys fod wedi'u hysgwyddo go iawn gan fuddiolwr a gymeradwywyd gennym ni – nid gan drydydd parti, hyd yn oed os yw'r buddiolwr yn mwynhau manteision y pryniannau hynny.

Mae taliadau ar gyfer anfonebau sy'n deillio o gontractau a osodwyd gan fuddiolwyr yn 'gostau a ysgwyddwyd gan y buddiolwr' hyd yn oed os cafodd darparwr gwasanaeth caffael/ corff prynu allanol ei gontractio i gyflawni'r gweithdrefnau caffael (mae'r buddiolwr yw'r endid cyfreithiol sy'n atebol yn gytundebol am dalu i'r contractwr o hyd).

7.3.2 Diffiniad o Gostau 'a dalwyd' / 'wedi'u talu'

Mae costau 'a dalwyd' yn golygu alldaliad gan y buddiolwr a ysgwyddodd y gost h.y. bod arian wedi cael ei ddebydu o gyfrif banc y buddiolwr a'i drosglwyddo i'r contractwr, cyflogai, sefydliad y mae'r tâl yn ddyledus iddo a.y.b.

Weithiau, bydd eich prosiect yn gwneud taliad neu drosglwyddiad mewnol i ran arall o'ch sefydliad, naill ai ar sail cofnod tybiannol/ cyfrifyddu (e.e. cofnodion cadw cyfrifon rhwng canolfannau cost gwahanol) neu drwy drafodiad talu sy'n ymwneud â 'chost wirioneddol' rhwng cyfrifon banc gwahanol a hwnnw wedi'i ategu gan anfonebau mewnol. Gallai'r taliadau hyn fod yn seiliedig ar: gyfraddau safonol a gytunwyd yn sefydliadol ar gyfer 'aseinio costau rhwng adrannau'; neu ar sail 'fasnachu' hyd braich (cost ac elw). Ym mhob achos, byddwn ni'n ystyried bod y trafodiad yn un 'a dalwyd' dim ond pan fo arian yn gadael cyfrif(on) banc y sefydliad ac yn cael ei drosglwyddo i'r contractwr allanol/ darparwr gwasanaethau neu gyflogai – nid pan fo arian yn cael ei symud rhwng rhannau, neu gyfrifon banc, gwahanol yn yr un sefydliad.

Ni ystyrir bod taliadau/ trosglwyddiadau ariannol rhyngoch chi ac unrhyw bartneriaid cydweithredol (y tu allan i gyflawni dan gontract e.e. trosglwyddo arian gan fuddiolwr arweiniol i gyd-fuddiolwr – neu – gyd-fuddiolwr i/ gan gyd-fuddiolwr arall) yn rhai 'a dalwyd' nes bod y taliadau wedi cael eu gweithredu i drydydd parti e.e. cyflenwyr, contractwyr neu gostau cyflogau wedi cael eu talu i gyflogeion.

Mae costau real yn gostau 'a dalwyd' pan fyddant yn cwblhau'r broses dalu, sef yn benodol:

Math o daliad	Pryd ystyrir ei fod yn gost 'a dalwyd'?
Taliadau electronig/ awtomataidd: • Debydau uniongyrchol • Archebion sefydlog • BACS • CHAPS	Trafodiad debyd wedi'i gofnodi ar gyfrif banc y buddiolwr

• Trosglwyddiadau ariannol	
Siec	Trafodiad debyd wedi'i gofnodi ar gyfrif banc y buddiolwr
Cerdyn debyd	Trafodiad debyd wedi'i gofnodi ar gyfrif banc y buddiolwr
Cerdyn credyd (cerdyn credyd neu gerdyn talu corfforaethol/ y sefydliad – nid cardiau personol aelodau o staff).	Trafodiad wedi'i gofnodi ar gyfrif y cerdyn credyd (ni waeth pa un a yw balans y cerdyn credyd yn cael ei ad-dalu yn y pen draw ai peidio)
Arian (arian mân)	Pan fo'r derbynnydd yn cael yr arian ac yn llofnodi/ dyroddi derbynneb.
Talebau a thocynnau	Pan fydd y buddiolwr yn talu'r daleb neu'r tocyn, nid pan fydd y derbynnydd yn ei ddefnyddio

7.3.3 Diffiniad o 'Adnabyddadwy' a 'Gwiriadwy'

Mae'n rhaid i chi roi cyfrif am gostau real naill ai gan ddefnyddio cyfrifon banc ar wahân a weithredir at y diben hwn yn unig neu drwy ddefnyddio codau cyfrifyddu sy'n creu cyswllt unigryw rhwng y trafodion a phrosiect yr UE.

Bydd angen i chi roi rhestr i ni o daliadau a derbyniadau unigol ar gyfer pob cyfnod hawlio ac mae'n rhaid i'r rhestr hon fod yn gyson â'r symiau a gaiff eu datgan yn eich hawliad am daliad.

Dylai'r rhestr drafodion hon o gostau a derbyniadau gael ei chreu'n uniongyrchol gan eich system gyfrifyddu neu, os caiff ei chynhyrchu â llaw, dylai fod modd ei chysoni â'ch cofnodion cyfrifyddu.

Mewn gweithrediadau cydweithredol, neu gynlluniau cymorth a reolir gan Gyrff Cyfryngol, mae'n rhaid i bob buddiolwr – buddiolwr arweiniol, cyd-fuddiolwr neu fuddiolwr cynllun cymorth – gydymffurfio â'r amod hwn ar gyfer y gwariant cymwys y mae'n adrodd arno wrth y buddiolwr arweiniol/Corff Cyfryngol. Mae'r canllawiau ar wahân, 'Modelau Cyflawni WEFO 2014-2020' yn egluro gweithrediadau cydweithredol a chynlluniau cymorth.

7.3.4 Talu am Nwyddau neu Wasanaethau Ymlaen Llaw

Os yw'n **ofynnol i chi** dalu am nwyddau neu wasanaethau ymlaen llaw, gan gynnwys blaendaliadau, gallwch gynnwys y costau hyn yn eich hawliad i ni fel cost 'a dalwyd' ond dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol:

- lle mae hyn yn gyson â thelerau busnes safonol y cyflenwr neu'r contractwr a bod hyn ar eu cais hwy neu'n anosgoadwy; ac
- i sicrhau'r pris gorau neu sicrhau disgowntiau sylweddol (er enghraifft, tocynnau teithio a llety); neu
- i sicrhau'r ansawdd gorau (e.e. archebu'n gynnar er mwyn sicrhau'r lleoliad gorau ar gyfer digwyddiad allweddol sy'n hanfodol i lwyddiant y prosiect).

Mae'n rhaid i chi beidio â chynnig y trefniant hwn o'ch gwirfodd i gyflenwyr na chamddefnyddio'r rheol i gyflymu mynediad at gronfeydd yr UE. Os nad ydych yn gallu defnyddio'r nwyddau neu wasanaethau hyn yn ddiweddarach oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'ch rheolaeth (er enghraifft, canslo taith neu ddigwyddiad, tywydd gwael etc) mae'n rhaid i chi ddogfennu'r amgylchiadau llawn yng nghofnodion eich prosiect fel rhan o'r trywydd archwilio.

Mae'n rhaid i chi sicrhau hefyd bod y nwyddau'n cael eu cyflenwi neu'r gwasanaethau'n cael eu darparu cyn diwedd eich prosiect. Os na chaiff y contract ei gyflawni, mae'n rhaid i chi geisio ad-daliad ac mae'n rhaid i wariant cymwys eich prosiect gael ei ostwng yn unol â hynny fel nad ydych yn hawlio grant yr UE.

7.3.5 Cadw Taliadau yn ôl, Symiau ar gyfer Hapddigwyddiadau, Cyfrifon Ysgrow a Bondiau Talu Diwydiant-benodol Tebyg.

Ystyrir bod taliadau mewn perthynas â symiau ar gyfer hapddigwyddiadau, a ddefnyddir yn nodweddiadol mewn contractau adeiladu, yn rhai a ysgwyddwyd ac a dalwyd ar yr adeg y byddwch chi'n talu i'r contractwr os yw'n ofynnol fel rhan o delerau ac amodau safonol y contractwr.

Fodd bynnag, mae symiau ar gyfer hapddigwyddiadau wedi'u cyfyngu i 10% o gyfanswm costau cymwys y gweithrediad (a gyfrifwyd heb gynnwys y symiau ar gyfer hapddigwyddiadau).

Hefyd, mae'n rhaid i chi sicrhau bod yr arian yn cael ei ryddhau, ei ddychwelyd neu ei ddisodli â chostau real yn unol â thelerau'r contract a, fan bellaf, cyn 31 Rhagfyr 2023. Mae gwariant sy'n cael ei ddal o hyd gan gontractwr fel swm ar gyfer hapddigwyddiadau ar ôl 2023 yn anghymwys ar gyfer cymorth a bydd angen ei dynnu o'r costau cymwys sydd wedi'u datgan gennych.

Mae'r un dull yn berthnasol lle mae'n ofynnol i chi adneuo arian i gyfrif ysgrow neu fond talu tebyg a ddelir yng nghyfrif banc trydydd parti nes bod telerau penodol fel rhan o'r contract wedi'u cyflawni. Mae'r rheolau hyn yn berthnasol dim ond lle mae trefniadau o'r fath yn arferol neu'n delerau busnes safonol ar gyfer y mathau o waith, cyflenwadau neu wasanaethau dan sylw. Ni fydd costau'n cael eu hystyried yn rhai 'a dalwyd' os yw trefniadau o'r fath yn cael eu cychwyn ar fenter y buddiolwr i osgoi'r rheol cymhwystra arferol ar gyfer costau 'a dalwyd'.

Os byddwch chi'n cadw rhan o'r taliad sy'n ddyledus i gontractwr yn ôl nes bod yr holl waith wedi cael ei gwblhau'n foddhaol, rhowch wybod i ni fel bod eich proffil taliadau'n adlewyrchu hyn. Sylwer bod yn rhaid i'r taliad terfynol gael ei wneud i'r contractwr neu'r darparwr gwasanaethau cyn 31 Rhagfyr 2023 i fod yn gymwys.

7.4 GWERTH AM ARIIAN A RHEOLAETH ARIANNOL GADARN

RHEOLAU

[14] Mae'n rhaid i gostau real fod yn rhesymol, yn gyfiawnadwy a rhoi gwerth am arian.

[15] Mae'n rhaid i gostau real fod yn amlwg yn angenrheidiol i reoli a gweithredu eich prosiect yn y modd a ddisgrifir yn y cais am gyllid a gymeradwywyd gennym ni neu'r Corff Cyfryngol.

[16] Y rheol 'cyllido dwbl'. Mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn cyflwyno eitem o wariant (h.y. eitem gost benodol) ar gyfer ad-daliad **dim ond unwaith** ac mae'n rhaid i chi beidio â chyflwyno'r eitem o wariant i wahanol ffynonellau cyllido'r UE ar wahân er mwyn cael cymorth ariannol o fwy nag un ffynhonnell ar gyfer yr un eitem gost.

7.5 EGLURHAD A CHANLLAWIAU

7.5.1 Gwerth am Arian

Mae egwyddor 'cynildeb' yn golygu ei bod yn ofynnol bod adnoddau ar gael ar yr adeg gywir, mewn maint ac ansawdd priodol ac am y pris gorau.

Mae egwyddor 'effeithlonrwydd' yn ymwneud â'r berthynas orau rhwng yr adnoddau a ddefnyddir a'r canlyniadau a gyflawnir.

Mae egwyddor 'effeithiolrwydd' yn ymwneud â chyflawni'r amcanion penodol a bennwyd a chyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd.

Mae'n dilyn felly na fydd gwariant diangen, anghymeradwy, gormodol na di-hid yn cael ei gefnogi gan Gronfeydd yr UE.

7.5.2 Cyflawni Gwerth am Arian mewn Pryniannau Gwerth-isel Cylchol sy'n Ymwneud â'r un Nwyddau neu Wasanaethau neu Rai Tebyg

Gellir ystyried bod costau'n ormodol, ac felly'n anghymwys, os oes tystiolaeth eich bod yn talu symiau sylweddol uwch am gyflenwadau, nwyddau a gwasanaethau na chyfraddau'r farchnad ar y pryd.

Lle nad yw ein rheolau prynu/ caffael ni, neu eich rhai chi eich hun (gweler Adran 36.3) yn ei gwneud yn ofynnol i chi gael mwy nag un dyfynbris, disgwylir o hyd i chi

wneud ymdrechion rhesymol i gymharu prisiau neu gynnal ymarferion meincnodi ar gyfer nwyddau a gwasanaethau y byddwch yn eu prynu ar sail gylchol. Nid yw hyn yn ofynnol mewn perthynas â chostau staff na lle rhagfynegir y bydd gwerth cyfanredol y pryniad cylchol yn llai na £1,000 dros oes y prosiect.

Yng ngweithrediadau cydweithredol WEFO (buddiolwr arweiniol ac un neu fwy o gyd-fuddiolwyr) mae'n rhaid i'r buddiolwr arweiniol sicrhau bod yr ymarferion cymharu prisiau a'r asesiadau meincnodi'n cael eu cyflawni ar draws yr holl brosiectau yn y gweithrediad h.y. ni ddylai un buddiolwr fod yn talu pris sylweddol uwch am yr un cynnyrch neu wasanaeth o'i gymharu â buddiolwyr eraill yn y gweithrediad.

Os yw buddiolwr yn rhan o fwy nag un gweithrediad a gyllidir gan Gronfeydd yr UE yng Nghymru, dylai'r cymariaethau rhwng prisiau/ asesiadau meincnodi gael eu cyflawni ar draws yr holl weithrediadau cyfatebol os prynir yr un nwyddau neu wasanaethau neu nwyddau neu wasanaethau tebyg.

Mae'n rhaid i chi gadw tystiolaeth o'r ymarferion cymharu prisiau hyn ar gyfer gwiriadau ac archwiliadau yn y dyfodol gan gynnwys, os yw'n berthnasol, cofnodi eich cyfiawnhad dros beidio â chymharu prisiau (defnydd dilys o un cyflenwr, darpariaeth bwrpasol/ arbenigol etc).

Pwrpas y rheolaeth hon yw cyflawni gwerth am arian trwy ddangos nad yw buddiolwyr yn talu mwy na'r ystod brisiau a dderbynnir yn gyffredinol am nwyddau a gwasanaethau tebyg. Nid yw'n golygu bod yn rhaid dewis y nwyddau neu wasanaethau 'rhataf' bob amser – dim ond un elfen o ystyriaethau gwerth-am-arian yw'r pris.

7.5.3 Y Rheol 'Cyllido Dwbl'

Er bod cyllido dwbl ar gyfer yr un eitem gost yn amlwg yn waharddedig fel a nodir yn y rheol uchod, gallwch ddyrannu eitem o wariant rhwng mwy nag un o brosiectau'r UE neu gronfeydd yr UE ond mae'n rhaid i chi gytuno ar ddull ar gyfer dyrannu costau. Er enghraifft, dyrannu costau marchnata a rennir lle mae eich prosiect neu grŵp o brosiectau'n cael ei gefnogi gan fwy nag un o gronfeydd yr UE.

Os ydych yn cyflawni mwy nag un gweithrediad ar yr un pryd, mae'n rhaid bod gennych fecanweithiau i ddangos bod eitemau o wariant yn cael eu datgan ar gyfer ad-daliad unwaith yn unig ac nad oes mwy na 100% o bob cost yn cael ei hawlio ar y cyfan.

7.5.4 Defnyddio Cyfleusterau, Asedau ac Offer Arall y mae'r Buddiolwr Eisoes yn Meddu Arnynt

Rydym yn disgwyl i chi ddefnyddio unrhyw adeiladau, asedau ac offer sydd ar gael/ ddim yn cael eu defnyddio os ydynt yn addas ar gyfer anghenion y prosiect yn hytrach na phrynu eitemau newydd neu rentu adeiladau.

Lle gwneir hyn, gallwch hawlio costau cynnal a chadw, atgyweiriadau, defnyddiau traul ac ati sy'n deillio o ddefnydd y prosiect o'r cyfleusterau ac offer hyn.

7.6 DYDDIADAU CYMHWYSTRA

RHEOLAU

[17] Mae'n rhaid i gostau real fod wedi'u hysgwyddo **a'u** talu ar neu ar ôl 1 Ionawr 2014 ac yn ddim hwyrach na 31 Rhagfyr 2023.

[18] Bydd dyddiad dechrau eich cymhwystra yn cael ei gadarnhau yn y cytundeb cyllid grant a bydd hwn fel arfer yr un fath â'r dyddiad y byddwn yn cymeradwyo eich prosiect. Gallwn ystyried cymeradwyo costau a ysgwyddwyd neu a dalwyd cyn y dyddiad hwn, ond nid cyn 1 Ionawr 2014, fesul achos unigol (gweler 'costau rhagarweiniol' a 'cymeradwyaeth ôl-weithredol' isod).

[19] Mae'n rhaid i gostau fod wedi'u hysgwyddo yn ystod cyfnod gweithredu eich gweithrediad, y cyfnod ymbaratoi neu gyflawni, ac eithrio costau a ysgwyddir pan fyddwn ni'n ei gwneud yn ofynnol cymryd camau gweithredu y tu hwnt i'r cyfnod gweithredu megis adroddiadau terfynol, gweithgareddau terfynu prosiect, gwerthusiadau, gwiriadau ac archwiliadau.

[20] Os byddwn ni'n newid ein rhaglenni gyda'r CE i ychwanegu gweithgareddau newydd y gellir eu cefnogi am y tro cyntaf, bydd unrhyw gostau sy'n dod yn gymwys wedyn oherwydd y newid yn gymwys dim ond o'r dyddiad y byddwn ni'n cyflwyno ein rhaglen ddiwygiedig i'r CE i gael ei chymeradwyo ganddynt. Byddwn yn cadarnhau'r dyddiad hwn yn y cytundeb cyllid grant.

7.7 EGLURHAD A CHANLLAWIAU

Mae costau a ysgwyddwyd cyn 2014 yn anghymwys ar gyfer cymorth hyd yn oed os cânt eu talu mewn blynyddoedd diweddarach.

7.7.1 Cymeradwyaeth ôl-weithredol i Weithrediadau

Gallwn ystyried cymeradwyo cyllid ar gyfer eich gweithrediad hyd yn oed os yw eisoes wedi dechrau a bod costau wedi cael eu hysgwyddo a'u talu. Fodd bynnag, ni allwn roi cyllid i chi os yw'r gweithrediad, ar yr adeg y caiff eich cais ffurfiol am gyllid ei gyflwyno i ni, **wedi cael ei weithredu'n llawn** neu'n **ffisegol gyflawn**, ni waeth pa un a ydych wedi gwneud pob un o'r taliadau cysylltiedig.

Gellir ystyried gweithrediadau ar gyfer cymeradwyaeth ôl-weithredol mor bell yn ôl ag **1 Ionawr 2014**.

Ni fyddwn ond yn defnyddio'r hyblygrwydd hwn os ydym yn fodlon eich bod yn gallu dangos bod eich gweithrediad **wedi cydymffurfio â'r holl reolau ac amodau perthnasol** a nodir yn eich cytundeb cyllid, er enghraifft: codau cyfrifyddu ar wahân

ar gyfer trafodiadau ariannol; cydymffurfiaeth â rheolau perthnasol ynglŷn â chymhwystra costau; trywyddion archwilio digonol; cydymffurfiaeth lawn â deddfwriaeth Caffael Cyhoeddus a Chymorth Gwladwriaethol etc

Am y rhesymau hyn, mae'n rhaid i unrhyw weithgareddau y byddwch chi'n ymgymryd â hwy, neu gostau y byddwch chi'n eu hysgwyddo, cyn ein bod yn cymeradwyo eich gweithrediad, fod ar eich menter eich hun.

Er mwyn eglurder:

- Mae'r rheol yn berthnasol ar lefel y gweithrediad – nid ar lefel prosiectau, camau gweithredu, gweithgareddau neu geinciau cyflawni unigol eraill o fewn gweithrediad.
- Os yw'r gweithrediad yn cael ei gwblhau'n ffisegol neu ei weithredu'n llawn ar ôl cyflwyno'r cais am gyllid yn ffurfiol i ni – ond cyn ein bod yn gwneud y penderfyniad ynghylch y cyllid – mae hyn yn dderbyniol a gellir ystyried y gweithrediad ar gyfer cymorth.
- Mae 'cyflawn' yn golygu nad oes angen unrhyw weithgarwch pellach i gwblhau'r buddsoddiad, bod y gwaith yn gyflawn ac wedi'i dderbyn mewn modd sy'n cydymffurfio â'r gofynion a ragwelwyd gan y ddeddfwriaeth genedlaethol (os yn berthnasol). Mae'r cyfeiriad at 'ddeddfwriaeth genedlaethol' yn golygu, er enghraifft, bod yr holl fesurau/profion iechyd a diogelwch angenrheidiol wedi cael eu cwblhau'n llwyddiannus a bod y buddsoddiad felly'n barod ar gyfer ei ddefnydd bwriadedig/ yn barod i gael ei weithredu.
- Mae 'ffisegol gyflawn' yn berthnasol i fuddsoddiadau ffisegol, pendant (e.e. mewn seilwaith, adeiladau, asedau, offer) lle mae eu cyflwr o ran eu cwblhau yn hunanamlwg ac mae 'wedi cael ei weithredu'n llawn' yn berthnasol i weithrediadau eraill. Mae 'wedi cael ei weithredu'n llawn' yn golygu bod yr holl weithgareddau a chamau gweithredu arfaethedig a oedd wedi'u nodi yn y cynllun busnes wedi cael eu cyflawni.

7.7.2 Costau Rhagarweiniol (Contractau Gwaith)

Ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud ag adeiladau, adeiladu a gwaith, gallwn ystyried ad-dalu costau real a ysgwyddwyd ac a dalwyd yn ystod cyfnod paratoi'r prosiect/ paratoi'r contract, hyd yn oed os cawsant eu hysgwyddo a'u talu cyn bod y cyllid wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol. Gall hyn gynnwys y costau gwirioneddol a ysgwyddwyd ac a dalwyd ar gyfer gwaith ymchwilio i safleoedd, arolygon safleoedd, arfarniadau amgylcheddol, ffioedd penseiri, dadansoddiadau cost a budd, astudiaethau dichonoldeb, costau dylunio, a pharatoi dogfennau tendro ar gyfer caffael.

Os byddwch yn penderfynu gosod contract cyn eich bod yn cael ac yn derbyn ein Cytundeb Cyllid, byddwch yn gwneud hyn ar eich menter chi eich hun wrth gwrs.

Os byddwn yn cymeradwyo costau o'r fath, mae'n rhaid eu bod wedi'u hysgwyddo ac yn cael eu talu ar neu ar ôl 1 Ionawr 2014. Bydd eich Cytundeb Cyllid hefyd yn cadarnhau cymhwystra unrhyw gostau rhagarweiniol.

8. CATEGORÏAU COSTAU: Costau Uniongyrchol

Cofiwch fod costau'n gymwys dim ond pan fônt yn ymwneud, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, â gweithgaredd prosiect cymwys neu, ar gyfer prosiectau ESF, yn ymwneud â chyfranogwyr cymwys.

Mae 'categorïau costau' yn golygu eitemau o wariant â nodweddion a diben tebyg.

8.1 Diffiniad o Gostau 'Uniongyrchol'

Ystyr costau uniongyrchol yw costau cychwyn a gweithredu'r gweithgareddau prosiect y cytunwyd arnynt lle gall **cyswllt uniongyrchol** rhwng y gost a'r gweithgareddau a gefnogir gan yr UE gael ei ddangos a'i **fesur yn rhwydd** heb yr angen i ystyried methodolegau dosrannu mympwyol (ffactorau rheoli costau sy'n seiliedig ar y lle a feddiannir gan y prosiect mewn troedfeddi sgwâr, cyfrif pen, oriau staff etc).

Mae contractau a osodir gan fuddiolwyr yn gostau uniongyrchol, hyd yn oed os yw telerau prisio'r contract yn galluogi'r contractwr i gael taliadau am yr hyn y mae'r contract o bosibl yn ei nodi'n 'gostau anuniongyrchol' iddo.

8.2 Dyrannu costau Uniongyrchol

Sefyllfa 1: Costau uniongyrchol cymwys adnabyddadwy wedi'u rhestru mewn anfoneb/ contract/ datganiad ochr yn ochr â chostau anghysylltiedig neu anghymwys eraill.

Mae'r costau hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gweithgaredd a gefnogir gan yr UE, a gellir dangos cyswllt uniongyrchol, ond mae'r anfoneb – neu ddogfen gyfatebol – yn cydgrynhoi'r costau ag eitemau eraill nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r prosiect penodol a gefnogir gan yr UE. Felly, mae angen adnabod a dyrannu'r costau sy'n gysylltiedig â phrosiect yr UE. Wedyn gellir trin y symiau hyn fel costau uniongyrchol.

Yn ystod archwiliadau a gwiriadau bydd angen gweld cofnodion ategol i wirio'r sail i ddyrannu'r costau.

Enghreifftiau:

- Llinellau ffôn a chostau galwadau y gellir eu holrhain i staff y prosiect unigol a gefnogir gan yr UE neu i weithfan a ddefnyddir gan dîm y prosiect a gefnogir gan yr UE yn unig.
- Mae pencadlys/ canolfan gorfforaethol y buddiolwr yn talu swm penodedig i ddarparwr gwasanaethau sydd wedi'i gontractio ar gyfer pob aelod o staff yn y

sefydliad (e.e. i ddarparu gwasanaethau TGCh neu drwyddedau meddalwedd y codir amdanynt fesul defnyddiwr). Gallai'r prosiect a gefnogir gan yr UE hawlio'r costau hyn fel 'costau uniongyrchol' ar gyfer y staff sy'n gweithio ar y prosiect a gefnogir gan yr UE os yw'r gwasanaethau hynny'n cael eu defnyddio mewn gwirionedd a bod y prosiect a gefnogir gan yr UE yn cael budd o'r gwasanaethau. Mae'n ofynnol bod â thrywydd archwilio i nodi'r unigolion penodol sy'n cael budd o'r gwasanaethau a thystiolaeth o'r symiau sy'n cael eu talu i'r contractwr.

Sefyllfa 2: Costau sy'n llwyr gysylltiedig â gweithgareddau cymwys sydd o fudd uniongyrchol i fwy nag un gweithrediad WEFO. Gall y costau sydd i'w priodoli i'r priod weithrediadau WEFO gael eu mesur trwy ddyraniad costau pro-rata y cytunwyd arno ymlaen llaw gennym ni.

Mae'r sefyllfa hon yn codi pan fo costau neu weithgareddau cymwys yn gysylltiedig â mwy nag un gweithrediad WEFO, er enghraifft cynlluniau 'Cymru gyfan' a gyllidir gan weithrediadau yn rhanbarth Dwyrain Cymru a rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Yn y sefyllfaoedd hyn, gallai unigolion neu dimau fod yn cyflawni gweithgareddau cymwys sy'n torri ar draws nifer o weithrediadau megis tîm marchnata, digwyddiadau a chyhoeddusrwydd ar y cyd yn gweithio ar nifer o weithrediadau WEFO **yn unig**.

Gall costau o'r fath gael eu trin fel costau uniongyrchol a'u **dyrannu** i'r gweithrediadau WEFO cyfatebol sy'n cael budd o'r gweithgareddau. Ni all gwerth llawn y costau gynnwys unrhyw eitemau anghymwys e.e. gwaith nad yw o fudd uniongyrchol i weithrediadau WEFO. Lle mae'r costau'n cynnwys rhai elfennau nad ydynt yn gysylltiedig â gweithrediadau WEFO a lle nad yw'n bosibl mesur yr union swm, daw'r gost gyfan i fod yn 'gost anuniongyrchol' (ond gweler sefyllfa 3 isod ar gyfer cynlluniau Cymru gyfan a gefnogir gan un rhanbarth rhaglenni yn unig).

Bydd dyraniad costau pro-rata yn cael ei gytuno gyda ni ymlaen llaw yn seiliedig ar y gyfran gymharol o'r allbynnau neu ganlyniadau rhagolygol, a aseswyd yn y cam cymeradwyo ar gyfer yr amryw weithrediadau sy'n cael budd o'r costau a rennir/ gweithgareddau cyffredin.

Lle mae mwy nag un math o ddangosydd allbwn cyffredin yn bresennol, byddwn yn penderfynu pa ddangosydd fydd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion y canrannau dyrannu costau.

Enghraifft: Un tîm marchnata a chyhoeddusrwydd ar gyfer dau weithrediad WEFO sy'n cydredeg.

- Gweithrediad ERDF 1 – yn amcanu at gefnogi 400 o fentrau (dyrannu 40% o'r costau marchnata a rennir i'r gweithrediad hwn)

- Gweithrediad ERDF 2 – yn amcanu at gefnogi 600 o fentrau (dyrannu 60% o'r costau marchnata a rennir i'r gweithrediad hwn)

Er mwyn helpu i symleiddio ar gyfer buddiolwyr ac i leihau costau gweinyddol gymaint ag a ellir, nid oes angen i'r canrannau dyrannu pro rata gael eu haddasu hyd yn oed os yw allbynnau gwirioneddol yn uwch neu'n is na'r disgwyl. Fodd bynnag, os byddwn ni'n ailwerthuso unrhyw weithrediadau (gan gynyddu neu ostwng costau cymwys a/neu'r targedau allbwn cyfatebol yr oedd y cyfrifiadau ar gyfer dyrannu costau'n seiliedig arnynt), mae'n rhaid i'r ganran ddyrannu gael ei hailgyfrifo a bydd yn berthnasol ar gyfer yr holl hawliadau a gaiff eu datgan wrthym yn dilyn newid o'r fath (ond nid oes angen unrhyw gyfrifiadau ôl-weithredol).

Lle nad yw'r gweithrediadau WEFO yn rhannu dangosydd allbwn neu ganlyniadau cyffredin, yn amlwg ni fydd yn bosibl defnyddio'r dull dyrannu costau uchod.

Mewn achosion o'r fath, byddwn yn cytuno ar ganran dyrannu yn seiliedig ar gyfran pro rata o'r **gwariant cymwys cymeradwy** ar gyfer y gweithrediadau cysylltiedig a fydd yn cael budd o'r costau a rennir/ gweithgareddau cyffredin. Mae canran ddiwygiedig yn ofynnol os byddwn yn ailwerthuso unrhyw weithrediadau yn unol â'r paragraff blaenorol.

Ym mhob achos, rhaid i fethodolegau dyrannu beidio ag arwain at ddatgan mwy na 100% o'r costau cymwys wrthym ni. Mae'n rhaid i fuddiolwyr gadw dogfennau a chyfrifiadau ategol digonol i ddangos bod hyn yn wir.

Lle mae un gweithrediad yn dod i ben, neu fod gweithrediad ychwanegol yn cael ei gymeradwyo, mae'n rhaid i ganran ddyrannu ddiwygiedig (yn seiliedig ar un o'r ddau ddull dyrannu a eglurwyd uchod) gael ei chytuno gyda ni ar gyfer hawliadau a gyflwynir o'r adeg honno ymlaen i sicrhau y gellir parhau i ddatgan 100% o'r costau cymwys a bod pob gweithrediad yn amsugno'i gyfran deg o'r costau.

Sefyllfa 3: Costau cynlluniau/ prosiectau Cymru gyfan lle mae WEFO yn darparu cymorth o raglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig ac nid o raglen Dwyrain Cymru (neu yn y drefn arall).

Er enghraifft, mae buddiolwr yn rhentu swyddfa ac yn defnyddio'r swyddfa honno i weithredu prosiect/cynllun cymorth Cymru gyfan yn unig ond dim ond rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd sy'n cael cymorth gan WEFO. Mae rhan Dwyrain Cymru o'r cynllun yn cael ei chyllido'n gyfan gwbl â chyllid cenedlaethol.

Gellir trin y costau fel 'cost uniongyrchol' ar gyfer y gweithrediad WEFO yn amodol ar y fethodoleg a'r amodau a nodir isod.

Lle mae dangosydd allbwn cyffredin (neu ddangosydd 'canlyniadau uniongyrchol' addas) yn bodoli rhwng y prosiect(au) cymeradwy ar draws y ddau ranbarth

Er enghraifft, nifer y cyfranogwyr neu'r mentrau a fydd yn cael cymorth yn ôl y rhagolygon y cytunwyd arnynt, er mai dim ond ar gyfer un o'r ddau ranbarth yng Nghymru yr ydym yn darparu cymorth.

Os oes dangosydd cyffredin o'r fath yn bodoli, yna dylid defnyddio canran pro rata sy'n seiliedig ar y dangosydd cyffredin (e.e. os ceir 10,000 o gyfranogwyr ar gyfer Cymru gyfan yn ôl y rhagolygon, 7,500 o gyfranogwyr ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn ôl y rhagolygon, dylid dyrannu 75% o gostau rhentu'r swyddfa i'r gweithrediad WEFO).

Caiff y ganran pro rata ei chadarnhau ar y cam cymeradwyo (yn seiliedig ar ragolygon) ac nid oes angen ei diweddaru yn ystod y cyfnod gweithredu i adlewyrchu'r alldro.

Fodd bynnag, byddai angen i'r ganran pro rata gael ei haddasu pe bai'r prosiectau'n newid eu rhagolygon/ targedau a gymeradwywyd gan WEFO yn ystod y cyfnod gweithredu os mai'r dangosydd yw'r sail i ddyrannu'r costau. Pe digwydd hyn, byddai'r ganran ddyrannu ddiwygiedig yn berthnasol o hynny ymlaen (y mis pan gafodd y rhagolygon eu haddasu – nid yn ôl-weithredol o ddechrau'r gweithrediad WEFO).

Os nad oes dangosydd allbwn neu ddangosydd canlyniadau uniongyrchol cyffredin o'r fath yn bodoli, gall y ganran pro rata fod yn seiliedig ar gostau rhagolygol/ cymeradwy.

- Rhanbarth sy'n cael cymorth gan WEFO = Cyfanswm y gwariant cymwys a gymeradwywyd gan WEFO yn y cytundeb cyllid grant.
- Rhanbarth sydd ddim yn cael cymorth gan WEFO = Cyfanswm y costau rhagolygol.

Amodau

Mae'n rhaid eich bod yn barod i drefnu bod dogfennau ategol digonol ar gael i staff gwiriadau ac archwiliadau yn y dyfodol i brofi cywirdeb y ffigyrau a ddyfynnir ar gyfer y prosiectau nad ydynt yn cael cymorth gan WEFO (h.y. yr allbynnau/y canlyniadau arfaethedig neu'r rhagolygon ar y cyfan) a gwirio na chodir am fwy na 100% o bob eitem gost ar y cyfan.

Mae hyn yn ymestyn i gael mynediad at gofnodion y prosiect ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod gweithredu i sicrhau nad yw'r rhagolwg wedi cael ei newid heb ein hysbysu ni (h.y. heb addasu'r rhaniad canrannol pro rata y cytunwyd arno).

Caiff y rheolau uchod eu crynhoi yn y tabl hwn:

#	Cwestiwn	Ateb
1	A yw'r gost yn uniongyrchol briodoladwy, **yn llawn**, i **un gweithrediad WEFO** ('Rhif Adnabod yr achos' WEFO Ar-lein) a lle mae cyswllt uniongyrchol â gweithgareddau cymwys y gweithrediad yn gallu cael ei ddangos neu'n hunanamlwg?	**YDY** = Cost uniongyrchol **NAC YDY** = Ewch i 2
2	A yw'r gost yn uniongyrchol briodoladwy, **yn rhannol**, i **un gweithrediad WEFO** - lle mae cyswllt uniongyrchol â gweithgareddau cymwys y gweithrediad yn gallu cael ei ddangos neu'n hunanamlwg - a'r union swm sy'n briodoladwy i'r gweithrediad penodol yn gallu cael ei gadarnhau'n rhwydd?	**YDY** = Cost uniongyrchol (sefyllfa 1 uchod) **NAC YDY** = Ewch i 3
3	A yw'r gost yn uniongyrchol briodoladwy i **grŵp o weithrediadau WEFO**, lle mae cyswllt uniongyrchol â gweithgareddau cymwys y gweithrediadau cyfatebool yn gallu cael ei ddangos neu'n hunanamlwg (h.y. mae'r buddion yn cronni i'r grŵp o weithrediadau WEFO **yn unig**) ond nid yw'r union swm sy'n briodoladwy i bob gweithrediad yn gallu cael ei gadarnhau'n rhwydd?	**YDY** = Cost uniongyrchol (sefyllfa 2 uchod) **NAC YDY** = Ewch i 4
4	A yw'r gost yn uniongyrchol briodoladwy i gynllun/ grŵp o brosiectau cysylltiedig Cymru gyfan lle mae'r prosiect(au) yn rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cael ei gefnogi/eu cefnogi gan WEFO ond lle mae rhanbarth Dwyrain Cymru yn cael ei gyllido'n gyfan gwbl ag arian cenedlaethol (neu yn y drefn arall)?	**YDY** = Cost uniongyrchol (sefyllfa 3 uchod) **NAC YDY** = Ewch i 5
5	Yr holl gostau eraill	**= Cost anuniongyrchol** yn cael ei had-dalu yn ôl cyfradd safonol (cost symlach)

8.3 Diffiniad o Gostau 'Anuniongyrchol'

Ystyr costau anuniongyrchol, yn ddiofyn, yw'r holl gostau cymwys eraill nad ydynt yn cyfateb i'r diffiniadau uchod o gost uniongyrchol. Gweler **Adran 16**.

Yn fyr, bydd y rhain yn gostau neu weithgareddau cymwys y mae eich prosiect yn cael **budd** ohonynt mewn rhyw ffordd ond lle nad yw gwerth y costau hyn yn gallu cael ei gysylltu'n uniongyrchol â'ch prosiect penodol am ei bod **yn anodd, neu'n amhosibl, meintioli union swm** sy'n briodoladwy i un gweithrediad/ prosiect yn unig.

Cofiwch, hyd yn oed pe bai'n bosibl dangos y cyswllt a meintioli'r union swm, ni fyddai'r costau'n cael eu cyfrif yn gost uniongyrchol cymwys oni bai eu bod yn bodloni'r holl reolau ac amodau cyffredinol eraill e.e. yn amlwg yn angenrheidiol i hybu eich prosiect yn y ffordd a ddisgrifir yn y cais am gyllid; defnydd o gronfeydd yr UE sy'n rhoi gwerth am arian; dogfennau ategol a thrywyddion archwilio llawn.

Mae'n rhaid gwahaniaethu'n eglur bob amser rhwng 'costau anuniongyrchol' a 'chostau uniongyrchol' yn y gyllideb ragolygol a'r proffil cyflawni y cytunwyd arnynt ac mewn hawliadau diweddarach am wariant.

9. Costau Staff Uniongyrchol

9.1 RHEOLAU

[21] Mae'n rhaid bod costau staff uniongyrchol yn gysylltiedig â rheoli, gweinyddu, neu gyflawni eich prosiect.

[22] Nid yw costau uniongyrchol staff mewn gweinyddiaethau cyhoeddus sy'n ymgymryd â gweithgareddau i gyflawni eu cyfrifoldebau a swyddogaethau statudol craidd yn gymwys ar gyfer cymorth yr UE.

[23] Mae costau staff uniongyrchol yn gymwys dim ond i'r graddau eu bod yn gysylltiedig â gweithgareddau na fyddech yn ymgymryd â hwy pe na bai'r prosiect yn cael ei gynnal.

[24] Mae'n rhaid rhoi tâl i staff yn unol â'r telerau ac amodau cyflogau, graddio ac Adnoddau Dynol cysylltiedig a sefydlwyd gennych. Os ydych yn sefydliad newydd, e.e. wedi'i sefydlu'n arbennig i weithredu prosiect yr UE, yna mae'n rhaid i chi ddilyn egwyddor gwerth am arian wrth bennu cyfraddau tâl, yn enwedig mewn perthynas â dim ond talu cyfraddau rhesymol y farchnad sy'n angenrheidiol i ddenu'r ymgeiswyr â'r sgiliau gofynnol y mae eu hangen ar gyfer y tasgau sy'n rhan o brosiect yr UE. Ym mhob achos, ni ddylai'r tâl a roddir i staff fod yn sylweddol uwch na chyfraddau'r farchnad ar y pryd ar gyfer natur y gwaith a fydd yn cael ei wneud.

[25] Gall costau gynnwys cyflogau, cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwr, cyfraniadau pensiwn cyflogwr, codiadau cyflog ar wahân, a chostau eraill sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r taliadau cyflog yn unol â pholisïau cyflogaeth arferol y cyflogwr o ran rhoi triniaeth gyfartal i'r holl bersonél.

[26] Mae costau hyfforddi a datblygu staff prosiect yn gymwys os gellir eu cyfiawnhau'n addas fel costau sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithrediad effeithiol ac effeithlon y prosiect. Gall staff prosiect gyfranogi mewn gweithgarwch dysgu a datblygu corfforaethol – a thrin yr amser cysylltiedig fel amser cymwys ar gyfer y prosiect – lle mae hynny'n orfodol ar gyfer yr holl gyflogeion neu'n gysylltiedig â chynllun perfformiad/ datblygiad yr unigolyn.

[27] Mae costau darparu buddion trethadwy ar gyfer cyflogeion sy'n rhan o'r telerau ac amodau cytundebol safonol ar draws y sefydliad sy'n cyflogi yn gymwys hefyd.

Mae enghreifftiau'n cynnwys costau gofal plant, cyfleusterau crèche, talebau cinio a thaliadau bonws 'i'r holl staff' (ond nid taliadau bonws sy'n gysylltiedig â pherfformiad na thaliadau bonws di-dreth).

[28] Yn yr un modd, os ydynt yn unol â pholisi cyffredinol y cyflogwr neu wedi'u cynnwys mewn contract cyflogaeth, mae'r canlynol yn gymwys hefyd: tâl ar gyfer absenoldeb salwch â thâl (ond dim ond symiau na ellir eu hadennill gan Lywodraeth y DU), buddion mamolaeth a thadolaeth (gan gynnwys absenoldeb mabwysiadu â thâl), buddion cyn ymddeol a buddiol teuluol eraill.

[29] Mae cost staff cyflenwi – i weithio yn lle cyflogai sydd i ffwrdd o'r gwaith dros dro ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu salwch hirdymor – yn gymwys. Efallai y bydd angen i chi ystyried gofyn i ni am gynnydd yn eich cyllideb costau staff er mwyn cynnwys y tâl i'r staff cyflenwi yn ogystal â'r cyflogai sy'n absennol dros dro.

[30] Mae taliadau goramser yn gymwys os ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r prosiect. Lle mae gan gyflogai hawl i gymryd amser o'r gwaith yn lle, neu yn ychwanegol at daliadau goramser, gall yr amser a gaiff ei dreulio'n peidio â gweithio ar y prosiect (pan ddefnyddir yr amser yn lle taliadau) gael ei ystyried yn amser cymwys ar gyfer y prosiect hefyd.

[31] Mae costau 'staff allanol' – unigolion (ond nid contractau gyda ffyrmau/cwmnïau gan fod y rhain yn perthyn i'r dosbarth 'gwasanaethau allanol') sydd wedi'u contractio'n uniongyrchol gan y buddiolwr i weithio dros dro ar y prosiect – yn gymwys os caiff yr amodau canlynol eu bodloni:

> bod y person yn gweithio dan gyfarwyddyd y buddiolwyr ac, oni chytunwyd fel arall gan y buddiolwr, ar safle'r buddiolwr.

> bod canlyniadau'r gwaith a wneir yn perthyn i'r buddiolwr/ bod y manteision yn cronni i brosiect yr UE.

> nad yw'r costau'n sylweddol wahanol i'r rhai ar gyfer staff a gyflogir gan y buddiolwr sy'n cyflawni tasgau tebyg (os yw tasgau o'r fath yn cael eu cyflawni gan y buddiolwr).

9.2 EGLURHAD A CHANLLAWIAU

Costau staff sydd wedi'u neilltuo i reoli neu weithredu'r gweithgareddau a gefnogir gan yr UE, gan gynnwys rheoli a gweinyddu'r prosiect yn gyffredinol.

Gallai'r unigolion hyn fod yn:

- 'STAFF MEWNOL':
    - yn cael eu cyflogi gan fuddiolwr (y cyflogwr); neu

- ar secondiad i'r sefydliad o sefydliad arall (contract gyda'r cyflogwr cartref ond yn gweithio i'r buddiolwr sef y cyflogwr sy'n derbyn).

- 'STAFF ALLANOL':
  - gweithwyr asiantaeth/ staff achlysurol (mae'r asiantaeth yn talu i'r gweithiwr; mae'r buddiolwr yn talu i'r asiantaeth); neu
  - gostau sy'n deillio o gontract uniongyrchol rhwng unigolyn – ond nid ffyrm/ cwmni - a'r buddiolwr lle nad yw hynny trwy gontract cyflogaeth e.e. masnachwyr hunangyflogedig, contractwyr annibynnol, ymgynghorwyr annibynnol, gweithwyr llawrydd/ bob yn dipyn/ portffolio. Mae'r diffiniad hwn felly'n cydnabod tâl a roddir i bobl yn gyfnewid am waith sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r gweithrediad/ prosiect ond mae contractau gyda ffyrmau/ cwmnïau 'un person' yn 'wasanaethau allanol' ac nid yn 'staff allanol'.

Mae'n bosibl defnyddio'r cronfeydd strwythurol i dalu costau staff allanol ar gyfer gweithwyr a gaiff eu contractio drwy asiantaethau. Bydd angen i'r trywydd archwilio gynnwys dogfennau sy'n dangos y symiau a dalwyd i'r gweithiwr o'r asiantaeth, gan gynnwys unrhyw gyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn. Bydd angen i fuddiolwr hepgor taliadau comisiwn a ffioedd yr asiantaeth wrth gyfrifo costau anuniongyrchol drwy ddefnyddio'r gyfradd safonol o 15% am costau symlach. Os nad yw'r asiantaeth yn gallu dangos y dogfennau ategol gofynnol i ddangos y symiau a dalwyd i'r gweithiwr, neu os ydynt yn amharod i wneud hynny – ni ellir cynnwys y costau staff cysylltiedig wrth gyfrifo costau anuniongyrchol drwy ddefnyddio'r gyfradd safonol o 15%.

Mae bonysau di-dreth neu fuddion di-dreth eraill yn gostau anghymwys, ac felly hefyd darpariaeth eithriadol neu anghyffredin o ran hawliau pensiwn neu golli swydd, h.y. y tu hwnt i reolau safonol y cynllun neu ofynion statudol.

Lle mae cyflogwr yn talu am aelodaeth a ffioedd tanysgrifio cyflogai ar gyfer cyrff proffesiynol a grwpiau proffesiynol neu rwydweithio tebyg, mae'r costau'n gymwys dim ond os yw'r rôl ym mhrosiect yr UE yn golygu ei bod yn ofynnol i ddeiliad y swydd ddal y cymhwyster/cymwysterau dan sylw. Mae'n rhaid bod tystiolaeth o hyn mewn swydd-ddisgrifiad, hysbyseb swydd neu ddogfen debyg sy'n cadarnhau'r anghenraid i ddeiliad y swydd feddu ar y cymhwyster er mwyn cyflawni'r gwaith ar y prosiect a gefnogir gan Gronfeydd Strwythurol yr UE.

Nid yw costau teithio a chynhaliaeth, a chostau eraill sy'n gysylltiedig â theithiau busnes, yn gostau staff uniongyrchol at ddibenion cyfrifiadau yn ôl cyfradd safonol (costau symlach) yn seiliedig ar gostau staff uniongyrchol.

Nid yw costau sy'n deillio o dalu i gwmnïau ymgynghoriaeth, cwmnïau gwasanaethau proffesiynol a 'chontractau ar gyfer gwasanaethau' eraill gyda chwmnïau yn 'gostau staff' hyd yn oed os caiff y gwaith ei gyflawni gan un person – 'gwasanaethau arbenigol ac allanol' yw'r rhain (gweler **Adran 12**).

Nid yw'r ardoll brentisiaeth, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2017, yn gost staff uniongyrchol, ond ystyrir ei fod yn gost anuniongyrchol y gellir ei adennill trwy'r gyfradd gyfradd berthnasol (costau syml).

Nid yw gweithwyr prosiect gwirfoddol di-dâl yn gostau staff uniongyrchol ychwaith ac felly ni ellir eu cynnwys wrth gyfrifo'r gyfradd safonol (costau symlach) yn seiliedig ar gostau staff uniongyrchol. Mae'r cyfraddau tâl fesul awr / tâl blynyddol perthnasol sy'n gysylltiedig ag amser gwirfoddolwyr di-dâl y gall buddiolwr eu hawlio wedi'u rhestru yn adran **17.1.1**.

<u>Costau staff sy'n gysylltiedig â rheoli a gweinyddu gweithrediadau cydweithredol WEFO</u>

Lle rydym yn cymeradwyo gweithrediad cydweithredol sy'n cynnwys buddiolwr arweiniol a chyd-fuddiolwyr, bydd y gweithgareddau canlynol gan y buddiolwr arweiniol yn gymwys ac yn cael eu hystyried yn gost angenrheidiol.

- Darparu copi ar gyfer cyd-fuddiolwyr o gytundeb cyllid grant WEFO a'r holl ddogfennau eraill ynglŷn â rheolau a chanllawiau gan WEFO sydd wedi'u bwriadu ar gyfer buddiolwyr.
- Cydgysylltu trefniadau gweinyddol, prosesau adrodd a hawlio, prosesau cyfnewid gwybodaeth etc
- Monitro cynnydd: adolygu'r symiau a neilltuwyd ac a wariwyd gan bartneriaid, gweithgareddau a gyflawnwyd; allbynnau/canlyniadau a gyflawnwyd etc
- Gwiriadau rhesymoldeb o wariant a refeniw yr adroddwyd arnynt gan gyd-fuddiolwyr wrth y buddiolwr arweiniol i'w cynnwys yn yr hawliad a gyflwynir i ni. Pwrpas y gwiriad hwn yw sicrhau bod y symiau yr adroddir arnynt yn unol â'r disgwyliadau, nad oes unrhyw beth anarferol, eu bod yn cyfateb i'r gweithgareddau disgwyliedig etc
- Rheoli, llywodraethu a goruchwylio'r gweithrediad yn gyffredinol.
- Lle nad oes gan y cyd-fuddiolwr adnoddau neu arbenigedd digonol i gyflawni ei reolaethau mewnol ei hun ar gymhwystra gwariant a refeniw yr adroddir arnynt wrth y buddiolwr arweiniol, gall y buddiolwr arweiniol helpu cyd-fuddiolwyr i gyflawni'r tasgau hyn os oes angen.
- Cefnogi a hwyluso archwiliadau a gwiriadau gan WEFO/ y CE/ Awdurdod Archwilio o brosiect y cyd-fuddiolwr.
- Hapwiriadau o gyd-fuddiolwyr i sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu a dogfennau ategol yn cael eu cadw ar y ffurf gywir ac am y cyfnod cywir o ran cadw dogfennau.

Er mwyn eglurder, caiff y tasgau canlynol eu cyflawni gennym ni, neu eu dirprwyo gan WEFO i Gorff Cyfryngol, ac felly nid ydynt yn weithgareddau cymwys ar gyfer buddiolwyr arweiniol:

- Gwirio bod gwariant a ddatganwyd gan (gyd-) fuddiolwyr wedi cael ei ysgwyddo a'i dalu, neu ei gyfrifo'n gywir os defnyddir costau symlach, a'i fod yn cydymffurfio

â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol, y rhaglenni gweithredol a'r amodau ar gyfer cymorth a nodir yn y ddogfen hon a chytundeb cyllid grant WEFO.

Gweler **Atodiad A** am ganllawiau pellach ar faterion sy'n berthnasol i weithrediadau cydweithredol.

9.2.1 Cofnodi Amser

Nid yw'n ofynnol i staff sy'n gweithio ar brosiect a gefnogir gan yr UE yn llawn-amser neu am nifer penodedig o oriau rheolaidd gofnodi eu horiau gwaith ar daflen amser fel sail i gyfiawnhau'r costau. Fodd bynnag, mae'n rhaid bod y swydd-ddisgrifiad, llythyr secondio, contract cyflogaeth neu ddogfen debyg (e.e. gohebiaeth gan yr adran Adnoddau Dynol) ar gyfer yr unigolyn yn gwirio bod y rôl yn gysylltiedig â gwaith ar y prosiect(au) penodol a gefnogir gan yr UE, boed yn llawn-amser neu am nifer penodedig o oriau rheolaidd. Gweler Atodiad C am fanylion ar y dogfennau sy'n ofynnol i'w harchwilio.

At ddibenion y canllawiau hyn, mae 'llawn-amser' yn golygu'r holl oriau yn wythnos waith gytundebol safonol yr unigolyn. Yn ogystal â staff sy'n gweithio'n llawn-amser ar brosiect a gefnogir gan yr UE, gallai costau staff fod:

- Yn ganran benodedig o amser cytundebol a weithiwyd ar weithrediadau'r UE bob mis [nid oes angen taflen amser];
- Yn nifer hyblyg o oriau a weithiwyd ar weithrediad yr UE bob mis [mae angen taflen amser]; neu
- Fesul awr [mae angen taflen amser].

Gall costau staff ar gyfer unigolion sy'n gweithio canran <u>benodedig</u> o amser ar weithrediad yr UE gael eu cyfrifo gan ddefnyddio canran benodedig o gostau cyflogaeth cymwys gros heb yr angen i ddefnyddio system cofrestru amser gweithio (taflen amser). Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r ganran benodedig o amser fod yn wiriadwy gan ddefnyddio dogfennau cyflogaeth megis swydd-ddisgrifiad, contract cyflogaeth neu benderfyniad i benodi.

Mae costau staff ar gyfer oriau hyblyg (h.y. nid oriau llawn-amser ac nid nifer penodedig o oriau rheolaidd) yn gymwys os oes system cofrestru amser yn bodoli, a honno'n cael ei chwblhau gan y gweithiwr a'i gwirio gan ei oruchwyliwr neu gydweithiwr arall ar reng uwch sy'n gallu cadarnhau cywirdeb yr wybodaeth. Rhaid i'r cofnodion amser ymdrin â 100% o horiau gwaith y cyflogai.

Mae costau staff ar gyfer oriau <u>amrywiol</u> yn gymwys os oes system cofrestru amser wedi'i sefydlu, a hithau'n cael ei chwblhau gan y gweithiwr ac yn cael ei gwirio gan ei oruchwyliwr neu gydweithiwr arall ar reng uwch sy'n gallu cadarnhau cywirdeb yr wybodaeth. Mae'n rhaid i'r cofnodion amser gwmpasu 100% o'r oriau gwaith cytundebol ar gyfer y cyflogai. At ddibenion dilysu ac archwilio Bydd gofyn i fuddiolwyr ddarparu'r dystiolaeth hon o oriau a weithiwyd mewn gwirionedd. Lle bo

hynny'n berthnasol, gall hyn hefyd gael ei ategu gan dystiolaeth megis cofnodion gwyliau a thaflenni hyblyg.

Mae'n rhaid i gostau staff ar gyfer unigolion sydd, yn ôl eu dogfennau cyflogaeth, yn gweithio fesul awr, er enghraifft contractau dim oriau, gael eu cyfrifo gan ddefnyddio'r gyfradd fesul awr a nodir yn eu contract cyflogaeth wedi'i lluosi â'r amser a weithiwyd mewn gwirionedd ar y prosiect (y ceir tystiolaeth ohono ar daflen amser).

Cyfrifir **cyfraddau fesul awr** fel a ganlyn:

Costau staff cymwys blynyddol [wedi'u rhannu â'r] oriau cynhyrchiol blynyddol yn ôl y telerau safonol yn y contract cyflogaeth

Nid yw 'oriau cynhyrchiol blynyddol' yn cynnwys amser nas treuliwyd yn y gwaith – gwyliau blynyddol â thâl, gwyliau cyhoeddus â thâl, a hawliau eraill i absenoldeb â thâl a nodir yn y contract cyflogaeth a / neu ym mholisïau Adnoddau Dynol y cyflogwr.

Gan fod y cyfrifiad hwn gan ddefnyddio cyfradd fesul awr yn cydnabod hawliau i wyliau blynyddol â thâl, ni ddylid cofnodi unrhyw oriau cymwys ar daflenni amser pan fo'r unigolyn yn cymryd ei absenoldeb â thâl.

Isod ceir dau <u>enghreifftiau</u> o sut bob awr y gellir cyfrifo cyfraddau ar sail blynyddol neu fisol.

Enghraifft Waith - wedi'i gyfrifo ar sail BLYNYDDOL

Cyfrifiad	Esboniad
Costau staff cymwys blynyddol = £28,500	*cyflog sylfaenol £25,000* *cyfraniad YG y cyflogwr £2,500* *cyfraniad pensiwn y cyflogwr £1,000*
Oriau cytundebol wythnosol â thâl = 40	*yn unol â'r contract*
Gwyliau blynyddol â thâl, gwyliau cyhoeddus â thâl ac absenoldeb arall â thâl yn ôl hawl gytundebol = 35	*25 diwrnod o wyliau blynyddol* *10 diwrnod o wyliau cyhoeddus*
Oriau cynhyrchiol blynyddol = 1,800	*40 (awr yr wythnos) x 52 wythnos = 2,080 awr* *35 diwrnod o absenoldeb â thâl x 8 awr y dydd = 280 awr* *oriau cynhyrchiol = 2,080 (â thâl) namyn 280 (â thâl ond ddim yn y gwaith) = 1,800*
Cyfradd staff fesul awr = £**15.83** yn cael ei hawlio am bob awr a weithiwyd mewn gwirionedd ar brosiect yr UE (dim byd yn	*£28,500/1,800*

cael ei hawlio pan fo'r cyflogai'n cymryd ei absenoldeb â thâl).	

Enghraifft Waith - wedi'i gyfrifo ar sail FISOL

Cyfrifiad	Esboniad
Costau staff cymwys misol = £ 2,375	Yn unol â'r adroddiad slip cyflog / gyflogres perthnasol ar gyfer y mis hwnnw, sef cyflog gros, cyfraniad cyflogwyr YG a chyfraniad pensiwn cyflogwyr
Cyfanswm yr oriau a weithiwyd mewn gwirionedd = 150	Cyfanswm yr oriau gwirioneddol a weithiwyd (heb gynnwys unrhyw absenoldeb blynyddol neu salwch a gymerwyd) fel y'i cofnodir ar y daflen amser fisol.
Cyfradd staff yr awr = £ 15.83 a hawliwyd am bob awr mewn gwirionedd yn gweithio ar brosiect yr Undeb Ewropeaidd (dim yn cael ei hawlio pan fydd gweithiwr yn cymryd ei wyliau â thâl).	£2,375 / 150

Pa bynnag gyfrifiad a ddefnyddiwyd, rhaid i fuddiolwyr sicrhau nad oes mwy na 100% o'r costau cymwys yn cael eu hawlio dros oes y gweithrediad. Gellid gofyn am gysoni ad-hoc gan staff dilysu WEFO lle ystyrir bod angen - er enghraifft, lle nodwyd potensial ar gyfer anghysondebau sylweddol

Os nad yw'r unigolyn yn defnyddio'i hawl gytundebol i absenoldeb â thâl a bod hon yn cael ei fforffedu – neu ei fod yn gweithio ar brosiect yr UE yn ystod cyfnodau o absenoldeb â thâl – gall yr amser hwn ddilyn y 'rheolau goramser' (oni bai fod yr absenoldeb â thâl sydd heb ei ddefnyddio'n cael ei gario ymlaen i flynyddoedd yn y dyfodol) os caniateir arferion o'r fath ym mholisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol y cyflogwr.

<u>Staff sy'n gweithio ar fwy nag un gweithrediad WEFO</u>

Ni fydd angen i aelod o staff sy'n gweithio'n llawn-amser neu nifer penodedig o oriau cytundebol ar un gweithrediad WEFO gofnodi ei amser oni bai ein bod ni'n gofyn yn benodol i'r aelod o staff wneud hynny neu fod hynny'n ofynnol er mwyn cydymffurfio â'r rheolau perthnasol ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol. Gallai'r ail sefyllfa godi lle mae gweithrediad yn cynnwys nifer o weithgareddau ar wahân sy'n cael eu trin yn wahanol at ddibenion Cymorth Gwladwriaethol a bod yn rhaid gwahaniaethu rhwng y costau.

Gall fod yn ofynnol cofnodi amser hefyd os yw unigolyn yn gweithio ar fwy nag un prosiect o fewn yr un gweithrediad h.y. os ydym ni'n ei gwneud yn ofynnol rhoi cyfrif

ar wahân am wariant cymwys pob prosiect i hwyluso archwiliadau. Mae'r canllawiau 'Modelau Cyflawni WEFO 2014-2020' yn esbonio'r diffiniad o brosiectau ar wahân mewn un gweithrediad.

Mae'n rhaid i daflenni amser gynnwys disgrifiad byr – neu system godio sy'n arwain at ddisgrifiadau mwy manwl – i ddynodi bod yr oriau a gofnodwyd yn gysylltiedig â'r prosiect penodol a gefnogir gan yr UE.

Gweler **Atodiad C** am ganllawiau ychwanegol ynghylch costau staff a chofnodi amser.

Lle mae cyflogeion yn gweithio'n llawn-amser neu nifer penodedig o oriau cytundebol ar nifer o weithrediadau WEFO yn unig, gallwn gytuno ar fethodoleg ar gyfer dyraniad cost pro rata (canran benodedig o gostau'n cael eu priodoli i bob gweithrediad WEFO) yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol cwblhau taflenni amser.

Gellir cynnig y dull hwn **dim ond lle rydym yn cytuno nad yw'n bosibl** dyrannu gwaith yn gywir i bob un o'r gweithrediadau amrywiol sy'n cael budd o'r gweithgareddau a gyflawnir. Er enghraifft, costau staff tîm marchnata prosiectau neu dîm gweinyddu hawliadau am daliadau sy'n cyflawni gweithgareddau sydd o fudd i'r holl brosiectau a gefnogir gan yr UE a hithau ddim yn bosibl – neu ei bod yn amlwg y byddai'n feichus yn weinyddol – adnabod yn gywir faint o amser a dreuliwyd ar bob gweithrediad WEFO.

Mae'n rhaid i'r dull dyrannu costau ar sail pro rata fod yn gadarn, yn wrthrychol a pheidio â chael ei ddefnyddio fel mecanwaith i fynd ati'n fwriadol i briodoli swm anghymesur o gostau i brosiectau sydd â'r cyfraddau ymyrryd uchaf ar gyfer grantiau'r UE. Mae'n rhaid i chi felly gytuno ar sail i ddyrannu costau gyda ni gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddefnyddir i ddyrannu costau uniongyrchol fel a nodir yn adran 8.2. Rhaid cynnal tystiolaeth o'r sail dyrannu costau a gytunwyd ar gyfer eich gweithrediad a rhaid iddo fod ar gael i archwilwyr / swyddogion dilysu.

Tâl Salwch

Mae tâl salwch yn gost cymwys lle caiff ei ddatgan yn unol ag adran 9.1, rheol 28. Er mwyn cyfrifo'r costau ar gyfer yr unigolyn sydd ar absenoldeb salwch, rhaid defnyddio'r sail ar gyfer nodi costau staff ar gyfer y gweithrediad yn y gymeradwyaeth.

Er enghraifft, gall staff sy'n gweithio nifer benodol o oriau hawlio yn unol â'r nifer o oriau a gytunwyd a / neu ganran yr amser y mae'r unigolyn wedi'i drefnu i weithio ar y gweithrediad (fel y cytunwyd yn eu disgrifiad swydd / llythyr secondiad / contract cyflogaeth).

Lle cytunwyd ar gost uned fesul awr (costau syml), dylid defnyddio'r gyfradd a nodir yn y Cytundeb Ariannu.

Lle mae WEFO wedi cytuno y gellir dyrannu costau'r aelod staff unigol ar draws prosiectau ar sail canran sefydlog (ee rhannu 50/50) yna gellir dyrannu costau absenoldeb salwch yn yr un modd. Fodd bynnag, mae angen cymryd gofal os yw'r rhaniad ar draws prosiectau yn seiliedig ar ddyddiau sefydlog/penodol gan na ddylai costau gael eu datgan yn unig ar gyfer y dyddiau hynny. Er enghraifft, pe na bai'r unigolyn yn absennol yn unig ar y diwrnodau sefydlog/penodol y cytunwyd arnyn nhw ar gyfer prosiect penodol, yna dim ond i'r prosiect hwnnw y dylai'r holl gostau gael eu dyrannu.

Ar gyfer staff sy'n gweithio oriau hyblyg/amrywiol, mae rhaid cadw cyfiawnhad am y methodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo faint o absenoldeb salwch a hawlir a'i bod ar gael ar gais. Er enghraifft, gall buddiolwr gwneud dadansoddiad ar ddata hanesyddol (lleiafswm o 3 mis lle bo modd) i benderfynu faint i'w hawlio.

9.2.2 Costau Hyfforddi Staff

Mae hyfforddiant allanol a ddarperir am dâl ar gyfer staff y prosiect yn gymwys o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Os yw'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r prosiect mewn modd sy'n cydymffurfio â'r gofynion, e.e. gofyniad statudol neu reoleiddiol i staff y prosiect allu cyflawni gweithgareddau prosiect yr UE.
- Os yw'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio ag unrhyw gyfreithiau a rheoliadau perthnasol eraill ar lefel yr UE, y DU neu Gymru.

Nid yw hyfforddiant allanol nad yw'n orfodol yn gymwys fel arfer ond gallwn ystyried hyn fesul achos unigol os gallwch chi ddarparu cyfiawnhad sy'n dangos sut y bydd yr hyfforddiant o fudd i'r prosiect a sut y mae'n cynrychioli **gwerth am arian** wrth ystyried y manteision a ragwelir. Felly byddai hyfforddiant am dâl sydd o fudd i'r unigolyn ond nid i'r prosiect yn anghymwys.

Ni fyddai amser sylweddol a dreuliwyd i ffwrdd o'r prosiect ar weithgareddau dysgu a datblygu – e.e. secondiadau, cysgodi gweithwyr eraill, rhaglenni datblygu rheolwyr strwythuredig – yn cael ei gefnogi ac ni ddylid ei gynnwys yn yr amser cymwys a briodolir i'r prosiect (y diffiniad o sylweddol yw mwy na 5% o oriau gwaith wythnosol yr unigolyn a fyddai'n cael eu priodoli fel arfer i brosiect(au) a gefnogir gan Gronfeydd Strwythurol yr UE). Gellir asesu hyn gan ddefnyddio cyfartaleddau dros f

9.2.3 Secondiadau o'r Tu Allan

Mae telerau ac amodau cyflogaeth y 'cyflogwr cartref' yn berthnasol i'r holl reolau ynglŷn â chostau staff yn y ddogfen hon oni bai fod gennych drefniant cytundebol i gymhwyso eich polisïau a'ch tâl chi eich hun yn ystod cyfnod y secondiad.

9.2.4 Absenoldeb Eithriadol am Dâl: atal o'r gwaith; gweithdrefnau disgyblu; absenoldeb o'r gwaith yn ystod ymchwiliadau i gamwedd posibl neu anghydfodau ynghylch contract cyflogaeth; 'absenoldeb garddio'; ac absenoldeb eithriadol ychwanegol tebyg am dâl

Nid yw costau staff yn ystod y cyfnodau hyn yn gymwys ar gyfer cymorth gan fod hyn yn cynrychioli amser nas treuliwyd ar brosiect yr UE ac nid ydym yn ystyried bod hyn yn rhan o'r telerau ac amodau tâl craidd y mae 'costau staff' wedi'u bwriadu i'w cwmpasu.

9.2.5 Cynlluniau Colli Swydd a Diswyddo

Bydd WEFO yn ystyried cymhwystra fesul achos unigol trwy gymhwyso'r egwyddorion canlynol:

- Mae'n rhaid bod staff yn gweithio ar brosiect a gefnogir gan y Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru ar yr adeg pan wneir y penderfyniad ynghylch colli swydd neu ddiswyddo.
- Mae'n rhaid bod y swydd yn cael ei dileu. Mae costau'n anghymwys os yw'r swydd/ rôl yn parhau a bod bwriad i'w 'chefn-lenwi' trwy ddefnyddio proses recriwtio neu drosglwyddo staff presennol.
- Mae'n rhaid bod gofyniad statudol neu gytundebol i dalu costau colli swydd neu ddiswyddo dan gyfraith cyflogaeth y DU.
- Mae'n rhaid i daliadau a wneir i'r aelod o staff ymlynu wrth y rhwymedigaethau cytundebol a darpariaethau/trothwyon statudol cyfatebol.
- Mae taliadau ychwanegol/ arbennig sy'n rhan o becyn colli swydd, gan gynnwys hawliau estynedig i bensiwn neu i dâl colli swydd, ond a gynigir yn ôl disgresiwn y cyflogwr a'r tu hwnt i ofynion statudol, yn gostau anghymwys.
- Mae taliadau sy'n gysylltiedig â chynllun colli swydd gwirfoddol/ cynllun diswyddo gwirfoddol lle nad yw'r swydd yn cael ei dileu yn anghymwys.
- Bydd gwariant cymwys ar gostau colli swydd yn cael eu cyfrifo ar sail pro rata mewn perthynas â nifer y blynyddoedd a misoedd o wasanaeth parhaus yn gweithio ar brosiectau a gefnogir gan Gronfeydd Strwythurol yr UE (gan gynnwys cyfnodau rhaglennu blaenorol).
- Bydd costau'n cael eu cyfrifo ar sail pro rata hefyd os yw'r cyflogai dim ond yn gweithio rhan o'i oriau wythnosol cytundebol ar brosiectau a gefnogir gan Gronfeydd Strwythurol yr UE ar hyn o bryd, ni waeth pa un a fu'r unigolyn yn gweithio'n llawn-amser ar brosiectau'r UE yn y gorffennol.

- Mae'n rhaid i staff a aseiniwyd, a drosglwyddwyd neu a ddyrchafwyd i brosiect a gefnogir gan y Cronfeydd Strwythurol o rôl arall yn y sefydliad weithio ar brosiect yr UE am isafswm o 2 flynedd cyn y gellir ystyried bod costau colli swydd/ diswyddo yn gymwys.

Mae'r rheolau hyn yn golygu, er ein bod yn gallu cefnogi costau cyflogaeth cytundebol, arferol staff sy'n gweithio ar brosiectau'r Cronfeydd Strwythurol – gan gynnwys costau uniongyrchol gysylltiedig megis cyfraniadau pensiwn ac YG y cyflogwr – bod y cyfle i gefnogi costau colli swyddi a diswyddo'n bosibl ond yn fwy cyfyngedig.

Hyd yn oed lle mae costau colli swydd/ diswyddo'n gymwys ar gyfer cymorth, nid yw argaeledd llinell 'costau staff' yn y gyllideb ar gyfer y prosiect cyfatebol a gefnogir gan y Cronfeydd Strwythurol yn awtomatig a bydd yn dibynnu ar argaeledd arian o fewn y rhaglen i gefnogi costau staff annisgwyl o'r fath (h.y. os nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys ym mhroffil y gyllideb ar adeg cymeradwyo'r prosiect).

9.2.6 Taliadau yn ôl Disgresiwn i Staff neu Gyn-aelodau o Staff

Mae'r costau hyn yn anghymwys.

Mae hyn yn cynnwys: telerau colli swydd/ diswyddo estynedig; taliadau anghytundebol yn dilyn diswyddo; costau tribiwnlys cyflogaeth; iawndal am golli swydd; costau ymchwilio i anghydfodau cyfreithiol/ cytundebol gyda chyflogeion neu gyn-gyflogeion, amddiffyn y cyflogwr neu setlo'r anghydfod; setliadau 'y tu allan i'r llys'; iawndal, digollediad am golli swydd

9.2.7 Costau Recriwtio, Pecynnau Adleoli a Lwfansau Amhariad

Mae costau **pecynnau adleoli** yn gymwys lle mae'r hysbyseb swydd yn datgan bod treuliau adleoli'n rhan o'r pecyn tâl. Dylai'r swydd dan sylw gwmpasu, o leiaf, hyd llawn prosiect yr UE a dangos gwerth am arian h.y. manteision amlwg o ran gwerth ychwanegol i'r prosiect o'i gymharu â pheidio â chynnig pecyn adleoli.

Byddwn yn asesu pob achos yn ôl ei rinweddau ac yn gofyn i chi ddarparu:

- Dadansoddiad manwl o'r costau disgwyliedig, y mae'n rhaid iddynt fod yn rhesymol ac yn debyg i gyfraddau'r sector cyhoeddus, neu'n is na hynny;
- Eich polisi Adnoddau Dynol safonol a hwnnw'n nodi'r telerau ac amodau ar gyfer penderfynu pryd i gynnig pecynnau adleoli;
- Cyfiawnhad eglur dros benodi'r unigolyn dan sylw, yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol ac archwiliadwy (ei brofiad, sgiliau, gwybodaeth etc).

Mae costau **recriwtio** staff yn gymwys, gan gynnwys ad-dalu costau ymgeiswyr a chyfwelydd/ hwylusydd i fod yn bresennol mewn cyfweliadau ac ymarferion asesu.

Dylid cadw'r dogfennau canlynol:

- Hysbyseb swydd, gwahoddiad i ddod am asesiad, gwahoddiad i ddod am gyfweliad neu ddogfennau tebyg sy'n hysbysu ymgeiswyr y bydd costau teithio a chynhaliaeth yn cael eu had-dalu;
- Polisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol neu recriwtio safonol y cyflogwr sy'n cadarnhau y gellir cynnig ad-dalu costau teithio a chynhaliaeth i ymgeiswyr neu i gyfwelwyr/ aseswyr/ aelodau o'r panel etc o'r tu allan i'r sefydliad.

Mae **lwfansau amhariad** yn gymwys os yw cadarnhad o'r hawl i gael taliad o'r fath wedi'i nodi ym mholisïau Adnoddau Dynol safonol y cyflogwr neu yng nghontract y cyflogai. Mae lwfans amhariad yn golygu taliadau ychwanegol i staff pan fo'n ofynnol i staff, neu pan fo staff yn cael eu hannog yn gryf i adleoli i safle arall fel rhan o strategaeth safleoedd/lleoliadau sefydliadol ehangach. Mae hefyd yn golygu taliadau i staff i gydnabod newidiadau anffafriol dros dro i'r amgylchedd gwaith (sŵn neu anghyfleustra a achosir gan welliannau i adeiladau etc).

10. Costau Uniongyrchol Swyddfeydd a Gweinyddol

Mae costau'n gymwys os ydynt yn bodloni'r rheolau cyffredinol (adran 5) a'r diffiniad o 'gost uniongyrchol' (adran 8.1).

10.1 EGLURHAD A CHANLLAWIAU

10.1.1 Lletygarwch a Diddanu

Mae costau diddanu ar gyfer staff yn unig yn anghymwys. Gall gweithgareddau diddanu sy'n rhan o'ch cynllun busnes cytunedig gael eu cefnogi, er enghraifft seremonïau gwobrwyo neu ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth neu hyrwyddo tebyg. Os nad yw gweithgareddau o'r fath yn amlwg o'ch cynllun busnes, mae'n rhaid i chi gael ein cymeradwyaeth ysgrifenedig ni i ddarparu sicrwydd o werth am arian ac anghenraid.

Mae costau lletygarwch – llogi ystafell, lluniaeth, bwyd etc – yn gostau cymwys os yw'r cyfarfod/ digwyddiad yn angenrheidiol a bod y symiau a gaiff eu hawlio yn unol â pholisi a therfynau arferol y buddiolwr.

10.1.2 Costau Statudol a Gorfodol

Os yw eich prosiect yn ennyn taliadau statudol ychwanegol neu gostau tebyg sy'n deillio o rwymedigaethau gorfodol/ rheoleiddiol – megis prynu trwyddedau a hawlenni, hyfforddiant arbenigol ar gyfer staff, mesurau iechyd a diogelwch ychwanegol, yswiriant, trethi ac ardollau – mae'r rhain yn gymwys cyn belled nad gweithgaredd y prosiect ei hun yw cyfrifoldeb neu swyddogaeth statudol graidd y buddiolwr fel corff cyhoeddus/ gweinyddiaeth gyhoeddus.

Er mwyn eglurder, ni allwn ddarparu cymorth ariannol i'ch helpu i gyflawni eich swyddogaethau a chyfrifoldebau statudol arferol ond gallwn eich cynorthwyo i gyllido unrhyw gostau ychwanegol a ysgwyddwyd yn uniongyrchol o ganlyniad i weithredu

eich prosiect, er enghraifft cost camau gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer cyflogeion newydd a benodir i weithio ar y prosiect, os yw gwiriadau o'r fath yn angenrheidiol.

10.1.3 Yswiriant

Mae premiymau yswiriant yn gymwys os yw'r yswiriant yn uniongyrchol gysylltiedig â'ch prosiect ac yn bodloni'r rheolau cymhwystra safonol o ran bod yn angenrheidiol, yn uniongyrchol gysylltiedig â'r prosiect etc

Os oes gan eich sefydliad bolisi o hunan-yswirio mewnol yn hytrach na defnyddio polisïau yswiriant masnachol (er enghraifft, y llywodraeth ganolog a sefydliadau mawr eraill yn y sector cyhoeddus), mae'n rhaid i chi ddilyn eich polisi cyfrifyddu arferol oni bai ein bod ni'n dweud wrthych ei bod yn ofynnol i chi drefnu polisi yswiriant.

10.1.4 Defnyddio Safle ac Offer y Buddiolwr

Disgwylir y bydd buddiolwyr yn defnyddio lle nas defnyddir ar hyn o bryd yn eu safle i leoli staff gweinyddu'r prosiect ac, os yn berthnasol ac yn addas, ar gyfer gweithgareddau cyflawni. Mae costau uniongyrchol sy'n deillio o ddefnyddio lle o'r fath yn gymwys (costau dibrisiant ar gyfer asedau a ddefnyddir gan y prosiect yn unig, costau ffôn/ cyfleustodau etc sy'n uniongyrchol briodoladwy). Lle nad oes lle presennol ar gael, neu os yw'r lle sydd ar gael yn anaddas, gallwn ystyried cefnogi rhent ar gyfer safle allanol, a chostau cysylltiedig, a rhoi cyfrif am hyn yng nghynllun cyllido a phroffil cyflawni'r gweithrediad.

Mae'r un egwyddor yn berthnasol i offer swyddfa.

11. Teithio a chynhaliaeth ar gyfer staff uniongyrchol

Mae'r rhain yn cynnwys costau trawsgludo, costau llety dros nos a chynhaliaeth, lwfansau ac yswiriant teithio ar gyfer rheoli a chyflawni eich prosiect.

Mae costau'n gymwys os ydynt yn bodloni'r rheolau cyffredinol (adran 5) a'r diffiniad o 'gost uniongyrchol' (adran 8.1).

Mae eich polisïau a chyfraddau arferol ar gyfer staff mewnol, gan gynnwys cyfraddau milltiredd a delir i staff, yn berthnasol wrth gyfrifo'r symiau cymwys ond yn niffyg rheolau a chyfraddau sefydledig o'r fath, bydd y rheolau canlynol yn berthnasol:

- Dull teithio mwyaf darbodus a'r llwybr mwyaf uniongyrchol
- Trenau a hediadau – dosbarth safonol/ 'economi'
- Cyfraddau ad-dalu milltiredd o 45 ceiniog y filltir (50 ceiniog os ydych yn cario teithwyr sy'n rhan o dîm prosiect yr UE a bod hyn yn disodli hawliad ar wahân gan y teithiwr).

Mae lwfansau ‘per diem’ (symiau penodedig yn cael eu talu i’r teithiwr ar gyfer costau cynhaliaeth tebygol ond heb yr angen am dystiolaeth o dderbynebau etc) yn gymwys os yw’r rhain yn rhan o bolisi costau teithio safonol y cyflogwr.

Staff allanol; Cyd-fuddiolwyr; buddiolwyr cynlluniau cymorth a reolir gan Gyrff Cyfryngol

Cofiwch fod pob cyfeiriad at y ‘polisïau a gweithdrefnau staff ac Adnoddau Dynol arferol’ drwy’r ddogfen hon yn golygu polisïau’r **cyflogwr** perthnasol (pob buddiolwr, boed yn fuddiolwr arweiniol, yn gyd-fuddiolwr neu sefydliadau y rhoddwyd cymorth iddynt gan Gorff Cyfryngol) – nid yw’n golygu y gellir defnyddio polisïau staff ac Adnoddau Dynol y buddiolwr arweiniol neu’r Corff Cyfryngol ar gyfer yr holl fuddiolwyr yn y gweithrediad.

12. Gwasanaethau ac Arbenigwyr Allanol

Mae hyn yn golygu contractau a chytundebau gyda chwmnïau allanol sy’n ymwneud â gwasanaethau ac arbenigedd proffesiynol y mae eu hangen i weithredu eich prosiect yn llwyddiannus, e.e. ffioedd cyfreithiol; costau arbenigwyr technegol ac ariannol; ffioedd ymgynghoriaeth; costau rheolaeth ac archwilio; astudiaethau, neu arolygon; cyfieithiadau; gwasanaethau sy’n gysylltiedig â darparu lleoliadau etc

Nid yw’n cynnwys ‘staff allanol’ – gweler adran 9.2 am ddiffiniadau.

EGLURHAD A CHANLLAWIAU

Ffioedd archebu yn gymwys os gellir dangos eu bod yn rhesymol, yn gyfiawnadwy ac yn sicrhau gwerth am arian

Taliadau ar gyfer prosesu trafodion ariannol yn gymwys os gellir dangos eu bod yn rhesymol, yn gyfiawnadwy ac yn sicrhau gwerth am arian.

Mae ffioedd banc am agor neu weinyddu cyfrifon yn gymwys dim ond lle rydym ni’n dweud wrthych bod yn rhaid agor cyfrif ar wahân fel un o amodau’r cymorth gan yr UE.

Mae ffioedd a thaliadau am dorri amodau eich cyfrif banc yn anghymwys, ac felly hefyd ffioedd a gymhwysir i gardiau credyd, cardiau talu, neu drefniadau debyd neu gredyd eraill.

Mae ffioedd a llog am orddrafftiau/ balansau debyd/ mynd y tu hwnt i derfynau credyd yn anghymwys.

Mae gwasanaethau proffesiynol (cyngor cyfreithiol, ffioedd notarïaid, arbenigwyr technegol ac ariannol, ymgynghoriaeth, cyfrifyddiaeth ac archwilwyr) yn gymwys os ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â’r prosiect ac yn angenrheidiol er mwyn ei reoli neu ei weithredu’n effeithiol.

Mae costau archwilio a rheoli'n gymwys os ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r prosiect ac yn angenrheidiol er mwyn ei baratoi neu ei weithredu neu os ydym ni'n gofyn amdanynt.

Mae dirwyon, cosbau ariannol a gwariant ar anghydfodau cyfreithiol a chyfreitha yn anghymwys. Mae costau cyfreithiol sy'n deillio o gychwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol/ ymgyfreithiad yn anghymwys – gweler Adran 18.

Mae treuliau teithio a chynhaliaeth arbenigwyr allanol ac a ysgwyddwyd gan y contractwyr/ darparwyr gwasanaethau hynny'n rhan o'u contract gwasanaeth ac nid ydynt yn perthyn o fewn cwmpas y rheolau ynglŷn â chostau cymwys ar gyfer 'teithio a chynhaliaeth' a nodir yn y ddogfen hon.

12.1 Taliadau i Gymell Ymgysylltiad yn Rhaglen WEFO / Gwerthusiadau Ymgyrch

Lle y gellir ei gyfiawnhau, gallwn gytuno ar gymhellion ariannol cymedrol (i'w dalu i ymatebwyr mewn gwerthusiad, ar lefel Rhaglen / Gweithredu. Mae gwerth am arian yn parhau i fod yn egwyddor sylfaenol ar gyfer cymhwyster gwariant ac felly mae'r mesurau diogelu canlynol yn berthnasol:

- Yn gyntaf, mae'n rhaid ei asesu a yw'r cymhellion ariannol yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniad a geisir, sef gwerthusiad sy'n ddibynadwy a chynrychioliadol, ac na chaiff y canlyniad hwn ei gyflawni yn absenoldeb y cymhellion ariannol hyn.
- Yn ail, rhaid i dalu cymhellion ariannol barchu egwyddor gyffredinol rheolaeth ariannol gadarn / gwerth am arian. Felly, rhaid talu cymhellion ariannol i ymatebwyr yn y gwerthusiad yw'r opsiwn mwyaf effeithlon ac effeithiol ar gyfer cyflawni'r canlyniad a geisir, hy gwerthusiad sy'n gynrychioliadol a dibynadwy ac ni ddylai lefel y cymhellion fod yn uwch na'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau cyfranogiad.
- Yn drydydd, mae angen i dalu cymhellion ariannol gydymffurfio â chyfreithiau perthnasol yr UE a chenedlaethol. Yn achos talu cymhellion ariannol i bobl ddigartref a grwpiau difreintiedig (unigolion unigol), nid oes unrhyw gyfraith Undeb a fyddai'n gwahardd y taliadau hyn

Mae'n bwysig bod cyfiawnhad cadarn, seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer defnyddio cymhellion ariannol. Bydd angen cytuno ar gytundeb blaenorol i'w defnyddio, ynghyd â swm / lefel cymhelliant ariannol gan WEFO a bydd angen ei gofnodi. Pan gaiff cwmni ei gaffael i gynnal gwerthusiadau, gall telerau'r contract gynnwys taliadau cymhelliant, gan gydymffurfio â phob un o'r uchod.

13. Offer

Offer neu ddyfeisiau yw'r rhain yr ydych yn eu prynu, yn eu rhentu, yn eu llogi neu'n eu prydlesu lle y bo angen i weithredu eich prosiect: caledwedd TGCh; offer labordy;

peiriannau ac offerynnau symudol bach; ac offer arall y mae ei angen ar gyfer y prosiect.

Cyfeiriwch hefyd at y gofynion ar gyfer 'cofrestr asedau' yn adran 14.2.

Defnydd neilltuedig

Os yw rhannau eraill o'ch sefydliad – neu sefydliadau neu unigolion eraill – hefyd yn defnyddio offer y prosiect a gyllidir gan yr UE, mae'n rhaid i chi godi dim ond cyfran deg a chyfiawn o'r costau ar gyfer eich prosiect chi. Gallwn ddarparu cyngor ynghylch dull addas ar gyfer dyrannu costau os cyfyd sefyllfa o'r fath.

13.1 Dull Caffael: Prynu, Rhentu neu Brydlesu

Mae'n rhaid mai gwerth am arian yw'r ystyriaeth allweddol, a hwnnw'n cael ei asesu dros hyd y prosiect ac oes economaidd ddisgwyliedig yr offer, gan gynnwys y pris gwerthu neu sgrapio amcangyfrifedig pan nad oes mo'i angen mwyach. Nid oes yn rhaid i chi ddewis yr opsiwn â'r gost isaf – mae effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn ystyriaethau sydd yr un mor ddilys.

Dim ond costau yn ystod cyfnod gweithredu'r prosiect y byddwn yn eu had-dalu ac ni fydd taliadau cytundebol y tu hwnt i hynny'n cael eu cefnogi.

Ni ellir defnyddio cronfeydd yr UE i ad-dalu costau a dalwyd ar gyfer cyllid neu ddyledion. Felly, mae unrhyw daliadau llog a chyllid ar gyfer contractau prydlesu, hurbrynu, neu rentu yn anghymwys ac mae'n rhaid i chi felly gyllido'r elfennau hynny'n llawn.

13.2 Costau Dibrisiant

Mae costau dibrisiant yn gymwys os yw defnyddio adeiladau, offer neu ased arall yn angenrheidiol, a bod cyswllt uniongyrchol â gweithredu eich prosiect. Ni ddylai cyfanswm y costau dibrisiant a briodolir i'r prosiect ar gyfer ased arbennig fod yn uwch na'i bris prynu gwreiddiol.

Mae'n rhaid i'r costau fod yn gysylltiedig â chyfnod y cymorth ar gyfer y prosiect yn unig ac mae'n rhaid i chi gymhwyso eich polisi ac arferion cyfrifyddu arferol ar gyfer cyfrifo'r costau dibrisiant. Nid yw dull cyfrifyddu'n 'arferol' os yw wedi cael ei addasu ar gyfer prosiect arbennig neu ar gyfer cymorth gan yr UE.

Mae costau dibrisiant ar gyfer asedau a gafodd eu caffael yn llawn neu yn rhannol gyda chymorth grant gan lywodraeth/ arian cyhoeddus – o unrhyw ffynhonnell, yr UE neu'r DU – yn anghymwys.

Nid oes gwahaniaeth pryd y cafodd yr eitem ei phrynu, hyd yn oed os yw hyn cyn i ni gymeradwyo eich prosiect neu cyn 1 Ionawr 2014, cyn belled â bod oes economaidd yr eitem heb ddod i ben yn ôl eich polisi dibrisiant arferol ar gyfer eitemau o'r fath.

13.3 Offer Ail Law

Mae'r costau hyn yn gymwys yn ddibynnol ar yr amodau canlynol:

- Mae'n rhaid i'r gost prynu beidio â bod yn uwch na gwerth cyfredol yr eitem ar y farchnad, gan ystyried ei hoed a'i chyflwr.
- Mae'n rhaid i'r gost beidio â bod yn uwch na phris offer newydd tebyg.
- Mae'n rhaid i'r gwerthwr ddarparu datganiad ysgrifenedig (bydd neges e-bost neu nodyn byr yn ddigonol) sy'n cadarnhau na chafodd yr offer ei brynu â chyfraniad o grantiau cyhoeddus yn y DU neu gan yr UE.

14. Gwariant Cyfalaf

At ddibenion y ddogfen hon, mae hyn yn golygu prynu, adeiladu neu wella ased. Mae ased yn golygu eitemau ffisegol, cyffyrddadwy y disgwylir iddynt ddwyn manteision i'ch sefydliad a fydd yn para am fwy na 12 mis a lle mae'r arfer cyfrifyddu arferol yn golygu bod eitemau o'r fath yn cael eu cydnabod fel 'ased' ym Mantolen eich sefydliad, neu mewn datganiad cyfatebol o asedau a rhwymedigaethau.

Yn nodweddiadol, byddai'r diffiniad hwn felly'n cynnwys:

(a) tir ac adeiladau;
(b) peiriannau a pheirianwaith; a
(c) gosodiadau, ffitiadau, offer a chyfarpar.

Mae'n rhaid i wariant cyfalaf gael ei **gymeradwyo'n benodol gennym ni** a'i gadarnhau yn y cytundeb cyllid grant. Felly, tybir bod yr holl gostau cymwys cymeradwy'n gostau gweithredol/ refeniw oni bai ein bod ni wedi cymeradwyo grant cyfalaf ar gyfer eich prosiect.

Gall eich sefydliad benderfynu peidio â chydnabod asedau â gwerth is neu asedau ag oes fer yn eich Mantolen a'u trin fel cost refeniw yn lle hynny – nid yw hyn yn effeithio ar y dosbarthiad 'cyfalaf' at ddibenion ein rheolau ni. Fodd bynnag, at ddibenion cronfeydd strwythurol, bydd unrhyw ased / offer corfforol a brynir, a adeiladwyd neu a wellwyd gan ddefnyddio cefnogaeth o'r cronfeydd strwythurol, lle bydd cost pob un yn fwy na £5k, yn gofyn am **gofrestr asedau prosiect**. Rhaid i bob buddiolwr arwain a chyd-fynd gydymffurfio â'r gofyniad hwn waeth beth fo bolisi cyfrifeg / cyfalafu safonol eu sefydliad.

Gallwch hawlio cost lawn yr ased fel cost gymwys hyd yn oed os yw oes economaidd ddisgwyliedig yr ased yn ymestyn y tu hwnt i gyfnod gweithredu'r prosiect, os mai prynu'r eitem, yn hytrach na'i rhentu, ei phrydlesu, neu ei llogi oedd yr opsiwn a oedd yn rhoi'r gwerth gorau am arian.

Os nad ydym ni wedi cymeradwyo unrhyw wariant cyfalaf, gallwch ddal i hawlio costau dibrisiant yn ystod y cyfnod pan fo'r prosiect yn defnyddio asedau eich sefydliad, fel a ddisgrifir yn yr adran 'dibrisiant' uchod.

14.1 Prosiectau Adeiladu: Costau Paratoi'r Safle

Mae'r costau canlynol yn gymwys: clirio'r safle; gwasanaethau ar gyfer y safle gan gynnwys costau rhagarweiniol a gadarnhawyd yn y Bil Meintiau; a chostau dadhalogi'r safle lle mae'r prosiect yn dwyn budd economaidd cymwys.

14.2 Cofrestrau Asedau

Mae'n rhaid i chi gadw cofrestr asedau i gofrestru'r holl asedau/ offer cyfalaf a brynwyd, a adeiladwyd neu a wellwyd gan ddefnyddio cymorth o gronfeydd yr UE. Gallwch ddefnyddio naill ai cofrestr asedau gorfforaethol eich sefydliad neu gallwch sefydlu cofrestr asedau prosiect-benodol. Mae'n rhaid i'r gofrestr gofnodi'r canlynol o leiaf:

- Dyddiad prynu/ caffael
- Cost
- Disgrifiad o'r eitem a/neu rif ased unigryw
- Lleoliad
- Dibrisiant y codwyd amdano hyd yma (os yn berthnasol)
- 'Llyfrwerth' net (cost wreiddiol namyn y dibrisiant y codwyd amdano hyd yma)
- Dyddiad a swm gwerthu/ gwaredu (os yn berthnasol)

Os defnyddir cofrestr asedau prosiect-benodol, mae'n rhaid ei bod yn bosibl cysoni gwerthoedd yr asedau (cost, dibrisiant, llyfrwerth net) a chategorïau'r asedau â'r wybodaeth wedi'i chydgrynhoi a gyflwynwyd yn y gofrestr asedau gorfforaethol. Mae'n rhaid darparu esboniadau digonol o unrhyw amrywiadau.

I Nodi: Yr arfer gorau yw cadw a chynnal log rhestr o'r holl offer a brynir gan ddefnyddio cymorth gan gronfeydd yr UE, er mwyn cefnogi unrhyw heriau archwilio. Gellir ystyried cyfarpar sydd â bywyd ased o lai na blwyddyn yn gost refeniw.

15. Costau Uniongyrchol Darparu Cymorth Ariannol ar gyfer Eraill

Mae hyn yn golygu darparu cymorth ariannol uniongyrchol ar gyfer sefydliadau eraill neu ar gyfer unigolion.

Mae'r ddogfen 'Modelau Cyflawni WEFO 2014-2020 yn egluro'r trefniadau rheoli sy'n angenrheidiol i weithredu cynlluniau cymorth ariannol uniongyrchol, gan gynnwys egluro pa un a all hyn gael ei wneud gan fuddiolwr ynteu dim ond gennym ni/ gan Gorff Cyfryngol.

Gallai'r cymorth fod yn seiliedig ar ad-dalu costau gwirioneddol a ysgwyddwyd ac a dalwyd gan yr ymgeisydd am grant/ derbynnydd y grant (grantiau, cynlluniau

cymhorthdal cyflog etc) neu swm y gall y derbynnydd ei ddefnyddio heb yr angen i roi cyfrif am y modd y caiff yr arian ei wario mewn gwirionedd (lwfansau, ysgoloriaethau, bwrsariaethau etc ar gyfer cyfranogwyr ESF).

Mae'r costau hyn yn gymwys dim ond os cânt eu cytuno gyda ni ymlaen llaw a'u bod yn rhan o'ch Cynllun Busnes a dull cyflawni cytunedig.

16. CATEGORÏAU COSTAU: Costau Anuniongyrchol

Fel a esboniwyd yn adran 8.3, costau yw'r rhain a gaiff eu creu o fewn eich sefydliad ac y mae prosiect yr UE yn cael budd ohonynt, ond na ellir eu cysylltu â'r prosiect na'u priodoli iddo mewn ffordd uniongyrchol a manwl gywir.

Mae 'costau anuniongyrchol' nodweddiadol yn cynnwys:

- Staff anuniongyrchol (gwasanaethau cyfrifyddu canolog, cymorth clerigol cyffredinol, gwasanaethau gwarchodol/ archifo, gwasanaethau cwsmeriaid corfforaethol, uwch reolwyr/ swyddogion gweithredol/ cyfarwyddwyr nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiect ond sydd â chyfrifoldebau trosolygu a llywodraethu cyffredinol;
- Cyflenwadau corfforaethol cyffredinol (dodrefn, defnyddiau traul, offer swyddfa, llungopïo);
- Rhent swyddfa ar gyfer gweithleoedd a rennir;
- Deunyddiau a rhentu neu brydlesu offer (nas defnyddir gan brosiect yr UE yn unig);
- Cyfleustodau (trydan, gwresogi, dŵr, draenio);
- Cynnal a chadw, glanhau, atgyweiriadau, gwasanaethau diogelwch;
- Systemau TGCh, cysylltiadau WIFI a Band Eang;
- Cyfathrebu (ffôn, ffacs, rhyngrwyd, gwasanaethau post, cardiau busnes);
- Yswiriant cyffredinol (yswiriant eiddo, atebolrwydd cyhoeddus, yswiriant bywyd etc.)

<u>Dulliau Cyfrifo</u>

Lle rydym yn cytuno bod eich gweithrediad/ prosiect yn debygol o ysgogi costau anuniongyrchol, gellir datgan costau cymwys fel canran **seiliedig ar gyfradd safonol** o rai costau uniongyrchol ('costau symlach'). Felly nid oes angen trywydd archwilio ar gyfer y costau anuniongyrchol real ac nid oes angen ystyried defnyddio methodolegau dyrannu mympwyol i briodoli costau i'ch prosiect, e.e. cyfraddau ar gyfer aseinio costau rhwng adrannau yn seiliedig ar gyfrif pennau, arwynebedd mewn troedfeddi sgwâr etc

Caiff y trefniadau manwl eu nodi yn **Adran 19**.

Rhoddir llinell ar wahân yn y gyllideb i gostau anuniongyrchol ym mhroffil cyflawni WEFO. Felly, **mae'r holl gostau eraill yn y proffil cyflawni'n gostau <u>uniongyrchol</u>** ac mae'n rhaid iddynt gyfateb i'r diffiniadau a ddarperir yn Adran 8.

CacA – gwahaniaethu rhwng cost uniongyrchol ac anuniongyrchol

C: A yw costau rhedeg gweinyddol cyffredinol/ costau sefydliad/ safle'r buddiolwr wastad yn 'anuniongyrchol'?

A: Nac ydy. Gallai'r costau hyn fod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn unol â'r diffiniadau uchod, ac mae hyn felly'n amrywio o un achos i'r llall gan ddibynnu ar y trefniadau ym mhob gweithrediad/ prosiect.

Byddai treuliau gweinyddol yn 'anuniongyrchol' os na ellir adnabod yn fanwl gywir pa swm sy'n briodoladwy i brosiect(au) yr UE. Er enghraifft, 'gwasanaethau canolog' megis: cymorth recriwtio/ Adnoddau Dynol, WIFI/ band eang; gwasanaethau cyfrifyddu cyffredinol; rheoli cyffredinol corfforaethol; glanhau; diogelwch; teleffoni, cyfleusterau TGCh; treuliau dŵr neu drydan, ac ati.

Fel arall, gallai'r costau hyn i gyd o bosibl fod yn gostau 'uniongyrchol' hefyd pe baent yn cael eu darparu ar gyfer prosiect(au) yr UE yn unig gyda thrywydd archwilio i'r anfonebau a phrawf o daliad etc

C: A yw rhenti, ardrethi a biliau cyfleustodau'n 'gostau anuniongyrchol'?

A: Yr un ateb â'r cwestiwn blaenorol.

Os mai prosiect yr UE yw unig feddiannydd adeilad neu le sydd ar rent, gallai'r mathau hyn o gostau fod yn uniongyrchol briodoladwy yn llawn i brosiect(au) yr UE (fel costau uniongyrchol).

Bydd y costau hyn yn 'anuniongyrchol' lle na ellir canfod yr union symiau sy'n briodoladwy i/ yn cael eu defnyddio gan brosiect(au) yr UE. Lle mae'r buddiolwr yn defnyddio system 'aseinio costau rhwng adrannau' neu ddull dyrannu tebyg mewn perthynas â chostau a rennir, mae hyn yn dynodi bod y costau'n 'anuniongyrchol'.

C: A yw costau 'wedi'u dyrannu' yn 'gostau anuniongyrchol'?

Mae costau wedi'u dyrannu yn gostau anuniongyrchol.

At ddibenion y rheolau hyn, mae 'costau wedi'u dyrannu' yn cyfeirio at sefyllfa lle mae sefydliad yn defnyddio methodoleg fympwyol i bennu'r symiau a fydd yn cael eu priodoli i brosiectau/ adrannau er mwyn galluogi'r sefydliad i adfer y costau a dalwyd mewn gwirionedd. Dewisir ffactor addas sy'n rheoli costau (e.e. oriau staff; lle a feddiannir mewn troedfeddi sgwâr; cyfrif pennau) fel sail i rannu'r costau rhwng y rhai sy'n cael budd ohonynt.

17. CYFRANIADAU O FATH ARALL

17.1 RHEOLAU, EGLURHAD A CHANLLAWIAU

Yn ogystal â chostau a ysgwyddwyd ac a dalwyd mewn gwirionedd gan fuddiolwr, gall gwariant cymwys fod ar ffurf cyfraniadau o fath arall hefyd, a roddwyd i'r prosiect gan drydydd partïon ac na thalwyd amdanynt.

Mae cyfraniadau o fath arall yn fath arall o 'gostau real' ynghyd â chostau dibrisiant a chostau a ysgwyddwyd ac a dalwyd mewn gwirionedd.

Gallai'r cyfraniadau hyn gynnwys:

- Darparu gwaith, nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau (gan gynnwys gweithwyr proffesiynol ac ymchwilwyr)
- Gwaith di-dâl ar y prosiect (gwirfoddolwyr sy'n helpu i reoli a/neu gyflawni'r prosiect)
- Tir a/neu adeiladau a roddir heb i daliad ariannol gael ei wneud gan y buddiolwr.

Er mwyn eglurder, nid yw 'trydydd partïon' yn cynnwys buddiolwyr y gweithrediad (buddiolwr arweiniol, cyd-fuddiolwr neu fuddiolwr cynllun cymorth) ac felly, er enghraifft, ni all cyd-fuddiolwr wneud cyfraniad o fath arall i'r buddiolwr arweiniol yn yr un gweithrediad.

Mae'r rheolau canlynol yn berthnasol:

- Ym mhob achos, mae'n rhaid i gyfanswm y cymorth cyhoeddus (cronfeydd yr UE a chyllid cyfatebol cyhoeddus cenedlaethol) a dderbynnir mewn gwirionedd gan y gweithrediad beidio â bod yn fwy na chyfanswm y gwariant cymwys heb gynnwys cyfraniadau fel arall. O'i roi fel arall, mae'n rhaid i werth yr holl gyfraniadau o fath arall beidio â bod yn fwy na chyfraniad y buddiolwyr at gostau cymwys y gweithrediad.
- Caiff y trothwy hwn ei asesu ar ddiwedd y gweithrediad. Y rheol yw sicrhau nad yw buddiolwyr yn cael mwy o arian cyhoeddus nag y mae ei angen i dalu am gostau'r prosiect.
- Mae'n rhaid i gyfraniadau gael eu darparu'n benodol i gael eu defnyddio ar y gweithrediad/ prosiect a enwir ac nid fel rhodd 'unrhyw brosiect' at ddibenion cyffredinol i'r buddiolwr. Mae hyn yn arbennig o bwysig i sicrhau nad yw'r un cyfraniad yn cael ei gofrestru i fwy nag un prosiect yn yr UE.
- Mae'n rhaid i werth y cyfraniadau gael ei bennu **naill ai** gan:
    - y **costau** a ysgwyddwyd mewn gwirionedd gan y trydydd parti ac a ategir gan ddogfennau cyfrifyddu i gadarnhau'r costau, namyn dibrisiant y codwyd amdano hyd yma lle y bo'n berthnasol (h.y. asedau dibrisiadwy a gafodd eu caffael, eu prynu neu eu hadeiladu fwy na 12 mis cyn y rhodd i brosiect yr UE); **neu**

- y **marchnadwerth** ar adeg y rhodd i brosiect yr UE. Y gost y byddai'n rhaid i'r prosiect ei thalu i gaffael y nwyddau neu'r gwasanaethau am bris cyfredol y farchnad fydd hwn;

- Mae rhaid bod gwerth y cyfraniad yn gallu cael ei hasesu a'u dilysu'n annibynnol. Ni allwn dderbyn gwerth a honnir yn syml gan y trydydd parti. Felly, os ceir anhawster o ran cael tystiolaeth o'r 'marchnadwerth cyfredol', dylid defnyddio opsiwn 'y gost a ysgwyddwyd mewn gwirionedd' yn lle hynny.
- Ni waeth pa ddull a ddefnyddir i briodoli gwerth i'r cyfraniad o fath arall, mae'r symiau canlyniadol yn dal i gael eu hystyried yn gostau 'o fath arall' – nid costau gwirioneddol a ysgwyddwyd ac a dalwyd.
- Mae'n rhaid bod y weithred o dderbyn/ realiti y cyfraniad a'i gost neu werth yn gallu cael eu hasesu a'u gwirio'n annibynnol. Mae'n rhaid bod tystiolaeth bod eich prosiect wedi derbyn ac wedi defnyddio'r cyfraniad. Er mwyn eglurder, y rheol yw y dylai gwerth a'r weithred o ddarparu cyfraniad o fath arall fod yn bosibl i'w hasesu a'u gwirio yn annibynnol: nid yw'n gosod rhwymedigaeth i wneud hynny ar yr adeg y caiff y cyfraniad ei gofnodi fel cost gymwys. I bob pwrpas mae'n nodi gofyniad ar gyfer trywydd archwilio – mae'n rhaid ei bod yn bosibl asesu a gwirio bod y gwerth a briodolwyd i bob cyfraniad o fath arall yn cydymffurfio â'r dulliau prisio a restrir uchod ac mae'n rhaid ei bod yn bosibl gwirio bod y cyfraniad o fath arall wedi cael ei wneud/ ei ddarparu mewn gwirionedd.

Yr eithriad i'r rheol hon yw gwerth tir neu adeiladau, y mae'n rhaid iddo gael ei ardystio gan arbenigwr cymwysedig annibynnol neu gorff swyddogol a awdurdodwyd yn briodol cyn bod y gwerth yn cael ei ddatgan fel cost gymwys.

Dylai'r gwerth a briodolir i gyfraniad o fath arall frasamcanu'r pris y byddech yn ei dalu am y cyfraniad hwn ar y farchnad o dan amgylchiadau arferol. Gall 'marchnadwerth' cyfredol cyfraniad o fath arall gael ei gadarnhau mewn gwahanol ffyrdd: yn seiliedig ar ystadegau, arolygon o'r farchnad, trafodiadau tebyg, cerdyn cyfraddau safonol/ cyfraddau fesul awr safonol am ddarparu gwasanaeth proffesiynol etc

Er mwyn eglurder, nid yw'r canlynol yn 'gyfraniadau o fath arall' i brosiect a gefnogir gan yr UE:

- Disgowntiau prisiau a negodiadau tebyg ynghylch prisiau gan fusnesau.
- Nodiadau credyd.
- 'Prynu un a chael un am ddim' a chynhyrchion neu wasanaethau 'rhad-ac-am-ddim' tebyg.

Nid yw'r rheol ynglŷn â chostau 'a dalwyd' (gweler 7.3.2) yn berthnasol i gyfraniadau o fath arall. Mae fel arfer yn well mesur gwerth y cyfraniad gan ddefnyddio'i farchnadwerth cyfredol, ni waeth beth fo'i gost hanesyddol. Weithiau, y ffordd orau (neu'r unig ffordd) o brisio'r cyfraniad fydd trwy gyfeirio at ei bris prynu/ ei gost

wreiddiol. Gellir gwirio hyn trwy edrych ar anfonebau taledig gan y trydydd parti, neu ddogfennau cyfrifyddu tebyg, ond ym mhob achos nid yw'n angenrheidiol cael prawf bod yr anfoneb wedi'i 'thalu' gan y sefydliad trydydd parti.

17.1.1 Gwaith Di-dâl (Amser Gwirfoddolwyr)

Cofnodir gwerth y gwaith fel yr amser gwiriedig a chyfradd y tâl am **waith cyfwerth**. Caiff y cyfraddau fesul awr eu pennu gennym ni gan gyfeirio at ddata ystadegol ynghylch y farchnad lafur a'u diweddaru o bryd i'w gilydd. Caiff y cyfraddau cyfredol eu rhestru isod a bydd cyfraddau blaenorol, os yn berthnasol, yn cael eu darparu mewn atodiad wrth y ddogfen hon.

Daw'r cyfraddau isod o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn y DU gan ddefnyddio'r data diweddaraf a gyhoeddwyd fis Tachwedd 2015. Cyfraddau'r DU yw'r rhain, ac eithrio Llundain a De-ddwyrain Lloegr.

Teitl Swydd	Cod SOC[1]	Cyfradd Fesul Awr (£)	Cyfradd Flynyddol (£)
Rheolwr Prosiect	2424	22.49	43,965
Ymchwilydd Prosiect	2426	16.85	32,222
Cydgysylltydd Prosiect	3539	14.42	28,161
Hyfforddwr	3563	14.44	28,086
Gweinyddwr Prosiect	4159	10.65	21,017

Nid yw gwaith gan wirfoddolwyr yn cael ei gategoreiddio fel 'costau staff' gan nad yw'n deillio o gontract cyflogaeth na chontract am wasanaethau am dâl a gyflawnir gan unigolyn. Yn yr un modd, nid yw gweithwyr prosiect gwirfoddol yn gyfranogwyr ESF er nad oes cyfyngiad sy'n atal gweithwyr prosiect gwirfoddol rhag ceisio derbyn cymorth gan yr un gweithrediad â chyfranogwr ESF.

17.1.2 Tir ac Adeiladau a Geir yn Rhodd

Nid yw'r rheol sy'n golygu nad oes taliad ariannol yn ofynnol ar gyfer y cyfraniad o fath arall yn berthnasol mewn perthynas â gwneud taliad enwol at ddibenion cytundeb prydlesu, ond ni ddylai fod yn fwy nag £1 y flwyddyn.

Mae'n rhaid i werth y tir neu adeiladau gael ei ardystio gan arbenigwr cymwysedig annibynnol neu gorff swyddogol a awdurdodwyd yn briodol.

Mae cyfraniadau'n anghymwys os ydynt yn ymwneud â thir (gyda neu heb adeiladau arno) y mae ei werth yn fwy na 10% o gyfanswm gwariant cymwys eich prosiect. Ar gyfer safleoedd adfeiliedig a'r rhai a arferai gael eu defnyddio'n ddiwydiannol sy'n

[1] Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol

cynnwys adeiladau, gellir cynyddu'r terfyn hwn i 15%. Mewn achosion eithriadol ac achosion a gyfiawnhawyd yn briodol, gellir ystyried canran uwch (>15%) ar gyfer prosiectau cadwraeth amgylcheddol. Cysylltwch â ni i drafod pob achos sy'n uwch na 10%.

17.1.3 Rhoi Cyfrif am Gyfraniadau o Fath Arall

Mae'n rhaid i chi roi cyfrif am gyfraniadau o fath arall fel a ganlyn:

- Eu cynnwys fel cost gymwys yn eich hawliad am daliad gan ddefnyddio'r categori costau mwyaf priodol. Bydd hyn yn arwain at daliad grant yn ôl y gyfradd grant gytunedig.
- Cynnwys, yn yr un hawliad, gofnod cyfatebol fel 'cyllid cyfatebol', gan gydnabod bod y costau o fath arall, i bob pwrpas, wedi cael eu cyllido'n llawn gan y rhoddwr trydydd parti.
- Mae'n rhaid i'r ddau gofnod fod â'r un gwerth.

18. Crynodeb ac eglurhad pellach o 'gostau real' anghymwys

- Costau sy'n ddiangen.
- Prynu asedau a gafodd eu caffael yn flaenorol gan ddefnyddio cymorth yr UE.
- Costau yr ystyrir eu bod yn anghymwys gan y rheolau cyfatebol ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol, lle y bo'n berthnasol.
- Difidendau cwmni a dalwyd i gyfranddalwyr, hyd yn oed os oeddent wedi'u bwriadu fel dewis yn lle cyflog.
- Costau gweithgareddau sydd wedi torri Cyfreithiau a Rheoliadau perthnasol gan yr UE, y DU neu Gymru.
- Costau a ad-dalwyd gan gamau gweithredu neu raglenni eraill a weithredir gan yr Undeb Ewropeaidd.
- TAW y gellir ei hadennill gan yr awdurdod treth perthnasol (Cyllid a Thollau EM fel arfer) o dan y ddeddfwriaeth TAW berthnasol, <u>hyd yn oed os ydych yn dewis peidio â'i hadennill</u>. Er mwyn eglurder, mae TAW yr ydych chi wedi'i thalu ond y gallwch ddangos nad ydych yn gallu ei hadennill gan yr awdurdodau treth yn gost gymwys os ydych yn cadw'r anfoneb TAW, neu brif ddogfen gyfatebol ar gyfer y trafodiad, i gael ei harchwilio yn y dyfodol yn ystod gwiriadau ac archwiliadau.
- Llog a ffioedd ariannol ar ddyledion, gan gynnwys cardiau credyd neu gardiau talu, ac eithrio grantiau a roddwyd ar ffurf cymhorthdal cyfraddau llog neu gymhorthdal ffi gwarant. Ffioedd ariannol, gan gynnwys ffioedd sy'n deillio o gyfnewid arian (colledion cyfnewid arian).
- Costau sy'n deillio o ohirio neu ailnegodi taliadau i gredydwyr.

- Costau cyfreithiol cychwyn, neu amddiffyn, ymgyfreithiad/ achos cyfreithiol sy'n deillio o weithgareddau'r gweithrediad, gan gynnwys anghydfodau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth neu anghydfodau cytundebol eraill. Lle mae angen gwaith cyfreithiol i weithredu gweithgareddau cymeradwy'r gweithrediad yn y ffordd a ddisgrifir yn eich cynllun busnes, ac os oes amcangyfrif o'r costau wedi'i gynnwys yn y proffil cyflawni cymeradwy, mae'r costau hyn yn gymwys (enghreifftiau: cyngor cyfreithiol i gydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol; costau sy'n gysylltiedig â chyflawni gorchymyn prynu gorfodol etc).
- Ar gyfer ERDF: Prynu tir (gyda neu heb adeiladau arno) am swm sy'n uwch na 10% o gyfanswm gwariant cymwys y prosiect. Ar gyfer safleoedd adfeiliedig a'r rhai a arferai gael eu defnyddio'n ddiwydiannol sy'n cynnwys adeiladau, cynyddir y terfyn hwn i 15%. Mewn achosion eithriadol ac achosion a gyfiawnhawyd yn briodol, gellir ystyried canran uwch ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â chadwraeth amgylcheddol.
- Costau tybiannol/damcaniaethol, hyd yn oed os oes gan y buddiolwr sail resymol i dybio bod y gost yn agos at 'gostau real' neu ei farchnadwerth. Er enghraifft, cyfraddau mewnol ar gyfer 'aseinio costau rhwng adrannau' heb gyswllt uniongyrchol â symiau gwirioneddol a dalwyd gan y sefydliad neu gyfraddau 'gwerth masnachol amcangyfrifedig' am ddefnyddio safleoedd gwag.
- Costau wedi'u hamcangyfrif neu eu cyllidebu (nid yw hyn yn golygu costau dibrisiant).
- Costau cyfle, sef symiau yr ydych chi'n credu eu bod yn cynrychioli incwm yr aed hebddo yn uniongyrchol o ganlyniad i'r prosiect/ gweithgaredd prosiect.
- Amcangyfrifon a phrisiadau cyfrifyddu megis darpariaethau, cronfeydd wrth gefn, rhwymedigaethau amodol, gostyngiadau mewn gwerth, darpariaethau ar gyfer drwgddyledion, amorteiddio asedau anghyffyrddadwy a lleihad yng ngwerth asedau.
- Drwgddyledion neu 'ddileu dyledion' dyledwyr/ yn y cyfrifon mewn ffordd debyg, gan gynnwys dileu benthyciadau i staff.
- Cyfraniadau neu roddion i bleidiau gwleidyddol a thaliadau eraill am weithgareddau o natur wleidyddol.
- Unrhyw elw (ychwanegiad, prisio ar sail cost ac ychwanegiad etc) yr ydych yn ei ychwanegu at eich costau mewnol eich hun.
- Ar gyfer gweithrediadau ESF, mae'r canlynol wastad yn anghymwys: tir, adeiladau, peiriannau a pheirianwaith sefydlog, seilwaith a rhwydweithiau (prynu neu adeiladu/adnewyddu seilwaith a rhwydweithiau).
- Taliadau neu ffioedd am daliadau hwyr i'ch credydwyr.
- Costau sy'n gysylltiedig â dirwyn endid cyfreithiol i ben.

- Taliadau gwirfoddol i staff neu gyn-aelodau o staff h.y. taliadau y tu hwnt i'r symiau a oedd yn ddyledus pe bai'r telerau cytundebol neu statudol wedi cael eu cymhwyso'n llym. Er enghraifft, setliadau uniongyrchol ('y tu allan i'r llys') ar gyfer hawliadau am ddiswyddo annheg neu hawliadau sy'n ymwneud â chwynion yn erbyn cyflogwr.
- Iawndal neu daliadau tebyg i gyn-gyflogeion mewn perthynas â setliadau mewn achosion diswyddo annheg.
- Rhoddion, prynu gwobrau, cyfraniadau a thaliadau gwirfoddol eraill (mae hyn yn methu'r prawf cymhwystra sy'n ymwneud â chostau 'angenrheidiol').
- Diddanu staff neu drydydd partïon (ond gweler yr adran 'lletygarwch a diddanu' ynghylch cymhwystra digwyddiadau, seremonïau etc).
- Dirwyon, cosbau ac iawndaliadau troseddol.
- Dirwyon, cosbau ac iawndaliadau statudol.
- Dirwyon parcio, dirwyon moduro.
- Costau a ysgwyddwyd gan gyflogwyr wrth sefydlu cynlluniau pensiwn neu eu dirwyn i ben.
- Costau a ysgwyddwyd wrth ddirwyn cwmni i ben/ cau cwmni (boed dan orfodaeth neu'n wirfoddol), gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig â dechrau neu ddiwedd mesurau megis bod yn nwylo gweinyddwyr, methdaliad, datodiad neu fesurau tebyg.
- Unrhyw log a ffioedd cyllid ar gytundebau prydlesu, hurbrynu neu rentu.

19. Costau Symlach

Cyfeiriwch hefyd at y ddogfen gynhwysfawr '*costau symlach: canllawiau manwl i fuddiolwyr (Mawrth 2015)*' a gyhoeddwyd ar dudalennau Cyllid yr UE ar wefan Llywodraeth Cymru

Caiff y costau symlach sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer gweithrediadau ERDF ac ESF yng Nghymru eu nodi yn **Atodiad E**.

19.1 Cyflwyniad

Yn fyr, mae costau symlach yn ffordd arall o gyfrifo ac adrodd ar gostau cymwys eich prosiect. Maent yn defnyddio costau amcangyfrifedig, y cytunwyd arnynt ac a bennwyd ymlaen llaw, yn hytrach na'r costau yr ydych yn eu hysgwyddo a'u talu mewn gwirionedd.

Gall costau symlach leihau'n sylweddol yr amser a'r ymdrech a neilltuir i weinyddu prosiect; gallant ysgafnhau beichiau archwilio ac arolygu; a gallant leihau costau rheoli a chadw dogfennau.

Mae'r dulliau symlach hyn yn ddewis arall yn lle'r dull 'costau real' a eglurwyd yn Adrannau 7 i 18 ac mae ganddynt y potensial i leihau'r risg o wallau wrth hawlio taliadau a chydymffurfio â rheolau ynglŷn â thaliadau.

Cymerwch amser i sicrhau eich bod chi ac, os yn berthnasol, eich cyd-fuddiolwyr yn meddu ar ddealltwriaeth lawn am y telerau ac amodau a geir isod ac yn llythyr cytundeb cyllid WEFO.

19.2 Nodweddion Allweddol - Cipolwg

Rheolau ac Amodau	Costau symlach	Costau real
Mae'n rhaid i bob eitem gost fod wedi'i chodio'n unigol i brosiect yr UE neu wedi'i chadw ar wahân yn eich system gyfrifyddu	X	√
Mae'n rhaid i chi ddarparu rhestr ar ein cyfer o'r costau unigol a ysgwyddwyd ac a dalwyd	X	√
Mae'n rhaid i chi allu darparu prawf o daliad ar gyfer pob taliad, megis cyfriflen banc	X	√
Mae'n rhaid i chi gadw anfonebau taledig, neu ddogfennau cyfrifyddu cyfatebol, ar gyfer pob taliad unigol	X	√
Mae'n rhaid i chi gadw dogfennau gwariant (anfoneb/ prawf o daliadau) nes ein bod ni'n eich hysbysu y gallant gael eu difa, o bosibl am hyd at 10 mlynedd	X	√
Byddwn ni, ac o bosibl y CE, yn archwilio ac yn gwirio'r costau yr ydych wedi'u hysgwyddo a'u talu	X	√
Mae'n rhaid i bob cost a ysgwyddwyd ac a dalwyd gydymffurfio â'r rheolau ynglŷn â 'chostau real' (rheolau'r CE a Chymru) a nodir yn y ddogfen hon	X	√
Rydym ni a sefydliadau'r UE yn cadw'r hawl i archwilio eich cofnodion cyfrifyddu cyffredinol at ddibenion ystadegol, methodolegol neu atal a chanfod twyll.	√	√

Felly ni fyddai'r rhan fwyaf o'r rheolau ynglŷn â 'chostau real' yn adran 7-18 yn cael eu hystyried yn ystod archwiliadau a gwiriadau o unrhyw gategorïau o gostau – neu weithgareddau cyfan – sy'n cael eu had-dalu gan ddefnyddio'r dull costau symlach, er enghraifft gwiriadau i gadarnhau bod pob eitem gost unigol:

- wedi'i hysgwyddo gan fuddiolwr
- wedi'i thalu gan fuddiolwr

- wedi rhoi gwerth am arian
- yn gallu cael ei hadnabod a'i gwirio ar wahân yn system gyfrifyddu'r buddiolwr trwy god unigryw neu system gyfrifyddu ar wahân
- yn uniongyrchol gysylltiedig â gweithgaredd cymwys
- yn angenrheidiol, ddim yn ormodol, ddim yn ddi-hid
- ddim yn gost nas caniateir yn benodol dan reolau cymhwystra cenedlaethol Cymru

Bydd rhai o'r ffactorau hyn yn cael eu hystyried pan fyddwch yn ymgeisio am gostau symlach – ni all unrhyw gyfradd safonol neu gost uned a gytunwyd gennym ni fod yn seiliedig ar gostau neu weithgareddau anghymwys er enghraifft – ond unwaith y byddant wedi cael eu cytuno gyda ni **ymlaen llaw**, ni fydd y meysydd uchod yn cael eu harchwilio yn ystod cyfnod gweithredu eich prosiect.

Sylwer, o fewn gweithrediad/ prosiect, y gall rhai costau gael eu had-dalu gan ddefnyddio rheolau 'cost real' tra gall eraill ddefnyddio'r dulliau 'costau symlach'. Mae'r rheolau yn y tabl uchod yn berthnasol i'r opsiwn a ddewiswyd ar gyfer pob categori costau – nid i'r gweithrediad/ prosiect cyfan.

Cynigir dau fath o opsiwn ar gyfer costau symlach yng Nghymru ar hyn o bryd:

- Cyllido yn ôl cyfradd safonol ('cyfraddau safonol')
- Costau unedau

Mae **cyllido yn ôl cyfradd safonol** yn golygu y bydd gwariant cymwys ar gyfer categorïau costau penodedig yn cael ei gyfrif fel canran gytunedig o'r costau cymwys sydd wedi'u datgan ar gyfer rhai categorïau costau **eraill**. Rydym yn defnyddio'r dull hwn ar hyn o bryd i gyfrifo'r holl <u>gostau anuniongyrchol</u> (ERDF, ESF) ac mae opsiwn i ddefnyddio cyfradd safonol o 40% ar gyfer holl <u>gostau ESF ac eithrio costau staff</u>.

Mae **costau unedau** yn golygu y bydd ad-daliadau'n seiliedig ar gostau unedau penodedig ar gyfer lefel gytunedig o weithgareddau neu ganlyniadau, ni waeth beth fo'r costau real y byddwch a ysgwyddwyd ac a dalwyd gennych i gyflawni'r gweithgareddau hynny neu achosi'r canlyniadau hynny.

Yng Nghymru, rydym yn cynnig un math o opsiwn cost uned ar hyn o bryd – costau staff fesul awr. Os cânt eu defnyddio, bydd costau staff cymwys yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfradd fesul awr a gytunwyd ymlaen llaw ac a gadarnhawyd yn y cytundeb cyllid grant.

Yn y ddau achos, nid yw'r costau real yn cael eu hystyried a <u>gall y trefniant cost symlach fod yn uwch neu'n is yn y pen draw</u> na'ch costau real. Mae'n rhaid i chi felly roi ystyriaeth ofalus i'r risg ariannol hwn a dichonoldeb ymdrin ag unrhyw ddiffyg posibl. Ni fyddwch yn gallu gofyn am arian ychwanegol o gronfeydd yr UE i ymdrin â diffyg sy'n deillio o ddefnyddio costau symlach.

Gweler Adran 9 am reolau ar gostau staff.

19.3 Perthnasedd Costau Symlach

Costau symlach (cyfraddau safonol) yw'r unig ddull sydd ar gael i gyfrifo costau anuniongyrchol. Ni ellir datgan costau anuniongyrchol ar sail 'cost real'.

Mae costau symlach hefyd yn orfodol ar gyfer gweithrediadau ESF bach lle mae'r cymorth cyhoeddus arfaethedig ar gyfer y gweithrediad yn llai na €50,000 (gweler **Atodiad E**).

Mae costau symlach eraill yn ddewisol ond rydym **yn annog yr holl fuddiolwyr yn gryf** i ystyried defnyddio costau symlach gan eu bod yn debygol o leihau beichiau gweinyddol ac archwilio, lleihau gwallau ariannol a rhyddhau staff y prosiect i ganolbwyntio ar gyflawni a chael canlyniadau – yn hytrach na gofynion cydymffurfio a phrosesau cefn-swyddfa.

Mewn rhai achosion, **nid yw costau symlach ar gael**:

- Gweithgareddau, neu brosiectau/ gweithrediadau cyfan, sy'n cael eu gweithredu'n gyfan gwbl trwy gontractio h.y. eu cyflawni neu eu gweithredu trwy waith, nwyddau neu wasanaethau wedi'u caffael. Mae hyn yn berthnasol i gaffael cyhoeddus ac i gontractau a osodir gan gyrff preifat. Lle mae contractio o fewn prosiect yn gyfyngedig i gostau cysylltiedig, eilaidd neu gymorth ond eich bod chi'n dal i gyflawni neu weithredu'r prosiect neu weithgaredd yn uniongyrchol yn hytrach na defnyddio trefniadau contractio/ rhoi gwaith ar gontract allanol – gellir defnyddio opsiynau costau symlach.

- Buddiolwyr cynlluniau cymorth y rhoddwyd grant iddynt gan Gorff Cyfryngol.

Gall costau symlach fod yn opsiwn da yn yr achosion canlynol:

- Os ydych chi, a'ch partneriaid os yn berthnasol, yn amharod i dderbyn neu'n methu â derbyn y risg ariannol na fydd eich costau real yn cael eu had-dalu'n llawn o bosibl.
- Os ydych chi, a'ch partneriaid os yn berthnasol, yn amharod i roi cyfrif neu'n methu â rhoi cyfrif am dderbyniadau dros ben h.y. lle mae costau symlach yn uwch na'r costau real a ysgwyddwyd ac a dalwyd gennych yn y pen draw. Ni fyddwn yn cyflawni unrhyw gamau i wirio bodolaeth unrhyw dderbyniadau dros ben na'r modd yr ymdriniwyd â hwy.
- Os yw eich darparwyr cyllid cyfatebol yn amharod i gyfrannu at y gweithrediad/ prosiect os nad yw costau'n seiliedig ar gostau gwirioneddol y prosiect.
- Os yw eich prosiect yn ddarostyngedig i reolau ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol a bod yr amodau cysylltiedig ddim yn cefnogi 'costau symlach' neu fod y gofynion cadw dogfennau ar gyfer Cymorth Gwladwriaethol yn golygu bod manteision costau symlach yn llai.

19.4 Eithrio Gweithgareddau, Prosiectau neu Weithrediadau 'wedi'u caffael yn llawn'

Os yw prosiect yn cael ei weithredu trwy gaffael yn unig, yna ni allwch ddewis costau symlach fel sail i ni ad-dalu'r **costau hynny** – dim ond ar sail costau real (h.y. costau anfonebau'r contract) y gallwn roi ad-daliadau i chi.

Os mai dim ond rhan o brosiect a weithredir trwy gaffael, yna mae costau symlach ar gael. I fod yn gymwys, mae'n rhaid i'r prosiect, a'i holl weithgareddau cyflawni, gael ei weithredu gennych chi – rydych chi'n cadw rheolaeth lawn ar reoli a gweithredu'r prosiect/ gweithgaredd hyd yn oed os yw rhai o'r llinellau yng nghyllideb y prosiect neu eitemau o wariant o fewn y prosiect yn cael eu caffael trwy weithdrefn gontractio (e.e. rhan o weithredu'r prosiect megis gwasanaethau glanhau, arbenigedd allanol megis hyfforddwr cymwysedig, prynu dodrefn).

Lle mae prosiect yn cynnwys gweithgareddau cyflawni ar wahân (ceinciau):

- Ni all ceinciau o weithgareddau a weithredir yn llawn trwy gaffael (h.y. yn cael eu rheoli/cyflawni gan gontractwr) ddefnyddio costau symlach.
- Gall y ceinciau 'eraill' (a reolir/ a gyflawnir gan y buddiolwr) ddefnyddio costau symlach.

Mewn perthynas â'r rheol hon, mae 'caffael' yn berthnasol i'r holl gaffael gan gynnwys contractau islaw'r trothwyon a sefydlwyd gan gyfarwyddebau caffael cyhoeddus yr UE.

19.5 Cyfnodau'r Prosiect a Chostau Symlach: Cyfnod Ymbaratoi WEFO

Mae gennych yr opsiwn i ddefnyddio'r dull 'costau real' yn ystod cyfnod ymbaratoi eich gweithrediad ac yna newid i gostau symlach ar gyfer y cyfnod cyflawni.

Fodd bynnag, bydd angen i chi ddewis y sail a ffafrir gennych ar gyfer ad-daliadau cyn pob cyfnod fel bod y telerau ac amodau'n gallu cael eu cynnwys yn eich llythyr dyfarnu cyllid. Bydd angen i ni ddarparu cytundeb cyllid diwygiedig cyn dechrau'r cyfnod cyflawni.

Ni fyddwch yn gallu newid o gostau symlach i gostau real unwaith y bydd y gweithrediad wedi dechrau, hyd yn oed os oes gan eich gweithrediad gyfnod ymbaratoi.

19.6 Cyfraddau, Telerau ac Amodau ar gyfer Costau Symlach

19.6.1 Cyfradd Safonol o 15% ar gyfer Costau Anuniongyrchol

Mae'r gyfradd hon ar gael i'r holl weithrediadau lle rydym yn fodlon bod y gweithrediad yn debygol o ennyn costau anuniongyrchol.

Cyfrifir costau anuniongyrchol cymwys trwy gymhwyso cyfradd safonol o 15% o'r **costau staff** uniongyrchol cymwys. *Gweler adran 9.2 os caiff gweithwyr asiantaeth eu cyflogi i roi gweithgareddau'r prosiect ar waith.*

Mae'r gyfradd o 15% wedi'i sefydlu yn erthygl 68(1b) o Reoliad yr UE 1303/2013 ac felly nid oes angen iddi gael ei chyfiawnhau ymlaen llaw gennym ni na chan fuddiolwyr.

19.6.2 Cyfradd Safonol o 25% ar gyfer Costau Anuniongyrchol (Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd)

Cyfrifir costau anuniongyrchol ar gyfer gweithrediadau ymchwil, datblygu ac arloesedd cymwys trwy gymhwyso cyfradd safonol o 25% i'r holl **gostau uniongyrchol perthnasol**.

Mae'r gyfradd o 25% wedi'i sefydlu yn Rheoliad yr UE 1290/2013 (rheolau ar gyfer cyfranogi a lledaenu yn Horizon 2020) a chaiff y posibilrwydd o ddefnyddio'r gyfradd hon a'r dull hwn ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ei nodi yn erthygl 68(1c) o Reoliad yr UE 1303/2013. Nid oes angen i'r gyfradd gael ei chyfiawnhau ymlaen llaw gennym ni na chan fuddiolwyr.

Pan ddefnyddir y gyfradd hon, caiff costau anuniongyrchol eu pennu trwy gymhwyso cyfradd safonol o 25% o gyfanswm y **costau uniongyrchol perthnasol**. Mae costau uniongyrchol perthnasol yn golygu'r holl gostau uniongyrchol cymwys ond heb gynnwys y canlynol:

1) costau isgontractio (cyflawni gweithrediadau, prosiectau neu weithgareddau ar wahân o dan gontract)
2) costau adnoddau a ddarperir gan drydydd partïon nas defnyddir ar safle'r buddiolwr
3) cymorth ariannol i drydydd partïon.

Mae'r gyfradd hon yn ddewis arall yn lle'r opsiwn '15% o gostau staff' sydd ar gael i'r holl weithrediadau ac a ddisgrifir uchod, ac nid yw'n ychwanegol ato.

NODYN I STAFF WEFO

Mae gweithrediadau (neu brosiectau o fewn gweithrediad) yn gymwys ar gyfer y gyfradd hon os ydynt wedi'u codio gan WEFO fel rhai sy'n perthyn i'r 'meysydd ymyrraeth' a blaenoriaethau rhaglenni canlynol.

Ar gyfer ERDF

MEYSYDD YMYRRAETH CYMHWYSOL

Ymchwil, datblygu ac arloesedd:

- *Cod 056 – Buddsoddiad mewn seilwaith, galluoedd ac offer mewn BBaChau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau ymchwil ac arloesedd*

- *Cod 057 - Buddsoddiad mewn seilwaith, galluoedd ac offer mewn cwmnïau mawr sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau ymchwil ac arloesedd*
- *Cod 060 – Gweithgareddau ymchwil ac arloesedd mewn canolfannau ymchwil gyhoeddus a chanolfannau cymhwysedd gan gynnwys rhwydweithio*
- *Cod 061 - Gweithgareddau ymchwil ac arloesedd mewn canolfannau ymchwil gyhoeddus gan gynnwys rhwydweithio*
- *Cod 062 – Gweithgareddau trosglwyddo technoleg a chydweithrediad rhwng prifysgolion a mentrau sydd o fudd i BBaChau yn bennaf*
- *Cod 063 – Cymorth clwstwr a rhwydweithiau busnes sydd o fudd i BBaChau yn bennaf*
- *Cod 064 – Prosesau ymchwil ac arloesedd mewn BBaChau (gan gynnwys cynlluniau talebau, arloesedd mewn prosesau, dylunio, gwasanaethau ac arloesedd cymdeithasol)*
- *Cod 065 – Seilwaith a phrosesau ymchwil ac arloesedd, gweithgareddau trosglwyddo technoleg a chydweithrediad mewn mentrau sy'n canolbwyntio ar yr economi carbon isel ac ar wydnwch yn erbyn y newid yn yr hinsawdd*

***AC** yn cyfateb i un o'r canlynol*

AMCANION THEMATIG A BLAENORIAETHAU BUDDSODDI ERDF:

Cryfhau ymchwil, datblygiad technolegol ac arloesedd trwy'r canlynol:

- ***Blaenoriaeth 1; AP1.1 (gallu ymchwil)** gwella seilwaith ymchwil ac arloesedd a galluoedd er mwyn meithrin rhagoriaeth yn y maes a hyrwyddo canolfannau cymhwysedd, yn enwedig y rhai sydd o ddiddordeb Ewropeaidd;*
- ***Blaenoriaeth 1: AP1.2 (masnacheiddio)** hyrwyddo buddsoddiadau busnes ym maes arloesedd ac ymchwil, a datblygu cysylltiadau a synergeddau rhwng busnesau, canolfannau ymchwil a datblygu ac addysg uwch, yn enwedig datblygu cynhyrchion a gwasanaethau, trosglwyddo technoleg, arloesedd cymdeithasol, eco-arloesi, cymwysiadau gwasanaeth cyhoeddus, ysgogi galw, rhwydweithio, clystyrau ac arloesedd agored drwy Arbenigo Craff ac ymchwil dechnolegol a chymhwysol ategol, llinellau peilot, camau dilysu cynnyrch cynnar, galluoedd uwch weithgynhyrchu a chynhyrchu cyntaf, yn enwedig mewn Technolegau Galluogi Allweddol ac ymlediad technolegau diben cyffredinol;*

Gwella Cystadleurwydd BBaChau trwy:

- ***Blaenoriaeth 2: AP2.1 (mynediad at gyllid) ac AP2.2 (BBaChau newydd)** hyrwyddo entrepreneuriaeth, yn enwedig drwy hwyluso'r defnydd economaidd o syniadau newydd a helpu i sefydlu cwmnïau newydd, gan gynnwys drwy fannau deori busnes;*
- ***Blaenoriaeth 2: AP2.3 (twf busnesau) ac AP2.4 (manteisio ar TGCh)** rhoi cymorth i greu ac ymestyn galluoedd uwch ar gyfer datblygu cynhyrchion a gwasanaethau;*

Chefnogi'r symudiad tuag at economi carbon isel ym mhob sector gan:

- ***Blaenoriaeth 3: AP3.1 (cynyddu nifer & profion tonnau / llanw a dyfeisiau ynni cyfarpar lluosog o fewn ac oddi ar y dyfroedd arfordirol Cymru, AP3.2 (cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach) a AP3.3 (cynyddu effeithlonrwydd ynni stoc, tai presennol Cymru enwedig mewn ardaloedd o dlodi tanwydd)*** *roedd hyrwyddo cynhyrchu a dosbarthu ynni sy'n deillio o ffynonellau adnewyddadwy, hyrwyddo effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy mewn mentrau, cefnogi effeithlonrwydd ynni, rheoli ynni deallus ac adnewyddadwy defnydd o ynni mewn seilwaith cyhoeddus, gan gynnwys mewn adeiladau cyhoeddus, ac yn y sector tai, hyrwyddo ymchwil ac arloesi, a mabwysiadu technolegau carbon isel;*

Ar gyfer ESF

MEYSYDD YMYRRAETH CYMHWYSOL

- *Thema Eilaidd ESF Cod 04: cryfhau ymchwil, datblygiad technolegol ac arloesedd.*

  AC *yn cyfateb i'r canlynol*

AMCANION THEMATIG A BLAENORIAETH FUDDSODDI:

- ***Y flaenoriaeth sgiliau ar gyfer twf: AP3 (Sgiliau Ymchwil ac Arloesedd)*** *cryfhau ymchwil, datblygiad technolegol ac arloesedd trwy ddatblygu astudiaethau ôl-raddedig a sgiliau entrepreneuraidd, hyfforddi ymchwilwyr, gweithgareddau rhwydweithio a phartneriaethau rhwng sefydliadau addysg uwch, canolfannau ymchwil a thechnolegol a mentrau;*

19.6.3 Cyfradd Safonol o 40% ar gyfer Costau Uniongyrchol ac Anuniongyrchol ESF

Mae'r gyfradd hon ar gael i'r holl weithrediadau ESF.

Cyfrifir costau uniongyrchol cymwys, ac eithrio costau staff, a chostau anuniongyrchol trwy gymhwyso cyfradd safonol o 40% o'r **costau staff** uniongyrchol cymwys.

Mae costau staff yn golygu contractau uniongyrchol â gweithwyr unigol sy'n gwneud gwaith ar gyfer y prosiect ac mae hyn felly'n cynnwys staff mewnol ac allanol (gweithwyr hunangyflogedig, gweithwyr asiantaeth) ond nid contractau gyda ffyrmau/ cwmnïau/ cyrff corfforaethol.

Mae'r gyfradd o 40% wedi'i sefydlu yn erthygl 14(2) o Reoliad yr UE 1304/2013 ac nid oes angen iddi gael ei chyfiawnhau ymlaen llaw gennym ni na chan fuddiolwyr.

19.6.4 Costau Unedau ar Gyfer Costau Staff y Prosiect

Mae cyfradd benodedig fesul awr ar gyfer staff y prosiect wedi'i sefydlu yn eich llythyr dyfarnu cyllid a gellir defnyddio hon wrth gyflwyno eich hawliadau am daliadau.

Mantais allweddol defnyddio'r opsiwn hwn yw na fydd gwiriadau ac archwiliadau a gynhelir ar unrhyw adeg trwy gydol cyfnod gweithredu'r gweithrediad yn archwilio cofnodion ariannol y gyflogres na chyfriflenni banc i gadarnhau bod y symiau wedi cael eu talu.

Canfyddir costau fesul awr trwy rannu'r costau cyflogaeth gros blynyddol diweddaraf sydd wedi'u dogfennu â 1,720 awr. Gall y costau cyflogaeth gros diweddaraf gynnwys yr holl gostau staff cymwys fel a nodir yn Adran 3 (cyflog, trethi a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr etc).

Caiff yr amcangyfrif blynyddol o oriau cynhyrchiol (1,720) ei bennu gan Reoliadau'r CE a gellir ei ddefnyddio heb gyfiawnhad pellach. Fel arall, gallwch ddefnyddio'r oriau cynhyrchiol gwirioneddol a gadarnhawyd mewn contractau cyflogaeth neu'r polisi Adnoddau Dynol safonol (bydd hyn yn cael ei archwilio yn ystod gwiriadau ac archwiliadau).

Gall y cyfraddau cytunedig gael eu pennu ar gyfer aelodau unigol o staff neu, yn fwy tebygol, ar gyfer grwpiau o staff gan ddefnyddio cyfartaleddau graddau/bandiau.

Amcangyfrifir nifer yr oriau cynhyrchiol blynyddol (1,720) yn unol â Rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd a gellir defnyddio'r ffigwr hwn heb ei gyfiawnhau ymhellach. Neu, os dewiswch beidio â defnyddio nifer yr oriau gwaith blynyddol safonol, sef 1,720: - bydd angen i chi roi'r manylion i WEFO, neu gyfiawnhau'ch ffigurau, gan ddangos eich costau cyflogaeth gros blynyddol **diweddaraf** (fel y'u nodir yn eich cyfrifon, cofnodion cyflogres etc), ynghyd â'r oriau cynhyrchiol blynyddol arfaethedig. Bydd hyn yn caniatáu i WEFO gadarnhau a chytuno ar y cyfraddau fesul awr y byddwch yn eu defnyddio, a chofnodir y cyfraddau yn eich llythyr dyfarnu. Mae rhagor o fanylion yn Adran 5 o'r 'Canllawiau manwl ar ddefnyddio costau symlach'. Gellir pennu'r cyfraddau y cytunir arnynt ar gyfer gweithwyr unigol neu ar gyfer grwpiau o staff gan ddefnyddio graddfeydd/bandiau cyfartalog.

Os yw costau unedau fesul awr ar gyfer staff wedi bodoli am o leiaf ddwy flynedd, gallwch ofyn am ddiwygio'r gyfradd i adlewyrchu'r costau cyflogaeth diweddaraf a oedd wedi'u dogfennu ar adeg yr adolygiad.

Rhagor o Wybodaeth a Chyngor Ynghylch Costau Symlach

Cysylltwch â ni i drafod y costau symlach 'parod' a nodir uchod neu os oes gennych ddiddordeb yn y posibilrwydd o ddefnyddio costau unedau neu lwmpsymiau (costau cymwys wedi'u pennu dim ond ar sail **cyflawni gweithgareddau** neu **sicrhau**

allbynnau neu ganlyniadau) – caiff y rhain eu hesbonio yn y ddogfen ar wahân *‘costau symlach: canllawiau manwl i fuddiolwyr’* a gyhoeddwyd ar dudalennau Cyllid yr UE ar wefan Llywodraeth Cymru.

RHAN 4: RHEOLAU CRONFA-BENODOL AR GYFER ERDF

20. Gweithgareddau ERDF Cymwys

Gall gweithgareddau gael eu cefnogi gan ERDF os cânt eu hasesu a'u cytuno gennym ni pan fyddwn yn gwneud ein penderfyniad dyfarnu cyllid, naill ai yn ystod y penderfyniad cychwynnol ynghylch y cyllid neu yn ystod diwygiad diweddarach.

Hefyd, mae Rheoliad ERDF yr UE 1301/2013 yn pennu bod yn rhaid i gwmpas y cymorth gyd-daro ag un neu fwy o'r gweithgareddau a ddisgrifir yn erthygl 3 o'r Rheoliad hwnnw.

Byddwn yn asesu cydymffurfiaeth â'r Rheoliad a Rhaglenni Gweithredol ERDF Cymru pan fyddwch yn cyflwyno eich cais am gyllid i ni.

GWEITHGAREDDAU ANGHYMWYS

Mae'r canlynol y tu allan i gwmpas ERDF ac ni fyddant yn cael eu cefnogi:

[32] Datgomisiynu neu adeiladu gorsafoedd niwclear;

[33] Buddsoddiad i gyflawni gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau sy'n perthyn i Atodiad I o Gyfarwyddeb y CE 2003/87/EC;

[34] Gweithgynhyrchu, prosesu a marchnata tybaco a chynhyrchion tybaco;

[35] 'Ymgymeriadau mewn trafferthion' ('Undertakings in difficulties') fel a ddiffinnir o dan reolau'r UE ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol.

[36] Seilwaith meysydd awyr oni bai ei fod yn gysylltiedig â diogelu'r amgylchedd neu'n cael ei ategu gan fuddsoddiadau sy'n angenrheidiol i liniaru neu leihau ei effaith amgylcheddol negyddol.

Sylwer bod y rheolau hyn yn berthnasol i gymorth ariannol (buddiolwyr, mentrau a gefnogir) yn ogystal ag i'r rhai sy'n cael cymorth uniongyrchol anariannol gan weithrediad ERDF.

21. Cymhwystra Daearyddol Gweithrediadau ERDF

Rydym yn disgwyl fel rheol i weithrediadau **gael eu gweithredu o fewn** y rhanbarth rhaglennu sy'n darparu'r cyllid. Caiff y rhanbarth rhaglennu, gan gynnwys unrhyw ardaloedd yn y môr, eu diffinio yn nogfennau'r Rhaglenni Gweithredol sydd ar gael ar dudalennau Cyllid yr UE ar wefan Llywodraeth Cymru.

RHEOLAU

Gallwn hefyd ystyried cefnogi gweithrediadau a weithredir **y tu allan i ranbarth y rhaglen** os bodlonir yr holl amodau canlynol:

[37] Bydd y gweithgareddau 'y tu allan i'r ardal' o fudd yn uniongyrchol i ardal y rhaglen.

[38] Mae Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru yn cytuno y bydd y gweithrediad, neu'r math o weithrediad/gweithgaredd, yn dwyn manteision i ranbarth y rhaglen er ei fod yn digwydd mewn rhanbarth neu wlad arall. Byddwn yn canlyn arni â'r trefniadau ar gyfer ceisio cytundeb y Pwyllgor.

[39] Gweithredu'r gweithgareddau y tu allan i ranbarth y rhaglen yw'r ffordd orau – neu'r unig ffordd – o gynyddu i'r eithaf y manteision i ranbarth y rhaglen.

[40] Mae gweithredu'n digwydd o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

[41] Os yw eich gweithrediad yn cael cymorth i gyflawni **gweithgareddau hyrwyddo**, gall y rhain ddigwydd **y tu allan i'r UE** os yw hynny o fudd i ranbarth y rhaglen. Mae'n rhaid i chi geisio ein cymeradwyaeth ni ar gyfer y math yma o wariant ymlaen llaw er mwyn i ni allu cadarnhau ei fod yn angenrheidiol a gwirio bod trefniadau rheoli ac archwilio digonol yn bodoli. Dylid deall 'gweithgareddau hyrwyddo' fel gweithgareddau sy'n amcanu at godi ymwybyddiaeth a lledaenu gwybodaeth, er enghraifft cyfleoedd busnes a trosglwyddo gwybodaeth mewn ffeiriau masnach.

[42] Os mai dim ond rhan o'ch gweithrediad sy'n cael ei gweithredu y tu allan i ranbarth y rhaglen (e.e. un prosiect neu weithgareddau/ tasgau penodedig) bydd angen i chi roi cyfrif am y gweithgareddau a'r costau sy'n gysylltiedig â'r elfen 'y tu allan i'r ardal' o'r prosiect ac adrodd ar hyn wrthym ni yn eich hawliad am daliad.

Sylwer bod cyfyngiad ar y math yma o hyblygrwydd ac felly efallai na fyddwn yn gallu cefnogi eich gweithrediad hyd yn oed os yw'n cwrdd â'r meini prawf uchod. Byddwn yn eich hysbysu ynghylch hyn ar adeg eich cais. Mae'n rhaid i'r cyfanswm a ddyrennir o dan y rhaglen ar gyfer gweithgareddau neu weithrediadau a weithredir y tu allan i ranbarth y rhaglen beidio â bod yn uwch na 15% o'r cymorth o ERDF ar lefel pob un o flaenoriaethau'r rhaglen.

Os yw manteision yn amlwg yn cronni i ranbarthau neu wledydd eraill yn yr UE – yn hytrach na dim ond i ranbarth y rhaglen sy'n darparu'r cyllid – bydd angen i ni bennu'r manteision pro rata sy'n briodoladwy i ardal y rhaglen. Bydd y costau cymwys ar gyfer y gweithgareddau hynny wedyn yn gyfyngedig i'r ganran a gytunwyd. Os yw hyn yn berthnasol i'ch gweithrediad chi, cysylltwch â ni i drafod sail addas ar gyfer dyrannu.

Yn achos seilwaith a buddsoddiad cynhyrchiol mae lleoliad y prosiect yn hunanamlwg (lleoliad yr asedau/ y gweithgaredd cynhyrchiol). Mewn achosion eraill, gall 'lleoliad y gweithrediad' gael ei bennu gan leoliad y gweithgareddau a gefnogir neu drwy bennu ble y caiff canlyniadau'r gweithgareddau hyn eu defnyddio. Gall yr olaf o'r rhain fod yn achos sy'n ymwneud â gweithrediadau ymchwil a datblygu lle mae rhai gweithgareddau o bosibl yn golygu gwaith mewn rhanbarthau neu wledydd eraill, ond lle manteisir ar/ lle datblygir canlyniadau'r gwaith gan ranbarth y rhaglen yn unig. Mae hyn hefyd yn berthnasol yn achos teithiau astudio.

Nid yw lleoliad swyddfeydd corfforaethol neu weinyddol, gan gynnwys lleoliad timau rheoli a gweinyddu prosiect yr UE – ynddo'i hun – yn ffactor sy'n pennu cymhwystra daearyddol.

Yn olaf, cofiwch, yn ychwanegol at y rheolau a nodir uchod, bod yn rhaid i chi hefyd gydymffurfio ag unrhyw reolau ynglŷn â chymhwystra daearyddol a sefydlwyd yn eich cynllun busnes a gymeradwywyd gan WEFO neu sy'n deillio o reolau ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol.

22. Prosiectau Mawr

Dylech fod yn ymwybodol bod gweithdrefnau cymeradwyo arbennig yn berthnasol cyn y gellir dyfarnu cyllid ar gyfer camau gweithredu lle mae'r costau cymwys yn uwch na €50 miliwn. Caiff y trothwy ei gynyddu i €75 miliwn ar gyfer rhai mathau o gamau gweithredu sy'n ymwneud â seilwaith cludiant a rhwydweithiau – byddwn yn eich hysbysu os yw hyn yn berthnasol.

Yng nghyd-destun y rheol hon, mae ystyr benodol i'r term 'camau gweithredu':

Prosiect, neu grŵp o brosiectau, sy'n cynnwys cyfres o ddarnau o waith, gweithgareddau neu wasanaethau i gyflawni tasg ***anwahanadwy*** *o natur economaidd neu dechnegol fanwl gywir sydd â nodau eglur.*

Yr egwyddor yw bod Prosiectau Mawr yn uned ddadansoddi hunangynhaliol, h.y. yn cynnwys lotiau technegol, cyfnodau gweinyddol neu ariannol **na ellir ystyried eu bod yn weithredol ynddynt eu hunain** [Rheoliad yr UE 2015/207, Atodiad III, adran 2.1.3].

O'i roi fel arall, nid oes yn rhaid i brosiectau ar wahân gael eu cydgrynhoi a'u trin fel un Prosiect Mawr os yw'r canlynol yn wir:

- os gellir ystyried bod pob prosiect yn weithredol ynddo'i hun, yn gallu llwyddo i gyflawni amcanion y prosiect heb y prosiectau 'eraill'.
- os yw'r grŵp o brosiectau ar y cyfan yn cynnwys tasgau sy'n wahanadwy – yn economaidd, yn dechnegol ac mewn perthynas â'r nodau y bwriedir i bob prosiect eu cyrraedd.

Nid yw'r ffaith bod prosiectau gwahanol, ond cysylltiedig, yn cael eu rheoli gan yr un sefydliad sy'n fuddiolwr neu'r un personél yn gwneud y prosiectau hynny'n un Prosiect Mawr. Yn yr un modd, nid yw un tîm marchnata, na mesurau brandio a chyhoeddusrwydd cyffredin neu fesurau eraill cyffredin o ran gwybodaeth a chyfathrebu yn cael unrhyw ddylanwad o ran yr angen i gydgrynhoi'r prosiectau gwahanol ar gyfer asesiad fel un Prosiect Mawr.

Mae'r broses ymgeisio ar gyfer prosiectau mawr yn fwy trylwyr ar y cyfan ac mae'r canlynol yn ofynnol ar ei chyfer:

- Adolygiad Ansawdd Annibynnol, wedi'i gwblhau gan arbenigwr â chymwysterau addas, cyn ein bod yn dethol y gweithrediad (mae'r CE yn cael ei hysbysu ynghylch y penderfyniad dethol ac mae ganddo dri mis i fynegi gwrthwynebiad) **neu**
- Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn asesu ac yn cymeradwyo'r gweithrediad.

Bydd dull yr Adolygiad Ansawdd Annibynnol, os caiff ei ddefnyddio, naill ai'n cael ei ddarparu a'i ariannu gan weithgarwch cymorth technegol y Comisiwn Ewropeaidd neu gallwn ni gynnig arbenigwr annibynnol arall os yw'r CE yn cytuno â hynny.

Os yw'r rheolau hyn yn berthnasol i'ch prosiect chi, byddwn yn eich arwain trwy'r broses ymgeisio ac yn rhoi gwybodaeth gyson i chi am y cynnydd.

NODYN I STAFF WEFO

- Mae prosiectau mawr wedi'u cyfyngu i'r rhai a nodir yn y 'rhestr o brosiectau mawr' sydd wedi'i chynnwys yn y Rhaglenni Gweithredol. Gweler erthygl 102(5) o Reoliad yr UE 1303/2013.

- Mae'r trothwy o €75m yn berthnasol i weithrediadau sy'n cyfrannu at yr amcan thematig i 'hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a dileu mannau cyfyng mewn seilweithiau rhwydwaith allweddol' - erthygl 9(7) o Reoliad yr EU 1303/2013. Cyfeiriwch at ddogfen Rhaglen Weithredol ERDF i ganfod yr echelau blaenoriaeth cyfatebol.

- Dim ond cyn cymeradwyo y caiff y trothwy EUR-GBP ar gyfer prosiectau mawr ei asesu. Nid yw newidiadau i gyfraddau cyfnewid ar ôl cymeradwyo yn arwain at ailddosbarthu gweithrediad fel 'prosiect mawr'.

- Mae Offerynnau Ariannol wedi'u hesemptio o weithdrefnau 'prosiectau mawr'.

- Lle mae WEFO yn dethol ac yn cymeradwyo Prosiect Mawr yn dilyn Adolygiad Ansawdd Annibynnol cadarnhaol, mae'n rhaid i WEFO hysbysu'r CE ynghylch y penderfyniad dethol mewn perthynas â'r prosiect mawr. Mae gan y CE dri mis wedyn i wrthod y cyfraniad ariannol arfaethedig i'r prosiect mawr. Bydd y cyfraniad ariannol yn cael ei ystyried yn un a gymeradwywyd yn niffyg ymateb gan y Comisiwn o fewn tri mis. Ni all y Comisiwn ond ei wrthod os yw'n canfod gwendid sylweddol yn yr Asesiad Ansawdd Annibynnol. Gweler erthygl 102(1) o Reoliad yr UE 1303/2013.

- Gellir datgan gwariant ar Brosiect Mawr wrth y Comisiwn cyn gynted ag y caiff ei gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth neu yr hysbysir ei fod wedi'i ddethol (os defnyddiwyd Adolygiad Ansawdd Annibynnol). Mae'n rhaid i'r gwariant a ddatganwyd gael ei ganslo/ ei dynnu'n ôl os bydd y CE wedyn yn gwrthod cymeradwyo'r cyfraniad ariannol i'r gweithrediad. Gweler erthygl 102(6) o Reoliad yr UE 1303/2013.

- Mae gweithdrefnau arbennig yn berthnasol ar gyfer penderfyniadau ynghylch prosiectau mawr a gaiff eu gweithredu'n raddol (eu bod yn cwmpasu mwy nag un cyfnod rhaglennu) – Gweler erthygl 103 o Reoliad yr UE 1303/2013.

RHAN 5: RHEOLAU CRONFA-BENODOL AR GYFER ESF

23. Gweithgareddau ESF Cymwys

Mae'r rheolau cymhwystra cyffredinol ar gyfer gweithgareddau (Adran 31) yn berthnasol i weithrediadau ESF ond dylech nodi'r achosion ESF-benodol canlynol hefyd:

Darparu cyrsiau hyfforddiant diogelwch yn y gweithle trwy ddarparwr wedi'i gaffael

Dylech nodi bod yn rhaid i rai gweithgareddau hyfforddiant diogelwch yn y gweithle gael eu darparu gan ddarparwr wedi'i gaffael a pheidio â chael eu darparu'n uniongyrchol gan fuddiolwr. Mae **Atodiad F** yn darparu manylion pellach. Mae costau uniongyrchol buddiolwyr sy'n gweithredu mesurau o'r fath yn uniongyrchol felly'n anghymwys ar gyfer cymorth o'r rhaglen ESF.

Efallai na fydd unigolion sy'n cyfranogi yn Rhaglen Waith Llywodraeth y DU yn gymwys i gael cymorth o raglenni ESF Cymru

Bydd unigolion sy'n cyfranogi yn Rhaglen Waith Llywodraeth y DU yn gymwys dim ond lle gellir dangos yn eglur bod ESF yn ychwanegu gwerth at ddarpariaeth graidd y Rhaglen Waith a gyllidir gan Lywodraeth y DU.

Mae'r CE yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddangos gwerth ychwanegol buddsoddiadau ESF ac mae hyn yn golygu, er enghraifft, sicrhau nad yw cymorth a gyllidir gan ESF yn dyblygu nac yn disodli darpariaeth/cynlluniau cenedlaethol a gyllidir ag arian cyhoeddus. Mae hyn yn berthnasol pa un a yw'r cynlluniau/ y ddarpariaeth yn cael eu/ei harwain gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru neu awdurdodau cyhoeddus rhanbarthol/ lleol.

Felly bydd angen i unrhyw weithrediad WEFO sydd wedi'i fwriadu i helpu pobl i gael gwaith ac sy'n amcanu at gynnwys cyfranogwyr y Rhaglen Waith – yn ychwanegol at y gofynion cyffredinol o ran tystiolaeth ar gyfer cyfranogwyr – gael tystiolaeth ddogfennol gan brif ddarparwr y Rhaglen Waith berthnasol sy'n cadarnhau bod ar bob cyfranogwyr angen mynediad at y ddarpariaeth a gyllidir gan ESF i gwblhau ei lwybr i gyflogaeth gynaliadwy am nad yw hyn yn cael ei gyllido o fewn contractau'r Rhaglen Waith.

Mae'n ofynnol i'r dystiolaeth ddangos gwerth ychwanegol cymorth sy'n gysylltiedig â chyflogaeth gan ESF a chael sicrwydd digonol y byddai cymorth o'r fath yn ategu, yn hytrach na disodli, trefniadau cymorth cenedlaethol presennol a gyllidir ag arian cyhoeddus.

Bydd pob gweithrediad yn cytuno ar y grwpiau targed gyda ni yn y Cynllun Busnes. Nid ydym yn disgwyl i unrhyw ddarpariaeth ESF gael ei defnyddio fel rhan o gymorth i unigolion sy'n seiliedig ar amodoldeb.

Noder fod y Rhaglen Waith ddim yn derbyn ymgeiswyr newydd ers mis Ebrill 2017.

Rheolau ar gyfer cynlluniau cymhorthdal cyflog

Lle cafodd hynny ei gytuno yn y cynllun busnes/ cynnig am gyllid, ac yn amodol ar unrhyw reolau perthnasol ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol, gall costau cymwys mewn cynlluniau cymhorthdal cyflog gynnwys: cyflogau, lwfansau, cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

Lle mae cyflogwr yn talu swm uwch i'r cyfranogwr na'r gyfradd y cytunwyd arni, mae'r swm dros ben yn gost anghymwys.

Lle mae prosiectau sy'n ymwneud â'r farchnad lafur ganolradd yn darparu lwfansau hyfforddi, mae'n rhaid i'r symiau a delir fod yn gyfwerth ag Isafswm Cyflog Cenedlaethol y DU.

Gellir defnyddio cymorthdaliadau cyflog i gefnogi naill ai swyddi dros dro neu swyddi parhaol ond mae'n rhaid iddynt arwain at well cyflogadwyedd neu gyflogaeth sefydlog, gan gynnwys hunangyflogaeth. Mae'n rhaid i brosiectau allu dangos gwelliant yn sgiliau gwaith y cyfranogwr ar ddiwedd y cymorth.

24. Cymhwystra daearyddol Gweithgareddau ESF

Rydym yn disgwyl ar y cyfan i weithgareddau ddigwydd yn yr ardal raglennu sy'n darparu'r cyllid (naill ai Dwyrain Cymru neu Orllewin Cymru a'r Cymoedd) fel a ddiffinnir yn y Rhaglenni ESF.

Cofiwch, yn ogystal â'r rheolau a nodir isod, bod yn rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw reolau cymhwystra daearyddol a sefydlwyd yn eich cynllun busnes gyda WEFO neu sy'n deillio o reolau ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol.

Gallai gweithgareddau ESF ddigwydd mewn rhanbarthau a gwledydd eraill hefyd – ond o fewn yr UE – os yw'r manteision yn amlwg yn cronni i ardal y rhaglen gyllid ac mai ymgymryd â'r gweithgareddau y tu allan i ardal y rhaglen yw'r ffordd orau – neu'r unig ffordd – o ddarparu'r cymorth sy'n ofynnol neu gyflawni gwerth am arian.

Mae'r rheolau hyn yn ymwneud â lleoliad gweithgareddau ESF, er enghraifft, ble mae gweithgareddau hyfforddiant neu gymorth yn cael eu cynnal mewn gwirionedd – nid yw'n rhagwahardd contractio gyda chyflenwyr/ darparwyr y mae eu swyddfeydd corfforaethol neu weinyddol wedi'u lleoli y tu allan i Gymru (neu'r tu allan i'r UE) neu ymgymryd â theithiau unigol y tu allan i'r UE os ydynt yn gysylltiedig â'r prif weithgaredd ESF, er enghraifft, teithiau 'hyfforddi'r hyfforddwr' lle mae hyn yn angenrheidiol ac yn rhoi'r gwerth gorau o'i gymharu â'r opsiynau eraill.

Os yw lleoliad y gweithgaredd ESF y tu allan i Gymru, mae'n rhaid i chi gytuno gyda ni ymlaen llaw fel ein bod ni'n gallu sicrhau bod trefniadau addas ar gyfer rheoli ac archwilio'n gallu cael eu sefydlu a deall pam mai hwn yw'r opsiwn sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian o'i gymharu â chyflawni'r gweithgaredd yng Nghymru.

Mae'r rheolau hyn wedi'u bwriadu i sicrhau bod manteision cronfeydd yr UE yn cronni i economi a phobl y rhanbarth sy'n darparu'r cyllid.

24.1 Gweithgareddau sy'n digwydd y tu allan i'r UE

Hyd at derfyn o 3% o gyllideb pob Rhaglen ESF, gallwn ddewis cymeradwyo gwariant y gellir ei ysgwyddo **y tu allan i'r UE** ar yr amod ei fod yn ymwneud â'r amcanion thematig o dan Erthygl 3(1)(a) o'r Rheoliad ESF (hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd a chefnogi symudedd llafur) neu Erthygl 3(1)(c) (buddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer sgiliau a dysgu gydol oes).

Mae hyn yn bosibl lle mae Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru yn cytuno y bydd y gweithgaredd yn dwyn manteision i ranbarth y rhaglen er ei fod yn digwydd y tu allan i'r UE. Byddwn yn canlyn arni â'r trefniadau ar gyfer ceisio cytundeb y Pwyllgor.

Fel gyda gweithgareddau y tu allan i Gymru, mae'r hyblygrwydd hwn yn ddibynnol ar sefydlu trefniadau addas ar gyfer rheoli ac archwilio a chyfiawnhad dros angenrheidrwydd y cynnig a'i werth am arian.

25. Cymhwystra Daearyddol Cyfranogwyr ESF

Mae'n rhaid bod unigolion yn byw neu'n gweithio yn rhanbarth y rhaglen ESF sy'n darparu'r cyllid ar gyfer y prosiect, ni waeth ble mae'r gweithgaredd ESF yn digwydd. Hefyd, mae unigolion sy'n astudio'n llawn-amser mewn sefydliadau addysgol sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth y rhaglen yn gymwys hyd yn oed os ydynt yn byw mewn rhanbarth cyfagos ac yn teithio'n rheolaidd i/ o'u man astudio.

Er mwyn eglurder, nid yw unigolion nad ydynt yn byw, yn gweithio nac yn astudio yn y rhanbarth rhaglennu yn gymwys ar gyfer cymorth hyd yn oed os yw'r gweithgaredd yn cael ei gynnal yn ardal y rhaglen gyllid.

Y tu hwnt i'r rheolau cyffredinol hyn, gall pob prosiect bennu rheolau culach o ran pwy sy'n gymwys ar gyfer cymorth. Bydd hyn yn amlwg o'r cynllun busnes/ cynnig prosiect a gymeradwywyd gennym ni neu'r cytundeb cyllid grant.

25.1 Rheolau Manwl

Gallwn gefnogi:

[43] Unigolion sy'n **byw** ar hyn o bryd yn ardal y rhaglen (eu cyfeiriad cartref). Lle mae unigolion yn byw fel arfer yn ardal y rhaglen ond yn byw dros dro mewn rhanbarth arall, gallwn ystyried cymorth fesul achos unigol os oes disgwyliad rhesymol y bydd yr unigolyn yn dychwelyd i'r rhanbarth ar ddiwedd y gweithgaredd dros dro (e.e. cwrs mewn prifysgol neu goleg, swydd dros dro, contract byrdymor, secondiad, troseddwyr yn y carchar) a lle gellir dynodi'n glir a dangos tystiolaeth bod 'cyfeiriad cartref' yng Nghymru gan yr unigolyn (bod disgwyl i gyfranogwyr ddychwelyd i'w cartref teuluol/ cartref eu hunain) fel y sail i benderfynu pa un o ranbarthau'r rhaglenni ESF all gyllido'r cymorth.

[44] Unigolion sy'n **gweithio** ar hyn o bryd yn ardal y rhaglen, hyd yn oed os ydynt yn byw mewn rhanbarth cyfagos.

[45] Unigolion sy'n **astudio** ar hyn o bryd mewn sefydliadau addysgol yn ardal y rhaglen, hyd yn oed os ydynt yn byw mewn rhanbarth cyfagos.

[46] Caiff cymhwystra ei bennu ar **adeg mynediad** – pan fo'r unigolyn yn mynychu pob gweithgaredd ESF unigol/ yn cael cymorth am y tro cyntaf. Os oes cyfres/ rhaglen o gymorth wedi cael ei chymeradwyo ar gyfer cyfranogwr cymwys a honno'n cynnwys nifer o ymyriadau cydberthynol, gall cymhwystra barhau tan ddiwedd y cynllun cymorth cytunedig hyd yn oed os bydd yr unigolyn yn newid cyfeiriad neu'n newid ei statws cyflogaeth/ astudio. Lle mae unigolyn yn dechrau ymyriad/ gweithgaredd newydd, ar wahân o fewn yr un gweithrediad WEFO, mae'n rhaid asesu cymhwystra eto ar adeg mynediad i'r gweithgaredd newydd.

[47] Os yw eich prosiect yn darparu cymorth ar gyfer cyflogwyr (h.y. cyfranogwyr ESF sy'n cyflogi) mae'n rhaid bod y cyflogwyr hyn wedi'u lleoli yn yr ardal raglennu.

Mae 'yn gweithio' yn golygu gwaith cyflogedig a hunangyflogedig.

Mae 'gweithle/ cyfeiriad gwaith' yn golygu ble y mae'r unigolyn yn gwneud ei waith am dâl fel arfer – nid y pencadlys gweinyddol, rhanbarthol neu gorfforaethol (os yw'n wahanol). Felly bydd cyfeiriadau gwaith gweithwyr cartref yr un fath â'u 'cyfeiriad cartref'.

Caiff 'man astudio' ei bennu gan gyfeiriad y sefydliad addysgol lle mae'r unigolyn yn mynychu sesiynau am y mwyafrif o'r wythnos sydd wedi'i hamserlennu yn ystod y tymor. Er enghraifft, mae myfyrwyr ym Mhrifysgol De Cymru sydd fel arfer yn astudio ar gampws Caerdydd yn astudio yn rhanbarth Dwyrain Cymru er bod gan y sefydliad leoliadau eraill yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd

Mae 'cyfeiriad cartref' yn golygu ble y mae'r unigolyn yn byw fel arfer dros nos am y mwyafrif o bob wythnos, a hwnnw'n cael ei asesu ar adeg mynediad i'r gweithgaredd ESF.

Unigolion a allai o bosibl fod yn gymwys ar gyfer cymorth gan Raglenni Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd

Mae'n bosibl y bydd rhai unigolion yn bodloni mwy nag un o'r meini prawf cymhwystra daearyddol, er enghraifft lle mae cyfranogwr yn byw ac yn gweithio yn rhanbarth y rhaglen. Yn yr un modd, lle mae cynllun cymorth ESF cenedlaethol 'Cymru gyfan' yn bodoli, gallai unigolyn fod yn gymwys ar gyfer cymorth gan y ddau ranbarth (Dwyrain Cymru neu Orllewin Cymru a'r Cymoedd).

I nodi'n eglur pa feini prawf cymhwystra sy'n cael eu cymhwyso (ac y mae angen tystiolaeth eu bod wedi'u bodloni) ac i bennu pa ranbarth ddylai ddarparu'r cymorth (sy'n arbennig o bwysig pan fo gwahanol gyfraddau ymyrraeth ar gyfer grantiau'n berthnasol), mae angen sefydlu trefn flaenoriaeth.

Mae'r rheolau a ganlyn yn berthnasol wrth benderfynu ar y rhaglen a all ddarparu'r cymorth ariannol a rhaid eu dilyn gan amlaf. Fodd bynnag, os caiff prosiectau gymorth ariannol drwy gyfrwng rhaglenni Blaenoriaeth 3, Amcan Penodol 2 Cronfa Gymdeithasol Ewrop bydd modd i raglenni gael eu heithrio o dan rai amodau penodol. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu isod, o dan y pennawd 'Blaenoriaeth 3, Amcan Penodol 2: Lleihau nifer y bobl ifanc 11-24 sy nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET):

	Cyfranogwyr sy'n gweithio *(cyflogedig/ hunangyflogedig)*	**Cyfranogwyr heb waith** *(di-waith/ economaidd anweithgar/ mewn hyfforddiant neu addysg)*
Rheol gyntaf	Cyfeiriad gwaith	Cyfeiriad cartref
Ail reol (dylid ei defnyddio dim ond os nad yw'r unigolyn yn bodloni'r rheol gyntaf)	Cyfeiriad cartref	Lleoliad hyfforddi/ astudio
Trydedd reol (dylid ei defnyddio dim ond os nad yw'r unigolyn yn bodloni'r rheol gyntaf	Cyfeiriad hyfforddi/ astudio (ond gweler paragraff 32 ar gyfer cyfyngiadau ar y rheol hon).	Amherthnasol. Nid yw'r unigolyn yn gymwys ar gyfer cymorth os nad yw'n byw nac yn hyfforddi/ astudio yn rhanbarth(au) y rhaglenni ESF.

na'r ail)		
Pedwaredd reol	Amherthnasol. Nid yw unigolion mewn gwaith yn gymwys ar gyfer cymorth os nad ydynt yn gweithio, yn byw neu'n hyfforddi/ astudio yn rhanbarth(au) y rhaglenni ESF.	Amherthnasol

Blaenoriaeth 3, Amcan Penodol 2: Lleihau nifer y bobl ifanc 11-24 nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET):

Penderfynir pa un o'r rhanbarthau sy'n gyfrifol am roi'r cymorth drwy ddefnyddio'r meini prawf ar gyfer cymhwyso dulliau'r Awdurdodau Lleol o nodi anawsterau'n gynnar, ystyried lle y mae'r cyfranogwr yn astudio a ffynhonnell yr arian cyfatebol. Dyma achos at ddibenion enghreifftiol yn unig:

- Mae'r cyfranogwr yn byw yn Sir Gaerfyrddin (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd), yn ddisgybl ysgol/myfyriwr addysg bellach / uwch ym Mhowys (Dwyrain Cymru).
- Mae prosiect 'Cymru gyfan' ESF yn cymhwyso dulliau nodi anawsterau cynnar a phecynnau arian cyfatebol gwahanol, gan ddibynnu ar yr awdurdod lleol / ardal rhaglen yr UE.
- Cyfranogwr sy'n dymuno cofrestru am y cwrs a gefnogwyd gan ESF 'Cymru Gyfan'. Defnyddir trefn flaenoriaeth ar gyfer penderfynu pa ranbarth dylid darparu'r cymorth h.y. bydd cyfeiriad cartref yn dynodi mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yw'r rhaglen berthnasol.
- Nid yw'r gweithgaredd sy'n cael cymorth drwy gwrs ESF 'Cymru gyfan' Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cynnwys yr holl elfennau / ceinciau a gaiff eu gweinyddu drwy gyfrwng y prosiect yn Nwyrain Cymru a hwn yw'r mwyaf addas i'r cyfranogwr.
- Mae rhaglen / prosiect yn Nwyrain Cymru a'r awdurdod lleol sy'n defnyddio'i becyn nodi anawsterau'n gynnar yn fodlon cynorthwyo'r cyfranogwr gan mai yn Nwyrain Cymru y mae'r unigolyn yn astudio fel arfer / bob dydd. Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn darparu'r arian cyfatebol angenrheidiol i'r unigolyn.

Cyfranogwyr anghymwys sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau / gweithrediadau a ariennir gan ESF

Os yw unigolion anghymwys yn mynychu, arsylwi neu'n cymryd rhan mewn gweithgaredd / gweithrediad a ariennir gan ESF, rhaid sicrhau:

- na chaiff costau neu amser ychwanegol yn ymwneud â'r cyfranogwyr anghymwys eu hawlio fel gwariant cymwys, e.e. lle mae cyfranogwyr ESF cymwys yn ffurfio mwyafrif y rhai sy'n mynychu'r cwrs trwy ddarpariaeth arddull ystafell ddosbarth,

gellir talu costau sefydlog y ddarpariaeth yn llawn i'r gweithreidiad ESF, ond mae unrhyw gostau ychwanegol yn ymwneud â lleiafrif y cyfranogwyr anghymwys (ee un- i-un) o unrhyw hawliad;

- nad yw ansawdd y cymorth a roddir i'r cyfranogwyr cymwys yn dioddef;
- bod y ffioedd y bydd y cyfranogwyr anghymwys yn eu talu i gymryd rhan yn y gweithgaredd / gweithrediad a ariennir gan ESF yn cael eu cofnodi fel swm a dderbyniwyd gan y prosiect a'i osod yn erbyn costau cymwys (bydd hyn yn lleihau'r grant ESF). Bydd angen darparu tystiolaeth i ddangos y canlynol (a) y tâl/taliadau safonol arferol sydd ynghlwm wrth y cwrs / digwyddiad a (b) manylion y symiau a dderbynnir gan unigolion anghymwys, ac
- wrth baratoi gwybodaeth i WEFO, rhaid peidio â chofnodi nifer yr unigolion anghymwys, na'u canlyniadau, fel allbwn, neu ganlyniad. Rhaid hefyd ddiystyru unigolion anghymwys wrth werthuso gweithgareddau.

Os rhagwelir bod posibilrwydd i weithgaredd / gweithrediad a ariennir gan ESF gynnwys unigolion anghymwys, fe'ch cynghorir i gymryd y camau a ganlyn – bydd hyn yn eich helpu i asesu ansawdd y cwrs / digwyddiad.

- cysylltu â WEFO i gytuno ar y trefniadau ymlaen llaw;
- cyfyngu ar nifer / canran yr unigolion anghymwys sy'n cymryd rhan ar bob cwrs / digwyddiad – sicrhau bod y mwyafrif yn gyfranogwyr cymwys;
- ystyried gofyn i gyfranogwyr cymwys lenwi ffurflenni adborth neu holiaduron i ddweud a oeddent yn teimlo bod eu profiad dysgu wedi dioddef oherwydd presenoldeb unigolion anghymwys.

<u>Cyfranogwyr digartref</u>

Lle mae amgylchiadau personol unigol yn golygu nad oes ganddo, neu nad yw'n gallu dangos tystiolaeth o, gyfeiriad cartref (gweler yr enghreifftiau isod) yna cydnabyddir y gall fod yn anodd darparu dogfennau i ddangos ble y mae'r unigolyn yn byw ac y gallai'r cyfeiriad newid yn aml.

Mewn achosion o'r fath, bydd cymhwystra'n seiliedig ar ranbarth y rhaglen lle mae'r cyfranogwr yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn ystod wythnos nodweddiadol – mae'n rhaid i hyn fod naill ai yn Nwyrain Cymru neu yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd i gael cymorth ESF gan raglenni ESF yng Nghymru.

Gellir ystyried bod cadarnhad ysgrifenedig gan swyddog mewn awdurdod lleol neu weithiwr achosion perthnasol (corff anllywodraethol, mudiad gwirfoddol, elusen, mudiad yn y trydydd sector/ mudiad dielw sy'n darparu cymorth ac arweiniad etc) neu gynrychiolydd cyfrifol arall o'r gymdeithas leol yn dystiolaeth addas ond rhaid ei fod wastad yn annibynnol ar dîm rheoli a thîm cyflawni'r prosiect ESF.

Fel dewis yn lle cadarnhad ysgrifenedig gan y swyddog neu'r gweithiwr achosion, mae mynediad at nodiadau achos gwreiddiol a chofnodion ategol yn dderbyniol hefyd. Mae'n rhaid i'r Buddiolwr/ partner cyflawni gael llungopïau o'r cofnodion hyn a

dylent gael eu golygu'n addas i dynnu unrhyw ddata personol sensitif allan. Fel arall, lle mae llungopïau'n amhriodol neu lle nad ydynt yn cael eu caniatáu, gellir derbyn cytundeb ysgrifenedig gan y swyddog neu'r gweithiwr achosion os yw'n cadarnhau y gall swyddogion WEFO/ y CE gael mynediad at y nodiadau achos a'r cofnodion gwreiddiol ar gais.

Mae'r rheolau arbennig hyn wedi'u bwriadu ar gyfer cyfranogwyr digartref yn unig, er enghraifft pan fo'r cyfranogwr:

- yn aros dros dro gyda ffrindiau neu deulu
- yn aros mewn hostel, llety gwely a brecwast neu lety argyfwng arall
- yn byw yn rhywle lle nad oes hawl gyfreithiol ganddo i fyw (e.e. sgwat)
- yn cysgu yn yr awyr agored a/neu mewn ardaloedd eraill nad ydynt wedi'u dynodi'n annedd breswyl.

26. Amser cyfranogwyr ESF (cyfaniadau o fath arall gan gyflogwyr)

<u>Cyflog cyfranogwr yn cael ei ddatgan fel cyfraniad cyllid cyfatebol o fath arall gan ei gyflogwr</u>

Gall y costau cyflogaeth cymwys a dalwyd gan y cyflogwr er budd cyfranogwr, ac a ardystiwyd yn briodol wrth y prosiect gan y cyflogwr, gael eu trin fel costau cyfranogwyr cymwys er nad ydynt wedi cael eu talu gennych chi. Caiff y rhain eu trin fel cyfraniadau o fath arall.

Caiff gwerth y cyfraniad hwn ei bennu gan ddefnyddio'r un rheolau ag ar gyfer costau staff cymwys (gweler uchod), e.e. cyflog, cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr etc

Fel arall – ond nid yn ychwanegol at hynny – lle mae angen i gyflogwr dalu am staff cyflenwi i ddirprwyo yn ystod absenoldeb cyfranogwr ESF, gall y costau ychwanegol hynny a ysgwyddwyd ac a dalwyd gan y cyflogwr am y staff cyflenwi gael eu trin fel cost cyfranogwr ESF cymwys os yw'r symiau a dalwyd yr un fath â chyfradd y farchnad ar gyfer y tasgau a gyflawnir fel arfer gan y cyfranogwr ESF.

Mae'n rhaid bod trywydd archwilio i gefnogi'r symiau sy'n cael eu hawlio.

Felly bydd angen i brosiectau gadw tystiolaeth o'r canlynol er mwyn i'r gwariant, a'r cyllid cyfatebol o fath arall, fod yn gymwys:

1) Tystiolaeth i gadarnhau gwerth y cyflog neu'r lwfansau sy'n ddyledus i'r cyfranogwr ESF am gyfnod y gweithgaredd prosiect ESF. Cofnodion sy'n gysylltiedig â'r gyflogres gan y cyflogwr fydd y rhain fel rheol, ond lle mae'r cyflog gros/ lwfansau yn unig yn cael eu datgan fel y cyfraniad cymwys – ac nid y cyfraniadau Yswiriant Gwladol na'r cyfraniadau i gynllun pensiwn – dylid ystyried bod slip cyflog a chontract cyflogaeth y cyflogai'n dystiolaeth addas hefyd.

2) Tystiolaeth o'r amser a dreuliwyd mewn gwirionedd yn gweithio ar y gweithgaredd a gyllidir gan y rhaglen ESF (taflenni amser, taflenni presenoldeb etc).
3) Datganiad gan y cyflogwr i gadarnhau ei fod yn darparu cyfraniad o fath arall ar gyfer eich prosiect. Mae'n rhaid i'r datganiad gynnwys enw'r cyflogai; enw'r prosiect ESF; y cyfnod o amser; gwerth y cyfraniad (costau cymwys fesul awr); a chael ei awdurdodi/ ei lofnodi a'i arnodi â'r dyddiad gan y cyflogwr. Lle mae'r cyflogai'n mynychu nifer o weithgareddau neu ddigwyddiadau, gall y cyflogwr ddarparu un datganiad ond mae taflenni amser/ taflenni presenoldeb yn dal yn ofynnol am bob awr o bresenoldeb gwirioneddol.

Lle na cheir y dystiolaeth o gyflog neu lwfans cyn bod y symiau'n cael eu datgan wrthym ni, gellir derbyn y datganiad gan y cyflogwr os yw'n datgan y symiau cymwys ac yn darparu cytundeb ysgrifenedig y bydd gan archwiliadau, gwiriadau ac ymchwiliadau yn y dyfodol ganiatâd i archwilio cofnodion gwreiddiol y gyflogres er mwyn dilysu'r symiau a ddyfynnir yn y datganiad.

Gweler **TEMPLED 2** am enghraifft o ddatganiad cyflogwr.

Mae'n rhaid i gyflogwyr gytuno i ddarparu mynediad at y cofnodion gwreiddiol ar gyfer archwiliadau, gwiriadau ac ymchwiliadau. Cofiwch fod yn rhaid gallu adfer ac archwilio'r holl gofnodion o fewn cyn lleied â 12 niwrnod gwaith.

Lle defnyddir y dull hwn, mae'n rhaid i'r Buddiolwr/ partner cyflawni sefydlu system o **hapwiriadau rheolaidd** o ddatganiadau cyflogwyr, gan ofyn am gael gweld cofnodion cyflogres cyflogwyr ar gyfer sampl o gyfranogwyr i ddarparu sicrwydd bod cyflogwyr yn dal i fod yn barod i gydymffurfio ac yn dal i allu cydymffurfio â'r gofynion archwilio a nodir yn eu datganiad.

Fel arall gallai'r Buddiolwr/partner cyflawni archwilio cofnodion y gyflogres a chadw llungopïau ardystiedig ar yr un pryd ag y datgenir y cyfraniad/ cyllid cyfatebol a chadw copïau gyda chofnodion eraill y prosiect.

Wrth benderfynu ar y dull gorau, dylai'r buddiolwr ystyried risgiau gweithredol yr angen i gael mynediad at gofnodion cyflogres cyflogwyr yn y dyfodol, er enghraifft, pan fo sefydliad yn rhoi'r gorau i fasnachu; rheolwyr newydd o bosibl yn amharod i ddarparu mynediad at gofnodion; sefydliad yn uno â sefydliad arall etc

Os yw cyflogwr yn methu darparu, neu'n amharod i ddarparu mynediad at gofnodion y gyflogres, a lle nad yw slip cyflog diweddaraf a chontract cyflogaeth yn darparu prawf digonol o werth y cyfraniad – er enghraifft lle mae cyfraniadau yswiriant gwladol neu gyfraniadau pensiwn y cyflogwr yn cael eu datgan – mae'n rhaid i'r symiau beidio â chael eu datgan wrthym ni fel gwariant cymwys na chyllid cyfatebol.

Costau teithio a chynhaliaeth ar gyfer cyfranogwyr ESF

Weithiau bydd cyfranogwyr o bosibl yn ysgwyddo costau teithio i deithio i'r lleoliad lle mae'r cymorth ESF yn cael ei ddarparu.

Os yw'r cyfranogwr yn gyflogedig a bod y cyflogwr yn ad-dalu ei gostau teithio, gall y cyflogwr ddatgan y taliadau hyn fel cyfraniadau o fath arall yn yr un ffordd â 'chostau staff'.

Os yw'r cyfranogwr yn gyflogedig ond bod y cyflogwr yn peidio ag ad-dalu ei gostau teithio: gall costau'r cyfranogwr fod yn gost prosiect gymwys yn unol â'r rheolau ynglŷn â chostau teithio staff y prosiect. Mae'n rhaid dilyn polisïau a chyfraddau teithio arferol cyflogwr y cyfranogwr, nid rhai'r buddiolwr ESF, ac mae'n rhaid i chi gael, a chadw'r manylion hyn ar gyfer gwiriadau ac archwiliadau. Caiff y costau hyn eu dosbarthu yn yr un ffordd â chostau teithio a chynhaliaeth staff y prosiect. Maent yn gostau prosiect gwirioneddol – taliadau gan y buddiolwr/ darparwr yn uniongyrchol i'r cyfranogwr – ac **nid cyfraniad o fath arall** gan gyflogwr y cyfranogwr.

Os yw'r cyfranogwr yn ddi-waith ar adeg y daith, yn hunangyflogedig, neu os nad oes gan ei gyflogwr bolisi teithio neu gyfradd safonol, mae'n rhaid mabwysiadu'r rheolau canlynol:

- Y dull teithio mwyaf darbodus a'r llwybr mwyaf uniongyrchol: fel arfer cludiant cyhoeddus fydd hyn ond mae cerbydau hurio a thacsis yn gymwys hefyd os ydynt yn rhatach neu os nad oes cludiant cyhoeddus ar gael, os yw'n anymarferol, neu os ystyrir ei fod yn anniogel.
- Trenau a hediadau – dosbarth safonol yn unig ('economi' neu ddosbarth cyfatebol)
- Cyfraddau ad-dalu milltiredd o 45 ceiniog y filltir (50 ceiniog os yw'r gyrrwr yn cario teithwyr a bod hyn yn disodli hawliad ar wahân gan y teithiwr h.y. cyfranogwr ESF arall neu aelod arall o staff prosiect yr UE).

Lle bydd buddiolwr yn ad-dalu cyfranogwr am gostau teithio i'r ymyriad â chefnogaeth ESF - ystyrir hyn yn gost gymwys lle mae wedi'i gynnwys yn y cynllun busnes / proffil cyflwyno cymeradwy. Efallai y bydd nifer o fuddiolwyr ar y cyd yn ymwneud â chyflawni'r gweithrediadau - yna bydd angen dilyn pob polisi T & S ar gyfer pob buddiolwr / sefydliad ar y cyd i sefydlu'r weithdrefn y dylid ei dilyn i alluogi / dangos talu costau teithio cyfranogwyr.

Ar gyfer tocynnau teithio, bydd angen i'r buddiolwr ofyn am a chadw tystiolaeth o'r daith a wneir, er enghraifft tocynnau teithio, anfonebau neu dderbynebau prynu i gadarnhau'r symiau. Bydd WEFO yn disgwyl gweld tystiolaeth am dynnu i ddangos bod y buddiolwr / darparwr - wedi talu'r costau i'r cyfranogwr, gan gynnwys derbynebau arian parod os telir mewn arian parod. Bydd y polisïau uchod yn allweddol - fodd bynnag, byddai WEFO yn disgwyl gweld ffurflen hawlio gan y

cyfranogwr i'r buddiolwr arweiniol / ar y cyd, ynghyd â'r tocyn teithio priodol (er enghraifft, tocyn bws) - a fydd yn dangos, dyddiad / amser teithio ac o bosibl cyrchfan. Gellir cynnal tystiolaeth ar ffurf electronig. Yn ystod yr archwiliad / dilysiadau, bydd y dull talu a fabwysiadwyd gan y prif fuddiolwr / cyd-fuddiolwr yn penderfynu a ddylid archwilio naill ai cofnodion cyfrifyddu sy'n dangos eu bod yn dangos eu talu i gyfranogwr neu (os yw taliad arian parod wedi'i wneud i gyfranogwr gan fuddiolwr arweiniol / ar y cyd) derbynneb wedi'i lofnodi gan y cyfranogwr hwnnw ar ôl derbyn ad-daliad o gost teithio.

Lle mae angen aros dros nos, gall llety dros nos a chynhaliaeth fod yn gymwys hefyd ar yr un sail â rheolau teithio a chynhaliaeth ar gyfer staff y prosiect.

27. Costau Gofal i Alluogi Unigolion i Gyfranogi mewn Gweithgareddau ESF

Weithiau, efallai y bydd angen i gyfranogwyr dalu i ddarparwr gofal/ crèche/ gwarchodwr plant ofalu am eu dibynyddion er mwyn iddynt allu mynychu gweithgaredd ESF.

Mae'r costau hyn yn gymwys os cânt eu talu i ddarparwr/ cwmni gofal sydd wedi'i gofrestru â chorff addas ac os cânt eu hategu gan anfonebau a phrawf o daliad. Gall hyn gynnwys taliadau i berthnasau os ydynt yn gymwysedig ac yn gofrestredig ond mae'n rhaid i'r symiau fod yr un fath â chyfraddau safonol y farchnad neu mae'n rhaid bod tystiolaeth i ddangos bod gan y gofalwr hanes o ddarparu gofal ar gyfer eraill (ond nid ar gyfer perthnasau) yn ôl yr un gyfradd.

28. Cymhwystra Cyfranogwyr

28.1 Meini Prawf Cyffredinol

Mae'n rhaid bod gan gyfranogwyr **hawl gyfreithiol i fyw** yn y Deyrnas Unedig yn ystod cyfnod y cymorth ESF. Os yw cyfranogwr yn gweithio yn y DU ar hyn o bryd neu os rhoddir cymorth ESF i'w helpu i gael gwaith, mae'n rhaid i'r unigolyn fod â'r **hawl gyfreithiol i weithio** yn un o Aelod-wladwriaethau'r UE hefyd, a chydymffurfio â'r rheolau perthnasol ynglŷn â chofrestru, hawlenni neu deithebau yn yr UE. Os yw hawlen /teitheb yn nodi 'nad oes hawl cael nawdd o gronfeydd cyhoeddus', bydd yr unigolyn yn dal yn gymwys i dderbyn cymorth ESF os yw bob un o'r meini prawf eraill wedi'u bodloni h.y. hawl gyfreithiol i fyw a/neu hawl gyfreithiol i weithio. Polisi Mewnfudo'r DU sy'n penderfynu ar yr hyn yw 'cronfeydd cyhoeddus' ac **nid** yw'n cynnwys Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.

Ym mhob achos, caiff cymhwystra cyfranogwr ei bennu gan amgylchiadau'r cyfranogwr ar y diwrnod y mae'n dechrau'r prif weithgaredd gyntaf – er enghraifft, y diwrnod dysgu, tiwtora neu gynghori cyntaf.

Mae'n rhaid i'r buddiolwr/ darparwr wirio cydymffurfiaeth â'r rheolau hyn cyn bod y cymorth ESF yn dechrau ac mae'n rhaid cadw prawf dogfennol gyda chofnodion y prosiect. Gweler ganllawiau ychwanegol WEFO, sef 'Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020: Canllawiau ar asesu cymhwystra cyfranogwyr'.

28.2 Meini Prawf Prosiect-benodol

Mae amodau mynediad prosiect-benodol a sefydlwyd gan y buddiolwr lawn cyn bwysiced â'r rheolau cymhwystra cyffredinol uchod a sefydlwyd gan WEFO a'r CE.

Er enghraifft, pan fo prosiect ESF wedi'i gymeradwyo i ddarparu cymorth ar gyfer pobl ddi-waith yn unig, mae'n golygu bod hwn yn un o'r amodau ar gyfer mynediad y mae'n rhaid eu gwirio cyn y darperir cymorth. Mewn achosion o'r fath, ni fyddai cymorth i unigolion cyflogedig yn weithgaredd a fyddai wedi'i gymeradwyo gennym ac felly byddai'n wariant anghymwys.

Am y rheswm hwn, bydd angen i archwiliadau a gwiriadau weld **tystiolaeth o gydymffurfio** ag amodau o'r fath yn ogystal â'r rheolau cymhwystra cyffredinol/ daearyddol a ddisgrifir uchod.

Fel gyda rheolau ac amodau eraill ar gyfer cyllid, mae'n rhaid cadw dogfennau ategol i ddangos bod y meini prawf wedi cael eu hasesu ac mae'n rhaid cadw'r dystiolaeth hon wedyn i gael ei harchwilio yn y dyfodol yn ystod archwiliadau a gwiriadau.

Er mwyn cyrraedd y safonau gofynnol o ran trywydd archwilio a ddisgwylir gan brosiectau a gyllidir gan yr UE, nid yw hunanddatganiadau gan ddarpar gyfranogwyr ESF yn addas ar gyfer dangos bod amodau mynediad wedi'u bodloni.

Caiff amodau mynediad prosiect-benodol eu pennu gan y cynnig am brosiect/ cynllun busnes a gymeradwywyd gennym ni neu eu cytuno yn ysgrifenedig gyda ni yn ddiweddarach. Gallai hyn fod:

- yn fath penodedig o weithgaredd
- yn grŵp targed penodedig o bobl
- yn ardal benodedig
- yn gyfuniadau o'r uchod.

Er enghraifft, os yw cynllun busnes wedi'i gymeradwyo ar sail cefnogi grŵp targed arbennig o unigolion, yna daw'r grŵp targed yn rheol cymhwystra (amod ar gyfer mynediad).

Bydd y proffil o unigolion a fydd yn cael eu cymorth yn amrywio o un prosiect i'r llall a gall ddeillio o'r canlynol:

- Rheoliadau'r UE sy'n disgrifio amcanion thematig a blaenoriaethau buddsoddi'r rhaglenni ESF a chamau gweithredu neu weithgareddau sydd wedi'u heithrio'n benodol;
- Rheolau a diffiniadau ar gyfer Cymorth Gwladwriaethol, yn rhai cyffredinol neu'n rhai ar gyfer cynlluniau cymorth penodol, sy'n sefydlu rheolau ynglŷn â phwy all gael cymorth.
- Rhaglenni Gweithredol ESF yng Nghymru sy'n disgrifio'r blaenoriaethau, yr amcanion penodol a gweithgareddau dangosol ar gyfer ESF yng Nghymru.
- Cynllun busnes a negodwyd ac a gytunwyd rhwng y buddiolwr a WEFO.
- Targedau/ dangosyddion allbwn a bennwyd gan WEFO.
- Llythyr cytundeb cyllid a anfonwyd gan WEFO.

Os oes cymorth ar gael i'r holl dderbynyddion posibl – e.e. prosiect ESF lle gallai'r cyfranogwyr fod yn gyflogedig, yn hunangyflogedig neu'n ddi-waith – yna gellir gofyn am wybodaeth am statws cyflogaeth/ math o gyflogaeth ond nid yw'n **un o'r amodau cymhwystra** y mae angen tystiolaeth eu bod wedi'u bodloni ar adeg mynediad os nad yw'r statws cyflogaeth yn effeithio ar y cymorth a gynigir. Yn yr enghraifft hon, os yw'r cymorth yn fwy hael i rai grwpiau, e.e. pobl hunangyflogedig, yna mae tystiolaeth o statws cyflogaeth yn ofynnol.

28.3 Asesiad o Gymhwystra a Thrywydd Archwilio

Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020: Canllawiau ar Asesu Cymhwysedd Cyfranogwyr yn darparu rhestr o amodau mynediad cyffredin ar gyfer ESF ynghyd ag enghreifftiau o ddogfennau addas.

Gan y gallai pob prosiect amcanu at helpu grŵp proffil gwahanol o bobl, nid yw'n bosibl darparu rhestr gynhwysfawr yn y ddogfen hon ond, os ydynt yn ansicr, gall buddiolwyr geisio cyngor gennym ni (trwy'r Swyddog Datblygu Prosiectau) ynghylch dogfennau posibl a fyddai'n addas i ddangos tystiolaeth o fodloni'r amodau mynediad.

Cofiwch fod gwiriadau o ddogfennau ategol yn ofynnol dim ond lle mae'r amodau mynediad yn bodoli. Felly, er enghraifft, nid oes angen profi oedran lle nad yw prosiect ESF yn cynnwys amodau mynediad sy'n gysylltiedig ag oedran.

<u>Cwestiynau cyffredin</u>

C: Os caiff cymhwystra cyfranogwr ei ddilysu gan atgyfeiriad, neu ohebiaeth debyg gan yr Adran Gwaith a Phensiynau/ Canolfan Byd Gwaith neu Gyrfa Cymru, a oes angen i'r buddiolwr/ darparwr wirio sut yr oedd y sefydliad hwnnw'n gallu darparu gwybodaeth o'r fath?

A: Nac oes. Gellir derbyn yr atgyfeiriad/ y ddogfen ar sail ewyllys da ar ei (g)olwg yn niffyg unrhyw wybodaeth i'r gwrthwyneb (ac nid yw atgyfeiriadau o'r fath yn cael eu hystyried yn 'hunanddatganiadau').

C: Beth os yw'r meini prawf prosiect-benodol yn amod negyddol sy'n ymwneud â 'diffyg' e.e. yn gymwys os nad oes gan yr unigolyn rai cymwysterau addysg bellach/ uwch neu alwedigaethol neu lefel/ nifer y cymwysterau o'r fath?

Er ein bod yn disgwyl i statws diweithdra gael ei wirio (gweler Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020: Canllawiau ar Aesu Cymhwysedd Cyfranogwyr), yn amlwg nid yw'n bosibl 'profi rhywbeth negyddol' megis diffyg cymwysterau lefel uwch ac felly gall y cyfranogwr hunanddatgan ei gymhwystra yn y senario hwn.
Sylwer fodd bynnag yr ystyrir bod gofyn am ganlyniadau cymwysterau TGAU, neu arholiadau cyfatebol, yn rhesymol lle ceir maen prawf cymhwystra prosiect-benodol.

C: A oes unrhyw eithriadau? Nid yw'r cyfranogwr yn gallu darparu unrhyw un o'r dogfennau a nodir yn RHAN 4 – TYSTIOLAETH A FFEFRIR I GADARNHAU BOD CYFRANOGWR YN GYMWYS I GAEL CYMORTH GAN GRONFA GYMDEITHASOL EWROP o'r Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020: Canllawiau ar Aesu Cymhwysedd Cyfranogwyr **– a ydym yn gwrthod darparu cymorth ESF ar ei gyfer?**

Mae'n anorfod y bydd rhai achosion eithriadol lle mae cyfranogwr, am resymau da, yn methu â dangos unrhyw ddogfennau a nodir yn **RHAN 4 o'r** Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020: Canllawiau ar Asesu Cymhwysedd Cyfranogwyr.

Cofiwch fod y Rhestr Ffefrir yn rhestr anghynhwysfawr o ddogfennau y dylai'r mwyafrif o gyfranogwyr allu eu darparu. Darperir y rhestr fel cymorth i fuddiolwyr a darparwyr gan ei bod yn rhoi cysur iddynt y bydd y dogfennau'n cael eu derbyn yn rhwydd gan staff gwiriadau ac archwiliadau.

Ond nid yw'n gynhwysfawr – gellir ystyried dewisiadau eraill fesul achos unigol ac rydym yn croesawu awgrymiadau ar gyfer ychwanegiadau at y rhestr.

Y gofyniad craidd yw bod yn rhaid i drywydd archwilio'r prosiect gynnwys cyfiawnhad addas o asesiad bod cyfranogwyr yn bodloni'r amodau mynediad ar gyfer derbyn grant ESF

<u>Felly mae dull WEFO fel a ganlyn:</u>

- Yn y mwyafrif o achosion, rydym yn disgwyl i'r buddiolwr/ cyflawnwr gael yr eitemau yn y Rhestr Ffefrir (e.e. fel arfer bydd gan oedolion rif yswiriant gwladol; dylai fod gan weithwyr slip cyflog; bydd gan y rhai sy'n rhentu neu'n berchen ar gartref fil cyfleustod).
- Os nad yw'r cyfranogwr yn gallu darparu'r rhain, mae angen i'r buddiolwr/ cyflawnwr archwilio pa ddulliau eraill sydd ar gael i'w argyhoeddi ei hun ei fod yn credu bod yr unigolyn yn bodloni'r amodau cymhwystra.
- Os nad yw'r buddiolwr/ cyflawnwr wedi'i argyhoeddi/ yn fodlon bod yr unigolyn yn bodloni'r meini prawf cymhwystra, mae'n rhaid iddo wrthod darparu cymorth.

- Os yw'r buddiolwr/ cyflawnwr yn cael sicrwydd digonol o ffynonellau annibynnol/ trydydd parti (gan gynnwys efallai wybodaeth y buddiolwr ei hun am yr unigolyn o weithgarwch nad yw'n gysylltiedig â'r rhaglenni ESF) yna gall ffurfio barn ar sail risg i dderbyn y cyfranogwr ond mae'n rhaid iddo ddogfennu'r asesiad a'r penderfyniad yn eglur. Mae'n rhaid i'r cofnodion egluro pam nad oedd y cyfranogwr yn gallu darparu unrhyw eitemau a nodir yn Rhestr Ffefrir a pham yr oedd y buddiolwr yn fodlon ar y dystiolaeth arall a ddarparwyd. Sylwer ei bod yn dal yn angenrheidiol i dystiolaeth arall/ dogfennaeth mewn perthynas ag eithriadau gael ei chadw i gael ei harchwilio mewn gwiriadau/ archwiliadau.

29. Bwrsariaethau, Ysgoloriaethau, Lwfansau, Taliadau a Chymorth Ariannol Uniongyrchol Tebyg gan y Rhaglenni ESF i Gyfranogwyr

Mae'n rhaid i uchafswm gwerth y cymorth a fydd yn cael ei gynnig i bob unigolyn, heb dystiolaeth o'r hyn y mae'r arian yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer mewn gwirionedd, gael ei gytuno ymlaen llaw gyda ni trwy ei gynnwys yn y cynllun busnes cymeradwy neu mewn dogfen gysylltiedig.

Mae'n rhaid darparu'r math hwn o gymorth dim ond 'ar sail anghenion' go iawn h.y. mae gweithgaredd y prosiect/ yr allbynnau neu'r canlyniadau a ddymunir yn annhebygol o ddigwydd yn niffyg taliadau o'r fath.

Mae'n rhaid i'r symiau a gynigir fod yn debyg i gynlluniau cymorth tebyg yng Nghymru neu'r DU megis cyllid dysgwyr, symiau a delir gan gynghorau ymchwil, neu gyfeiriad arall at gynlluniau cymorth ariannol cyhoeddus cenedlaethol neu ranbarthol.

Mae angen i amgylchiadau ariannol personol pob cyfranogwr ESF gael eu hasesu fesul achos unigol gan y buddiolwr neu'r darparwr cyn cynnig cymorth ariannol o'r fath. Yn benodol, mae'n rhaid gofyn i'r ymgeisydd am fanylion ei gynilon ac incwm er mwyn cadarnhau pa un a oes cyfiawnhad dros y cymorth ariannol.

Mae'n rhaid cael dogfennaeth addas i gefnogi gwerth cynilon ac incwm sydd wedi'u datgan gan yr ymgeisydd, e.e. cyfriflenni banc neu slipiau cyflog. Nid oes unrhyw ddogfennaeth yn ofynnol lle mae ymgeisydd yn datgan nad oes unrhyw gynilon ganddo a gellir derbyn hyn ar sail ewyllys da yn niffyg unrhyw wybodaeth i'r gwrthwyneb.

Fodd bynnag, mae'n rhaid cael cyfriflen banc ddiweddaraf yr ymgeisydd, sy'n cwmpasu o leiaf un mis llawn, bob amser er mwyn dilysu'r wybodaeth a ddarperir ynghylch incwm.

Nid yw amgylchiadau ariannol personol partner a theulu'r ymgeisydd yn berthnasol i'r asesiad o angen, nac asedau neu fuddsoddiadau hirdymor megis ecwitïau, pensiynau a pholisïau yswiriant bywyd ychwaith – dim ond buddsoddiadau 'arian parod' neu 'bron yn arian parod' megis cyfrifon cynilo sy'n hygyrch heb gosb ar fyr rybudd.

Mae'n rhaid i'r buddiolwr benderfynu ar y meini prawf a ddewisir ganddo ar gyfer gwneud penderfyniadau dyfarnu cyllid a dogfennu'r meini prawf hynny – gan gynnwys lefel y cynilon neu incwm a fydd yn arwain at beidio â dyfarnu cyllid – a sicrhau bod yr holl feini prawf yn deg, yn gyfiawn, yn peidio â gwahaniaethu ac yn cael eu cymhwyso'n gyson i'r holl ymgeiswyr. Gellir defnyddio graddfa symudol o gymorth i osgoi penderfyniadau cyllido 'popeth neu ddim byd' lle mae gan ymgeiswyr swm cymharol fach o gynilon neu incwm.

Nid ydym yn rhagnodi'r meini prawf cyllido y mae'n rhaid i fuddiolwyr eu defnyddio gan y bydd angen iddynt adlewyrchu amgylchiadau arbennig pob cynllun cymorth, yr allbynnau neu'r canlyniadau a ddymunir a'r grŵp targed a fydd yn cael cymorth.

Os oes angen canllawiau pellach, dylai buddiolwyr drafod eu meini prawf asesu a dethol arfaethedig ar gyfer penderfyniadau cyllido gyda ni.

Lle dyfernir cyllid i unigolion yn y ffordd yma, mae'n rhaid i dderbynnydd y grant gael telerau ac amodau ysgrifenedig sydd, o leiaf, yn ei hysbysu ynghylch y diben y rhoddwyd y cyllid ar ei gyfer a'r amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol ad-dalu'r cymorth, yn llawn neu'n rhannol, os na chaiff yr amodau eu bodloni e.e. os nad yw'r unigolyn yn cwblhau ei gwrs, os nad yw'n mynychu cyfarfodydd neu'n cyfranogi, os nad yw'n ennill y cymhwyster a.y.b. Gall yr amodau ei gwneud yn ofynnol ad-dalu'r arian yn rhannol yn unig os gwnaed peth cynnydd, ond nid cynnydd llawn, tuag at yr amcanion y cytunwyd arnynt.

Pan fo derbynyddion grantiau'n ad-dalu cymorth yn y ffordd yma, mae'n rhaid trin yr ad-daliadau hynny fel incwm prosiect/ refeniw prosiect (gweler Adran 32) – nid yw'r symiau wedi'u had-dalu'n cynrychioli gwariant afreolaidd ac mae cost wreiddiol darparu'r cymorth a ddatganwyd wrthym ni'n dal i fod yn gymwys.

Yn yr un modd, mae'n rhaid i fuddiolwyr gymryd yr holl fesurau rhesymol i adennill y cymorth gan unigolion lle nad yw amodau'n cael eu bodloni ond ni fydd y gweithrediad ei hun yn dioddef gostyngiad yng nghymorth yr UE ac ni fydd y gwariant cymwys a ddatganwyd wrthym ni'n cael ei ddileu cyn belled â bod y buddiolwr/ darparwr wedi dilyn ei weithdrefnau'n gywir.

30. Ystyriaethau eraill o ran Gwerth am Arian mewn Prosiectau ESF

Mae'n rhaid i gofnodion y prosiect/ ffeiliau cyfranogwyr gynnwys digon o dystiolaeth i ddangos bod y gweithgaredd ESF yn addas ar gyfer anghenion penodol y cyfranogwr ac amcanion y prosiect a'i fod felly'n ddefnydd effeithiol o gronfeydd yr UE. Yn arbennig:

- Mae'n rhaid i'r asesiad 'addasrwydd' gael ei gyflawni cyn i'r cymorth ddechrau ac mae'n rhaid iddo gael ei ddogfennu ar gyfer archwiliadau a gwiriadau yn y dyfodol.

- Dylid ystyried a yw'r cymorth arfaethedig yn dyblygu cymorth cyfredol neu flaenorol i'r unigolyn gan gynlluniau a gyllidir gan yr UE neu gynlluniau cenedlaethol. Mae'r cymorth ESF wedi'i fwriadu i ddarparu 'gwerth ychwanegol' ar gyfer y cyfranogwr. Er nad yw hyn yn atal unigolyn rhag derbyn cymorth tebyg, neu o bosibl ailadrodd yr un cymorth, mae'n hanfodol bod achosion o'r fath yn cael eu cyfiawnhau a'u dogfennu'n addas yng nghofnodion y cyfranogwr.

RHAN 6: AMODAU ERAILL AR GYFER CYLLID

31. Gweithgareddau Cymwys – Rheolau Cyffredinol

Yn ogystal â'r rheolau cronfa-benodol a nodir yn Rhan 4 (ERDF) a Rhan 5 (ESF), mae costau'n gymwys dim ond os ydynt yn gysylltiedig â gweithredu prosiect cymwys a gweithgareddau cymwys.

Mae prosiectau'n gymwys os ydynt yn amcanu at gyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion a gytunwyd rhyngom ni a'r CE yn y Rhaglenni cysylltiedig. Byddwn yn gwirio hyn cyn ein bod yn dyfarnu cyllid i chi yn seiliedig ar yr wybodaeth yn eich cais am gyllid. Mae'n un o amodau eich cyllid eich bod yn ein hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau i'r prosiect fel ein bod ni'n gallu gwirio'i fod yn dal yn gymwys ar gyfer cymorth.

Yn yr un modd, mae'n rhaid i'ch cynlluniau ar gyfer cyflawni amcanion y prosiect ('gweithgareddau', 'camau gweithredu') gael eu cymeradwyo gennym ni i sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae'r rheolau cyffredinol canlynol yn berthnasol:

RHEOLAU

[48] Gall yr holl BBaChau yn y sectorau bwyd-amaeth, môr a physgodfeydd gael budd o bosibl o gymorth ERDF neu ESF perthnasol. Yn yr un modd, gall ffermwyr o bosibl ddod yn gyfranogwyr ESF. Ym mhob achos, nid yw'r dull hwn yn cynnwys cymorth ESF/ERDF ar gyfer **cynhyrchu cynhyrchion amaethyddol ar lefel gynradd** fel a ddiffinnir yng Nghytuniadau'r UE a deddfwriaeth gysylltiedig ar Gymorth Gwladwriaethol. Lle gallai gweithgareddau gael cymorth o bosibl gan fwy nag un o raglenni'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi yng Nghymru, mae mecanweithiau cydgysylltu a chyfatebolrwydd wedi cael eu sefydlu rhwng awdurdodau'r rhaglenni i osgoi dyblygu neu fylchau o ran cyllid. Byddwn yn eich cyfeirio at y gronfa berthnasol os yw'n aneglur.

[49] Ni allwn gyllido gweinyddiaethau cyhoeddus i'w helpu i ddarparu gwasanaethau sy'n gyfrifoldeb neu ddyletswydd statudol arferol iddynt, er enghraifft: darparu addysg i grwpiau o oedran ysgol statudol; gwasanaethau iechyd sylfaenol; parciau a llyfrgelloedd cyhoeddus.

[50] Mae Cronfeydd Strwythurol yr UE wedi'u bwriadu i ddarparu gwerth ychwanegol na fyddai'n cael ei gyflawni pe bai'r Aelod-wladwriaeth yn gweithredu ar ei phen ei hun ac felly ni ellir defnyddio'r cronfeydd yn lle rhaglenni cyllid cyhoeddus presennol neu arfaethedig.

[51] Ni all y Cronfeydd Strwythurol gael eu defnyddio yn lle cyllid cyfatebol cyhoeddus neu breifat cenedlaethol/ rhanbarthol ar gyfer prosiectau/ rhaglenni'r UE a reolir yn uniongyrchol gan y CE. Yn yr un modd, ni all prosiectau/ rhaglenni'r UE a reolir yn uniongyrchol gan y CE gael eu defnyddio yn lle cyllid cyfatebol cyhoeddus neu breifat cenedlaethol/ rhanbarthol ar gyfer gweithrediadau'r Cronfeydd Strwythurol.

32. Refeniw

Mae'n rhaid i grantiau'r UE beidio â bod â'r bwriad na chael yr effaith i greu elw o fewn fframwaith y camau gweithredu a gefnogir gan yr UE (yr 'egwyddor dim elw'). Lle ceir elw/ gwarged, efallai y bydd yn rhaid dychwelyd canran o'r elw hwnnw – sy'n cyfateb i gyfraniad yr UE tuag at y costau cymwys a greodd yr elw hwnnw – gan ddibynnu a yw'r refeniw yn deillio yn ystod cyfnod gweithredu prosiect ynteu yn ystod y cyfnod ymelwa, ar ôl cwblhau prosiect.

Diffiniadau

Mae refeniw yn golygu mewnlifoedd arian parod a dalwyd yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr am y nwyddau neu wasanaethau a ddarparwyd gan y gweithrediad/ prosiect:

- Cyfraniadau gan ddefnyddwyr terfynol seilwaith a adeiladwyd gan y gweithrediad (tariffiau, ffioedd gwasanaethau, taliadau).
- Incwm o werthu cynhyrchion, neu sgîl-gynhyrchion, a gynhyrchwyd gan y gweithrediad ar y farchnad.
- Incwm o werthu gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r prosiect e.e. ffioedd cofrestru neu dderbyniadau tebyg a grëwyd yn uniongyrchol gan y gweithrediad.
- Incwm o werthu tir neu adeiladau a adnewyddwyd neu a adeiladwyd gan y gweithrediad.
- Incwm o osod tir neu adeiladau a adnewyddwyd neu a adeiladwyd gan y gweithrediad.

Nid yw refeniw yn cynnwys:

- Derbyniadau ar ffurf grantiau'r UE.
- Cyfraniadau o fath arall.
- Cyllid cyfatebol lle cynhyrchir swm o 'refeniw net' (gweler y diffiniad isod) yn ystod gweithredu'r prosiect. Ni ellir defnyddio'r swm 'refeniw net' fel arian cyfatebol a rhaid ei ddatgan i WEFO.
- Nid yw taliadau yr ydych yn eu derbyn o ganlyniad i amod cytundebol ynghylch tor-cytundeb rhyngoch chi a thrydydd partïon (h.y. cosbau cytundebol) neu o ganlyniad i dynnu cynnig yn ôl gan drydydd parti a ddewiswyd mewn rheolau caffael cyhoeddus (h.y. fforffedu blaendal) yn cael eu hystyried yn refeniw ac felly

nid oes angen eu didynnu o'ch gwariant cymwys (gallwch gadw 100% o dderbyniadau o'r fath).

Mae costau gweithredol yn golygu costau cylchol i weithredu a chynnal a chadw'r asedau a grëwyd gan y prosiect yn ystod y cyfnod sy'n cyfateb i'r cyfnod yr oedd y prosiect yn creu refeniw. Mae hyn yn cynnwys costau prynu offer newydd yn lle offer ag oes fer. Gall costau gweithredol fod yn gostau sefydlog (staff, cynnal a chadw ac atgyweirio, rheoli a gweinyddu cyffredinol, yswiriant) neu amrywiol (defnyddio deunyddiau crai, ynni, nwyddau traul).

Mae arbedion mewn costau gweithredol yn golygu mewnlifoedd net sy'n deillio am fod costau gweithredol wedi gostwng o ganlyniad i weithredu'r prosiect. Caiff y rhain eu trin yr un fath â 'refeniw'.

Mae refeniw net yn golygu Refeniw **ac** Arbedion mewn Costau Gweithredol **namyn** Costau Gweithredol. Gall Arbedion mewn Costau Gweithredol gael eu heithrio os cânt eu gwrthbwyso gan ostyngiad cyfartal mewn cymorthdaliadau gweithredol (a'u bod felly ddim yn fudd ariannol ar y cyfan). Bydd angen i chi ddarparu manylion cyfanswm y refeniw a gynhyrchir gan y prosiect yn ystod ei weithredu. Bydd hyn yn galluogi WEFO i gyfrifo faint o gyfanswm y refeniw a ddefnyddiwyd i dalu am y gost weithredol ac felly'r swm cywir o 'refeniw net' sy'n berthnasol i'ch prosiect.

Bydd y rheolau i'w dilyn yn dibynnu ar y math o weithrediad a natur y gweithrediad. Byddwn yn eich hysbysu yn eich cytundeb cyllid grant pa reolau sy'n berthnasol i'ch gweithrediad chi:

• Mae'r gweithrediad yn cyd-fynd â'r diffiniad o 'brosiect sy'n creu refeniw.' • Dim canran ar sail cyfradd safonol yn cael ei darparu gan y CE – neu WEFO/ y buddiolwr ddim yn dymuno defnyddio cyfradd safonol. • Yn gallu rhagweld refeniwiau yn y dyfodol mewn modd gwrthrychol ar adeg ymgeisio am gyllid/ arfarnu'r cais.	**Rheol A** **ERDF YN UNIG**
• Mae'r gweithrediad yn cyd-fynd â'r diffiniad o 'brosiect sy'n creu refeniw.' • Dim canran ar sail cyfradd safonol yn cael ei darparu gan y CE – neu WEFO/ y buddiolwr ddim yn dymuno defnyddio cyfradd safonol. • Ddim yn gallu rhagweld refeniwiau yn y dyfodol mewn modd gwrthrychol.	**Rheol B** **ERDF YN UNIG**
• Mae'r gweithrediad yn cyd-fynd â'r diffiniad o 'brosiect sy'n creu refeniw.' • Amcangyfrif canrannol o refeniw ar sail cyfradd safonol yn cael ei ddarparu gan y CE.	**Rheol C** **ERDF YN UNIG**

• WEFO a'r buddiolwr yn cytuno bod y dull cyfradd safonol yn addas.	
• Nid yw'r gweithrediad yn cyd-fynd â'r diffiniad o 'brosiect sy'n creu refeniw' ond mae'n creu refeniw serch hynny.	**Rheol D** **ESF ac ERDF**

Diffiniad o 'Brosiect sy'n Creu Refeniw'

Gweithrediadau ERDF yw'r rhain lle mae'r HOLL feini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

- Rydych yn disgwyl creu refeniwiau net **y tu hwnt i ddyddiad cwblhau** eich gweithrediad (yn ystod y cyfnod ymelwa).
- Mae'r gweithrediad yn un **nad yw'n ddarostyngedig i reolau ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol**.
- Mae **cyfanswm y costau cymwys a ragwelir yn uwch nag €1 miliwn** ar adeg y penderfyniad i gymeradwyo'r cyllid.
- Darperir y cyfan neu ran o gymorth yr UE fel **grant anad-daladwy**. Mae cymorth sy'n gwbl ad-daladwy wedi'i esemptio o'r rheolau ynglŷn â Phrosiect sy'n Creu Refeniw.

O'i roi fel arall, nid yw'r gweithrediad yn Brosiect sy'n Creu Refeniw os yw'n ddarostyngedig i reolau Cymorth Gwladwriaethol; neu os nad oes disgwyl iddo greu refeniwiau net ar ôl iddo gael ei gwblhau; neu mae cyfanswm ei gostau cymwys yn is nag €1m.

Bydd y gweithrediad wedi'i esemptio hefyd rhag y dosbarthiad fel Prosiect sy'n Creu Refeniw os ydych yn bwriadu cael ad-daliad ar sail costau unedau neu lwmpsymiau – yn hytrach na chostau real – os yw'r refeniw disgwyliedig wedi cael ei gymryd i ystyriaeth yn llawn wrth gytuno ar werth y costau unedau/ lwmpsymiau pan gymeradwyir cyfandaliadau.

<u>Cymorth Gwladwriaethol</u>

Nid yw gweithrediadau sy'n ddarostyngedig i reolau Cymorth Gwladwriaethol yn cael eu hystyried yn Brosiectau sy'n Creu Refeniw. Er mwyn eglurder, mae hyn yn golygu cymorth cyhoeddus sy'n cynnwys:

- Cymorth Gwladwriaethol de minimis.
- Cymorth Gwladwriaethol cydnaws i BBaChau, lle cymhwysir terfyn ar ddwyster y cymorth neu derfyn ar swm y cymorth mewn perthynas â Chymorth Gwladwriaethol.

- Cymorth Gwladwriaethol cydnaws, lle mae gwiriad unigol o anghenion cyllido yn unol â'r rheolau perthnasol ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol wedi cael ei gwblhau.

Rheol A

Mae'r rheol hon yn golygu ei bod yn ofynnol cynnal **dadansoddiad llawn o'r bwlch o ran cyllid** dros oes economaidd lawn y buddsoddiad. Mae'r cyfrifiadau'n ymwneud dim ond â refeniw sy'n uniongyrchol briodoladwy i'r camau gweithredu a gyllidir – nid ydynt yn cynnwys refeniw a grëwyd gan weithgareddau nas cyllidir gan yr UE na gwariant anghymwys/ gweithgaredd anghymwys.

Dim ond y llifoedd arian refeniw sy'n gysylltiedig â pherchennog a/neu weithredydd y prosiect yn unig (h.y. yr endid, neu endidau, economaidd sy'n gweithredu'r prosiect) fydd yn cael eu hystyried. Os nad yr un endid cyfreithiol yw'r perchennog a'r gweithredydd, bydd y cyfanswm refeniw cyfunol yn cael ei gyfrifo ond heb gynnwys llifoedd arian rhwng y perchennog a'r gweithredydd.

Dim ond llifoedd arian 'cynyddrannol' sy'n cael eu cymryd i ystyriaeth, h.y. y costau a buddion ychwanegol sy'n deillio o'i gymharu â'r hyn a fyddai wedi digwydd yn niffyg y prosiect.

Os yw eich prosiect yn cael ei ystyried yn Brosiect sy'n Creu Refeniw, bydd y **cymorth cyllido arfaethedig gan yr UE yn cael ei addasu ymlaen llaw** gan ystyried potensial y prosiect i greu refeniw net dros gyfnod cyfeirio penodedig sy'n cynnwys gweithredu'r prosiect **a chyfnod wedi iddo gael ei gwblhau**.

Bydd refeniw net posibl eich prosiect yn cael ei bennu ymlaen llaw trwy amcangyfrif y bwlch yng nghyllid eich prosiect yn y pen draw, h.y. faint o gymorth gan yr UE y mae ei angen o ystyried y refeniw y disgwylir i'r prosiect ei greu.

Cyfrifo refeniw net gostyngol y prosiect, gan ystyried:

- y cyfnod cyfeirio sy'n briodol i'r sector neu is-sector sy'n berthnasol i'r prosiect
- y proffidioldeb a ddisgwylir fel arfer ar gyfer y categori o fuddsoddiad dan sylw
- cymhwyso egwyddor y llygrwr sy'n talu
- ystyriaethau o ran tegwch sy'n gysylltiedig â ffyniant cymharol yr Aelod-wladwriaeth neu'r rhanbarth dan sylw

Pan ddefnyddir y dull hwn, mae'n rhaid i'r refeniw net a grëwyd yn ystod cyfnod gweithredu'r prosiect, sy'n deillio o ffynonellau refeniw nas cymerwyd i ystyriaeth wrth bennu'r refeniw net posibl, gael ei ddatgan a'i ddidynnu hefyd o wariant cymwys y prosiect, yn ddim hwyrach na'ch hawliad terfynol am daliad.

Lle nad yw'r holl gost buddsoddi'n gymwys ar gyfer cyllid yr UE, gall y refeniw net gael ei ddyrannu ar sail pro rata i'r rhannau cymwys ac anghymwys o gost y prosiect.

Mae'r fethodoleg lawn ar gyfer cyfrifo refeniw net gostyngol gweithrediadau sy'n creu refeniw net wedi'i nodi yn erthyglau 16-19 o Reoliad yr UE 480/2014.

Mae'r cyfrifiadau sy'n ofynnol yn gymhleth ac yn galw am fod yn gyfarwydd â nifer o gysyniadau ariannol a chyfrifyddu. Byddwn yn eich tywys trwy'r broses ac yn darparu cyfarwyddiadau manwl.

Rheol B

Os oes gennych Brosiect sy'n Creu Refeniw a'n bod ninnau'n cytuno nad yw'n bosibl pennu refeniwiau yn y dyfodol mewn modd gwrthrychol ymlaen llaw, bydd angen i'r refeniw net y byddwch yn ei greu **o fewn tair blynedd i gwblhau eich gweithrediad** – neu erbyn 30 Medi 2023 os yw'n gynharach – gael ei ddidynnu o wariant cymwys. Mae'n rhaid i chi ein hysbysu ynghylch yr holl refeniw net a grëwyd ar ôl cyflwyno eich hawliad terfynol am daliad nes bod y cyfnod o dair blynedd wedi dod i ben (neu erbyn 30 Medi 2023 os yw'n gynharach).

Rheol C

Fel dull symlach, gallwn gytuno i gymhwyso canran refeniw net ar sail cyfradd safonol ar gyfer y sector neu'r is-sector sy'n berthnasol i'r prosiect:

Sector		Cyfraddau safonol
1	**FFYRDD**	30%
2	**RHEILFFYRDD**	20%
3	**TRAFNIDIAETH DREFOL**	20%
4	**DŴR**	25%
5	**GWASTRAFF SOLET**	20%

***Ffynhonnell**: Atodiad V o Reoliad yr UE 1303/2013*

Caiff cymorth yr UE ei bennu wedyn ymlaen llaw trwy addasu'r costau cymwys a ragwelir gan ddefnyddio'r fformwla canlynol:

Cymorth yr UE = Costau Cymwys * (1- % ar sail cyfradd safonol) * % o ran cyfradd ymyrraeth y grant

<u>Enghraifft</u>

Prosiect rheilffyrdd â £2m o gostau cymwys a chyfradd ymyrraeth grant o 50%:

Cymorth yr UE = Costau Cymwys * (1- % ar sail cyfradd safonol) * % o ran cyfradd ymyrraeth y grant

Cymorth yr UE = £2m * (1-0.20) * 0.50

Cymorth yr UE = £2m * 0.80 * 0.50

Cymorth yr UE = £1,6m * 0.50

Cymorth yr UE = £800,000

Cyn y cyfrifiad o ran y refeniw a fydd yn cael ei greu, byddai'r prosiect wedi cael £1m o gymorth ERDF (costau cymwys * 50%). Effaith yr asesiad ar sail cyfradd safonol yw gostyngiad o £400,000 mewn gwariant cymwys ac felly mae cymorth yr UE yn gostwng £200,000. Mae costau cymwys y prosiect yn dal i gael eu cofnodi fel £2m (nid £1.6m) ac mae cyllid cyfatebol yn ofynnol ar gyfer £1m (nid £1.2m).

Nid oes yn rhaid i'r prosiect roi cyfrif am y bwlch ymddangosol yn y cyllid o £200,000 - £2m o gostau cymwys namyn yr £1.8m a fydd yn ei gael gan yr UE a chyllid cyfatebol – y dybiaeth yw y bydd refeniw yn y dyfodol yn llenwi'r bwlch hwn ond nid yw hynny'n cael ei fonitro gennym ni na'r CE.

Er mwyn eglurder, lle defnyddir y dull cyfradd safonol ystyrir bod yr **holl** refeniw net a grëwyd mewn gwirionedd yn ystod y cyfnod gweithredu ac ar ôl cwblhau'r prosiect yn ystod y cyfnod ymelwa ar y buddsoddiad **wedi cael ei gymryd i ystyriaeth a'i setlo** trwy gymhwyso'r gyfradd safonol ac felly ni chaiff ei ddidynnu'n ddiweddarach o'r gwariant cymwys.

Rheol D

Os nad yw eich prosiect yn Brosiect sy'n Creu Refeniw ond bod gweithgareddau eich prosiect yn creu refeniw yn uniongyrchol yn ystod y cyfnod gweithredu, mae'n **rhaid gostwng/ gwrthbwyso costau cymwys eich prosiect yn ôl swm y refeniw net a dderbyniwyd**, a bydd hyn yn gostwng y swm i'r grant sy'n ddyledus gan yr UE.

Nid yw unrhyw daliad yr ydych chi'n ei dderbyn o ganlyniad i amod cytundebol ynghylch tor-cytundeb rhyngoch chi a thrydydd partïon (h.y. cosbau cytundebol) neu sydd wedi digwydd o ganlyniad i dynnu cynnig yn ôl gan drydydd parti a ddewiswyd mewn rheolau caffael cyhoeddus (h.y. blaendal) yn cael ei ystyried yn refeniw ac felly nid oes yn rhaid ei ddidynnu o'ch gwariant cymwys (rydych yn cadw'r holl derbyniadau o'r fath).

Mae'n rhaid i chi ein hysbysu ynghylch derbyniadau o'r fath cyn gynted â phosibl ac yn ddim hwyrach nag yn yr hawliad terfynol am daliad y byddwch yn ei gyflwyno i ni.

Os mai dim ond rhan o gyfanswm costau eich prosiect sy'n gostau cymwys, dim ond cyfran o'r refeniw y mae angen i chi ei chymhwyso. Mae'n rhaid i'r refeniw net gael ei

gymhwyso ar sail pro rata i'r rhannau cymwys ac anghymwys o gyfanswm costau'r prosiect.

Dim ond refeniw a grëwyd **yn ystod cyfnod gweithredu'r prosiect** y mae'n rhaid i chi ddweud wrthym amdano – nid oes angen i chi ein hysbysu ynghylch unrhyw refeniw a grëwyd y tu hwnt i gyfnod gweithredu eich prosiect.

Mae Rheol D yn berthnasol i weithrediadau ESF hefyd e.e. ffioedd cofrestru a dalwyd gan gyfranogwyr, gwerthu nwyddau neu wasanaethau a gynhyrchwyd gan y prosiect.

33. Cyllid Cyfatebol

Er y gall y Cronfeydd Strwythurol ddarparu cymorth sylweddol tuag at gostau cymwys prosiect, fel arfer bydd yn ofynnol i chi gyfrannu tuag at gwrdd â'r costau hyn hefyd. Gallwch wneud hyn yn uniongyrchol o'ch adnoddau eich hun a/neu â chyllid o ffynonellau cyllido allanol. Gallwn hefyd gydnabod cyfraniadau o fath arall sy'n gymwys (adnoddau anariannol sydd ar gael yn rhad ac am ddim i'r prosiect gan drydydd partïon) wrth ddatblygu'r pecyn cyllid ar y cyfan.

Disgwylir bod cymorth Cronfeydd Strwythurol yw'r isafswm sy'n ofynnol ar gyfer y prosiect i symud ymlaen. Bydd unrhyw gostau ychwanegol uwchben y gwerth hwn yn 'arian cyfatebol' (cyfeirir ato weithiau fel 'cyd-ariannu' neu ' cyd-ariannu' cenedlaethol.) Fel rhan o'ch proses ymgeisio byddwn yn eich hysbysu ynghylch lefel y cyllid cyfatebol y bydd angen i chi ei ddarparu ar gyfer eich prosiect. Bydd y swm sy'n ofynnol o fewn ystod a nodir yn ein Rhaglenni a bydd yn parchu unrhyw derfynau perthnasol a bennir gan reolau Cymorth Gwladwriaethol.

Mae'n rhaid i gyllid cyfatebol fod yn gyllid 'glân', sy'n golygu nad yw wedi cael ei ddatgan ar gyfer prosiectau eraill fel sail i gael cymorth ariannol o gronfeydd yr UE a bod yn rhaid iddo beidio â bod wedi deillio o unrhyw un o ffynonellau cyllid eraill yr UE.

Ni allwch ddefnyddio cronfeydd yr UE i gael cyllid cyfatebol ar gyfer eich prosiect – mae'n rhaid i'r cyllid cyfatebol ddod o gronfeydd cyhoeddus neu breifat cenedlaethol neu ranbarthol. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, na ellir defnyddio arian a gafwyd o raglen arall a weithredir gan yr UE, megis Horizon 2020 neu Gydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, i ddarparu'r cyllid cyfatebol cenedlaethol gofynnol ar gyfer prosiect a gefnogir gan y Cronfeydd Strwythurol.

Fodd bynnag, ar y cyfan gall arian a fenthyciwyd o Grŵp Banc Buddsoddi Ewrop (EIB ac EIF) gael ei ddefnyddio i gyllido'r cyfraniad cenedlaethol neu ranbarthol tuag at brosiect dan y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.

Rydym yn archwilio'ch cynigion ar gyfer cyllid cyfatebol pan ydym yn asesu eich cais am gyllid. Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni os bydd swm neu ffynhonnell y cyllid cyfatebol yn newid yn ystod cyfnod gweithredu'r prosiect.

Er mwyn eglurder, nid yw'r canlynol yn gyllid cyfatebol:

- Refeniw/ incwm a grëwyd gan brosiect – gweler adran 32.
- 'Taliad arian-yn-ôl', nodiadau credyd neu ad-daliadau gan gyflenwyr, darparwyr gwasanaethau neu gontractwyr.
- Cyfraniadau ariannol gan drydydd partïon i gyllido costau anghymwys.

ACHOS PENODOL: Cyfraniadau ariannol gan gyflogwyr i gynorthwyo eu cyflogeion i gael mynediad at gymorth ESF

Mae'r sefyllfa hon yn codi dan yr amgylchiadau canlynol:

- Mae'r gweithgaredd ESF yn golygu darparu cymorth ar gyfer pobl gyflogedig;
- Mae'r buddiolwr yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr y cyfranogwyr wneud cyfraniad ariannol uniongyrchol tuag at gost y gweithgareddau ESF; a
- Mae'r cyfraniad yn gyfraniad 'arian parod' real h.y. taliadau a gafwyd gan y buddiolwr neu'r darparwr sydd wedi'i gontractio gan y buddiolwr.

Mae angen rheolau eglur i ddynodi a yw'r taliadau hyn yn refeniw ar gyfer y prosiect – fel sy'n wir ar gyfer ffioedd cofrestru cyfranogwyr a thaliadau tebyg a delir gan y cyfranogwyr eu hunain – neu gyllid cyfatebol gan y cyflogwyr.

Mae'r cyfraniadau gan gyflogwyr yn gyllid cyfatebol os bodlonir yr amodau a nodir isod.

AMOD 1: *Dylid asesu pa un a fydd y gweithrediad yn creu 'refeniw net' yn ystod ei gyfnod gweithredu (gweler adran 32, rheol refeniw D).*

Ystyrir bod y gweithrediad yn creu 'refeniw net' os yw cyfanswm y gwariant cymwys cymeradwy ar gyfer y gweithrediad ESF yn is na **swm**:

- Y cyfraniad ESF;
- Y cyllid cyfatebol; a
- Y cyfraniadau mewn arian parod gan y cyflogwyr.

Cyn belled â bod cyfraniadau gan gyflogwyr yn cael eu defnyddio'n uniongyrchol i gwrdd â chostau'r gweithrediad, nid oes angen i'r derbyniadau hyn gael eu trin fel refeniw a'u didynnu o'r gwariant cymwys. Gan na fydd cyfraniadau'r cyflogwyr tuag at gostau'r gweithrediad yn 'refeniw net', gellir eu hystyried felly'n gyllid cyfatebol.

Os yw'r cyfrifiad uchod yn cadarnhau y bydd 'refeniw net' yn cael ei greu, bydd yn rhaid didynnu'r symiau hyn o'r gwariant cymwys yn unol ag adran 32.

I grynhoi, os yw'r cyfraniadau gan gyflogwyr yn uwch na gwariant cymwys cymeradwy'r gweithrediad (pan gânt eu hychwanegu at y cyfraniad ESF a ffynonellau eraill o ran cyllid cyfatebol), caiff y symiau dros ben eu trin fel refeniw ar gyfer y prosiect.

AMOD 2: *Mae'n rhaid i natur breifat neu gyhoeddus y cyllid cyfatebol gan gyflogwyr fod yn seiliedig ar natur breifat neu gyhoeddus y cyflogwr.*

Mae'n rhaid i gyfraniadau mewn arian parod a dalwyd gan gyflogwr y cyfranogwr yn y sector preifat gael eu cofnodi fel cyllid cyfatebol preifat a chyfraniadau gan gyflogwyr cyhoeddus fel cyllid cyfatebol cyhoeddus.

Rhag ofn na fyddai'r cyfraniad mewn arian parod yn deillio oddi wrth y cyflogwr yn unigol, ond o adnoddau ariannol y cyfrannwyd atynt ar y cyd gan grwpiau o gyflogwyr a gweithwyr, gellir ystyried bod y cyfraniad hwn yn gyllid cyfatebol **cyhoeddus** [erthygl 2(15) o Reoliad yr UE 1303/2013].

34. Cyhoeddusrwydd ac Amlygrwydd Cyllid yr UE

Mae cyllid yr UE yn amodol ar gamau y mae angen i fuddiolwyr eu cymryd i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd a chyfathrebu â hwy ynghylch y cymorth a ddarparwyd gan yr UE.

Yn ystod cyfnod gweithredu eich prosiect a thrwy ei fesurau gwybodaeth a chyfathrebu, mae'n rhaid i chi hysbysu'r cyhoedd a chyfranogwyr am y cymorth gan yr UE.

Mae'n rhaid i chi nodi darpariaethau tebyg yn eich trefniadau cytundebol gyda darparwyr gwasanaethau, contractwyr a phartneriaid cyflawni eraill fel bod y cyfraniad o gronfeydd yr UE yn cael ei gyfleu mor eang â phosibl.

Bydd tystiolaeth i ddangos cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn yn rhan annatod o ymweliadau arolygu ac archwilio ac adolygiadau o brosiectau.

Cyhoeddi Gwybodaeth

- Mae'n rhaid i chi ganiatáu i fanylion sylfaenol gael eu cyhoeddi (yn electronig neu fel arall) gennym ni. Mae manylion sylfaenol yn cynnwys enw'r buddiolwr, enw'r gweithrediad, ei leoliad, targedau allbwn a chanlyniadau, y swm o arian a ddyrannwyd o gronfeydd yr UE, a'r swm o arian a dalwyd o gronfeydd yr UE ar ôl cwblhau'r prosiect yn derfynol.

Defnyddio Logo a Chyfeirio at y Gronfa

- Mae'n rhaid i'r holl weithgareddau gwybodaeth a chyfathrebu (e.e. dogfennau, hysbysiadau i'r wasg, y cyfryngau cymdeithasol/ digidol, eitemau hyrwyddo etc) a gyflawnir gan y buddiolwr gydnabod cymorth o Gronfa berthnasol yr UE (ERDF neu ESF) ar gyfer y gweithrediad trwy arddangos:
    - **logo'r** gronfa ERDF neu ESF sydd ar gael gennym ni, y mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r nodweddion technegol (safonau graffeg a diffiniad o liwiau safonol) a nodir yn nogfen Canllawiau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd WEFO.

- cyfeiriad at **Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop** neu **Gronfa Gymdeithasol Ewrop**. Ar gyfer gwrthrychau hyrwyddo bach, nid oes angen cyfeirio at y Gronfa.

- Mae'n rhaid i logo'r Gronfa gael ei arddangos mewn lliw ar wefannau bob amser. Mae'n rhaid i logo'r Gronfa gael ei arddangos mewn lliw ym mhob cyfrwng arall ond gellir defnyddio fersiwn fonocrom mewn achosion a gyfiawnhawyd. Dylai buddiolwyr gysylltu â ni os nad ydynt yn gallu cyhoeddi arwyddlun lliw.

- Mae'n rhaid i logo'r Gronfa allu cael ei weld yn glir bob amser a chael ei osod mewn lle amlwg, gyda'i safle a'i faint yn briodol i raddfa'r ddogfen neu'r deunydd a ddefnyddir.

- Lle mae mesur gwybodaeth neu gyfathrebu'n ymwneud â gweithrediad neu sawl gweithrediad a gefnogir gan fwy nag un o'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ERDF, ESF, EAFRD, EMFF), gellir disodli'r cyfeiriad at y Gronfa benodol gan yr UE â chyfeiriad at y **Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd**. Gellir defnyddio logo'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (sydd ar gael gan WEFO) lle mae buddiolwr yn cael cymorth o ddwy neu fwy o'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd hefyd

- Os yw logos eraill yn cael eu harddangos ar wefannau, dogfennau neu ddeunydd cyhoeddusrwydd arall, mae'n rhaid i logo'r Gronfa fod o leiaf yr un faint, wedi'i fesur mewn uchder neu led, â'r mwyaf o'r logos eraill.

Gwefannau

- Os oes gwefan gan fuddiolwr, mae'n rhaid i'r buddiolwr gyhoeddi disgrifiad byr o'r gweithrediad, yn gymesur â lefel y cymorth, gan gynnwys ei nod a chanlyniadau, a chan amlygu'r cymorth ariannol gan yr UE.

- Pan fo logo'r Gronfa'n cael ei arddangos ar wefan buddiolwr:

  - Mae'n rhaid i logo'r Gronfa fod yn weladwy wrth lanio ar y wefan, y tu mewn i'r ardal weld ar ddyfais ddigidol, heb fod angen i ddefnyddiwr sgrolio i lawr y dudalen.

  - Mae'n rhaid gwneud y cyfeiriad at y Gronfa'n weladwy ar yr un wefan.

Posteri, Byrddau Biliau a Phlaciau

- Yn ystod cyfnod gweithredu gweithrediad, mae'n rhaid i'r buddiolwr osod o leiaf un **poster** mewn lleoliad lle gall y cyhoedd a chyfranogwyr ei weld yn rhwydd, megis ym mynedfa neu dderbynfa adeilad. Bydd templed dylunio'n cael ei ddarparu gan WEFO at ddibenion arfer gorau, ond fel lleiafswm, mae'n rhaid i'r poster fod **o faint A3 o leiaf** a chynnwys enw'r gweithrediad; ei brif amcan; swm

y cymorth ariannol gan yr UE, y datganiad: '**Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru**', ac enw a logo'r briod Gronfa.

- Mae'n rhaid i'r buddiolwr arddangos plac coffa parhaol hefyd (a ddarperir yn rhad ac am ddim gan WEFO), sy'n cynnwys logo'r Gronfa, mewn lleoliad amlwg lle gall y cyhoedd, staff a chyfranogwyr ei weld yn rhwydd.

- Lle mae unigolion neu sefydliadau'n cyfranogi mewn gweithrediad neu'n cael cymorth ganddo, mae'n rhaid i'r buddiolwr sicrhau bod y rhai sy'n cymryd rhan wedi cael eu hysbysu bod y gweithrediad yn cael cymorth o Gronfa'r UE. Mae'n rhaid i unrhyw ddogfen sy'n ymwneud â gweithredu'r gweithrediad a ddefnyddir ar gyfer y cyhoedd neu'r rhai sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau a gefnogir gan y gweithrediad, gan gynnwys unrhyw dystysgrif presenoldeb neu dystysgrif arall, gynnwys datganiad sy'n egluro bod y rhaglen weithredol wedi cael cymorth gan y gronfa ERDF neu ESF. Os yw'r ddogfen yn cynnwys logos eraill, yna mae'n rhaid defnyddio logo'r Gronfa hefyd.

- Yn ystod cyfnod gweithredu gweithrediad seilwaith neu adeiladu sy'n cael mwy nag EUR 500,000 o'r gronfa ERDF, mae'n rhaid i'r buddiolwr osod bwrdd biliau **dros dro** o faint arwyddocaol mewn lleoliad lle gall y cyhoedd ei weld yn rhwydd. Mae'n rhaid i'r bwrdd biliau gynnwys logo'r Gronfa a hwnnw'n gorchuddio o leiaf 25 y cant o'i arwynebedd. Mae 'cymorth cyhoeddus' yn cynnwys cymorth cenedlaethol a chymorth yr UE. Os yw eich gweithrediad yn defnyddio punnoedd Sterling, caiff y gyfradd gyfnewid ar gyfer EUR ei hasesu dim ond pan fyddwn yn anfon llythyr cytundeb cyllid atoch.

- Yn ddim hwyrach na thri mis ar ôl i'r gweithrediad seilwaith neu adeiladu a gefnogir gan ERDF gael ei gwblhau, mae'n rhaid i'r buddiolwr arddangos bwrdd biliau **parhaol** (darperir templed dylunio gan WEFO) o faint sylweddol mewn lleoliad lle gall y cyhoedd ei weld yn rhwydd.

Mae'n rhaid i chi hefyd gydymffurfio ag unrhyw amodau ychwanegol o ran cyhoeddusrwydd, gwybodaeth a chyfathrebu a nodir yn llythyr cytundeb cyllid WEFO a Chanllawiau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd WEFO.

Caiff logos a phlaciau coffa ar gyfer y cronfeydd eu darparu gennym ni. Mae'n rhaid i ddyluniad posteri, placiau a byrddau biliau eraill a deunyddiau eraill gael ei gytuno gennym ni i helpu i gydymffurfio â'r nodweddion technegol a nodir yn Rheoliadau'r UE a Chanllawiau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd WEFO.

Er mwyn eglurder, mae gweithgareddau a chostau sy'n angenrheidiol i fodloni amodau cyhoeddusrwydd a gwybodaeth yn gostau cymwys (fel cost hanfodol ar gyfer rheoli a gweinyddu'r prosiect).

Ffynhonnell / gwybodaeth bellach: erthygl 115(3) o Reoliad yr UE 1303/2013

35. Rheolau Parhauster

Os yw eich gweithrediad yn fuddsoddiad mewn seilwaith neu fuddsoddiad cynhyrchiol, mae'n rhaid i gyfraniad grant yr UE gael ei ad-dalu i ni os, **o fewn pum mlynedd i'n taliad terfynol i chi** (neu o fewn y cyfnod a nodir yn y rheolau perthnasol ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol os yn hwy), ceir unrhyw un o'r digwyddiadau canlynol:

- Mae'r gweithgaredd cynhyrchiol yn dod i ben.
- Mae gweithgaredd y prosiect yn cael ei ad-leoli y tu allan i ranbarth y rhaglen gyllid a ddarparodd y cymorth gan yr UE (mae adleoliad i ran arall o ranbarth y rhaglen yn dderbyniol ond mae'n rhaid i chi ein hysbysu ynghylch hyn).
- Ceir newid yn y berchnogaeth ar eitem o seilwaith sy'n rhoi mantais ormodol i gwmni neu gorff cyhoeddus.
- Ceir newid sylweddol sy'n effeithio ar ei natur, amcanion neu amodau gweithredu a fyddai'n arwain at danseilio'i amcanion gwreiddiol.

Ystyr buddsoddiadau cynhyrchiol yw buddsoddiadau a wneir i gynyddu gallu cynhyrchu menter.

Os ceir unrhyw un o'r digwyddiadau hyn, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni a byddwn ninnau'n adennill cyfraniad yr UE yn gymesur â'r cyfnod pan nad yw'r gofynion wedi cael eu cyflawni, h.y. ar raddfa symudol o 100% i 0% yn ystod y cyfnod o bum mlynedd.

Os bydd achosion yn ymwneud â buddsoddiadau neu swyddi a grëwyd gan BBaChau, gallwn benderfynu lleihau'r terfyn amser o bum mlynedd i **dair blynedd**, oni bai fod rheolau Cymorth Gwladwriaethol yn gosod cyfnod hirach.

Lle nad BBaCh yw'r buddiolwr, mae'n rhaid i'r buddiolwr ad-dalu cyfraniad yr UE hefyd os yw gweithgareddau cynhyrchiol yn cael eu hadleoli y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd o fewn **deng mlynedd** i'r taliad terfynol (neu o fewn y cyfnod o amser a nodir yn y rheolau ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol os yn berthnasol). Er mwyn eglurder, mae BBaChau wedi'u hesemptio o'r rheol hon.

Eithriadau i'r rheolau parhauster:

- Mae prosiectau a gefnogir gan y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd nad ydynt yn fuddsoddiad mewn seilwaith nac yn fuddsoddiadau cynhyrchiol wedi'u hesemptio o'r rheolau hyn (oni bai fod y rheolau perthnasol ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol yn gosod rhwymedigaeth i gynnal y buddsoddiad a lle mae'r gweithgaredd cynhyrchiol yn dod i ben neu'n cael ei adleoli o fewn y cyfnod a nodir yn y rheolau hynny ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol).
- Nid yw'r rheolau hyn yn berthnasol i gyfraniadau i neu gan Offerynnau Ariannol

- Mae gweithrediad sy'n rhoi'r gorau i weithgaredd cynhyrchiol oherwydd methdaliad (annhwyllodrus) wedi'i esemptio hefyd.

[Erthygl 71 o Reoliad yr UE 1303/2013]

Asedau a ddelir wedi i'ch prosiect gael ei gwblhau

Os nad ydych yn defnyddio ased a brynwyd gan ddefnyddio cymorth yr UE mwyach, gallwch ei werthu ond sylwer y gall fod angen adrodd wrthym ni ar yr elw o'r gwerthiant fel 'refeniw' – gweler adran 7 ar gyfer achosion lle mae'n dal yn angenrheidiol adrodd ar refeniw ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau.

Os byddwch yn gwerthu ased neu'n ei gyflwyno'n rhodd i brosiect arall a gyllidir gan y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, ni fydd y prosiect hwnnw'n gallu hawlio'r costau prynu fel cost cymwys ar gyfer y prosiect na chyfraniad o fath arall.

Sylwer y bydd Tîm Gwirio Rheoli WEFO yn cynnal ymweliadau prosiect i wirio cydymffurfiaeth â rheolau gwydnwch - bydd yr ymweliad yn digwydd o leiaf unwaith o fewn y pum mlynedd ar ôl cwblhau y gweithrediad.

36. Cydymffurfio â'r holl Gyfreithiau a Rheoliadau Perthnasol (Yr UE, y DU, Cymru)

36.1 Cyfreithiau a Rheoliadau'r UE

Mae cydymffurfio â rheolau a pholisïau perthnasol yr UE yn un o'r amodau sylfaenol o ran cymhwystra gwariant ar gyfer ad-daliad o'r Cronfeydd Strwythurol. Y meysydd ymarfer pwysicaf, ond nid yr unig rai, yw **caffael cyhoeddus, cymorth y wladwriaeth, diogelu'r amgylchedd a chyfle cyfartal**.

Mae'r CE yn cymhwyso graddfa cywiriadau ariannol am dorri rheolau caffael cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd, sef y gosb uchaf yn 100% i ddiystyru gofynion tendro mewn unrhyw gontractau cyhoeddus. Mae'n argymell bod Aelod-wladwriaethau'r UE yn cymhwyso'r un graddfeydd o gosbau fel y'u nodir ym Mhenderfyniad y Comisiwn 19.12.2013 o'r enw 'Canllawiau ar gyfer penderfynu cywiriadau ariannol y mae'r Comisiwn yn eu gwneud i wariant a ariennir gan yr Undeb o dan reolaeth a rennir, am beidio â chydymffurfio gyda'r rheolau ar gaffael cyhoeddus ', lle nodir bod Awdurdod Contractio wedi torri rheolau caffael cyhoeddus. Mae WEFO wedi derbyn argymhelliad yr UE a bydd yn defnyddio ac yn cymhwyso cywiriadau yn unol â'r canllawiau hyn. Yn ogystal â hynny, lle bo hynny'n briodol ac yn rhesymol i wneud hynny, gall WEFO ddefnyddio'r canllawiau hyn i wneud cais am gywiriadau i Awdurdodau nad ydynt yn Contractio sy'n torri rheolau / prosesau caffael sefydledig, ac nad ydynt yn dangos egwyddorion tegwch, agored a thryloywder.

O ran Cymorth y Wladwriaeth, pan fo Cronfeydd yr UE yn cyd-gyllido cymorth i fusnesau mae'n rhaid i gyfanswm y cymorth cyhoeddus (ffynonellau cenedlaethol a'r

UE) aros o fewn y terfynau ariannol neu'r terfynau ar ddwyster y cymorth a bennwyd ar gyfer y cynllun Cymorth Gwladwriaethol sydd dan sylw.

Fe'ch atgoffir bod rheolau a gofynion Cymorth Gwladwriaethol **yn ychwanegol at** y rheolau a'r amodau yn y ddogfen hon. Yn arbennig, bydd rheolau gwahanol yn berthnasol weithiau mewn perthynas â chyfnodau cadw dogfennau, creu refeniw, a chynnal buddsoddiadau cynhyrchiol am gyfnod o amser y tu hwnt i ddiwedd eich prosiect.

36.2 Cyfreithiau a Rheoliadau'r DU a Chymru

Mae'n rhaid i weithgarwch a gwariant prosiect gydymffurfio â'r holl gyfreithiau, rheoliadau a darpariaethau tebyg cenedlaethol perthnasol, gan gynnwys cydymffurfio â deddfwriaeth treth a nawdd cymdeithasol.

Mae'n rhaid i chi geisio cyngor cyfreithiol lle y bo'n ofynnol i sicrhau eich bod yn cyflawni'r holl rwymedigaethau o'r fath.

Gall unrhyw gostau gorfodol, cytundebol, cyfreithiol neu statudol heb eu rhagweld y byddwch yn eu hysgwyddo o ganlyniad i weithredu eich prosiect fod yn gymwys os ydynt yn bodloni'r rheolau yn y ddogfen hon ond nid ydym dan orfodaeth i gynyddu eich gwariant cymwys cymeradwy i gwrdd â chostau o'r fath. Eich cyfrifoldeb chi ac nid cyfrifoldeb WEFO, y CE na chyllidwyr eraill y prosiect yw'r holl gostau ychwanegol, hyd yn oed os na ellir osgoi costau o'r fath.

36.3 Rheolau Caffael

Mae'n rhaid i chi gynnal gweithdrefnau caffael a phrynu mewn ffordd sy'n dangos **gwerth am arian** neu, os yn briodol, y pris isaf. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i chi hefyd ystyried unrhyw **wrthdaro buddiannau** canfyddedig neu wirioneddol.

Wrth gael gafael ar fuddiolwyr contract rhaid i fuddiolwyr sicrhau, a dangos, gwerth am arian yw trwy gystadleuaeth deg, agored a thryloyw am gontractau.

Mae'n rhaid i fuddiolwyr gydymffurfio â holl gyfreithiau/ polisïau llywodraethol y CE, y DU a Chymru wrth osod contractau a gyllidir yn rhannol gan gronfeydd yr UE, gan gynnwys Rheoliad Contractau Cyhoeddus y DU 2015 sy'n gweithredu Cyfarwyddebau Caffael Cyhoeddus Ewropeaidd 2014.

36.3.1 Cydymffurfiaeth â Deddfwriaeth Caffael Cyhoeddus (Contractau Cyhoeddus)

Mae deddfwriaeth caffael cyhoeddus yn rheoleiddio gweithgareddau prynu gan gyrff yn y sector cyhoeddus, neu gyrff penodol yn y sector cyfleustodau, a ddiffinnir yn y ddeddfwriaeth fel 'awdurdodau contractio'. Mae'n ofynnol i fuddiolwyr benderfynu ar eu statws contractio eu hunain a sicrhau bod eu polisi caffael yn adlewyrchu eu statws

Mae'r corff sy'n prynu'n 'awdurdod contractio'. Mae'r diffiniad yn eang ac yn cynnwys **llywodraeth ganolog, awdurdodau lleol, cymdeithasau a ffurfiwyd gan un awdurdod contractio neu fwy a 'chyrff eraill a lywodraethir gan gyfraith gyhoeddus'** (e.e. prifysgolion a chymdeithasau tai).

Mae **Canllaw Cynllunio Caffael** Gwerth Cymru yn darparu adnodd ar y we i gynorthwyo'r sector cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni gweithgarwch caffael.

Hafan a Chanllawiau Cynllunio

http://prp.wales.gov.uk/

Polisi a Phecyn Cymorth Adnoddau Caffael

http://prp.wales.gov.uk/toolkit/

Trosolwg o Ddeddfwriaeth Caffael yr UE a'r DU

http://prp.wales.gov.uk/planners/general/framework/

Yr holl ddeddfwriaeth berthnasol yn y DU sy'n gysylltiedig â chaffael

http://prp.wales.gov.uk/planners/general/framework/ukprocurementlegislation/

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar sut i osgoi camgymeriadau mwyaf cyffredin ym maes caffael

http://gov.wales/docs/wefo/publications/151005publicprocurementguidance.pdf

Mae'n rhaid i fuddiolwyr sy'n 'awdurdodau contractio' (o fewn ystyr Rheoliad Contractau Cyhoeddus y DU 2015) gydymffurfio â'r rheolau cyfatebol a nodir yn y Rheoliad hwnnw. Mae hyn yn cynnwys y rhwymedigaeth i **hysbysu contractwyr preifat ynghylch bodolaeth unrhyw 'gontract cymorthdaledig'** a'r gofyniad i'r contractwyr preifat hynny gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ynglŷn â Chontractau Cyhoeddus.

Mae chwe cham caffael:

i. Paratoi a chynllunio
ii. Gwahoddiad i gynnig / hysbysebu ee GwerthwchiGymru
iii. Cyflwyno a dewis ceisiadau
iv. Gwerthuso ceisiadau
v. Dyfarnu'r contract
vi. Gweithredu contract

Mae dogfennu'r broses gaffael gyfan a chyfiawnhau pob penderfyniad allweddol yn ofyniad hanfodol i sicrhau y gellir gwirio neu archwilio rheolaidddeb gwariant.

36.3.2 Contractau y tu allan i gwmpas Deddfwriaeth Caffael Cyhoeddus (Contractau Preifat/Caffael yn y Sector Preifat)

Nid yw buddiolwyr sy'n awdurdodau nad ydynt yn contractio yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth Contract Gyhoeddus, ac eithrio'r ddau eithriad isod (Contract Gostyngiadau Contract Cyhoeddus a Gwaith Cyhoeddus Cymwysedig - gweler pwyntiau a) ac b) ar ddiwedd yr adran hon), ond mae'n rhaid iddo barhau dilynwch y rheolau y maent fel arfer yn eu dilyn ar gyfer prynu ac, os yw'n berthnasol, hysbysebu, dethol a dyfarnu contractau.

Er mwyn dangos gwerth am arian, mae'n rhaid i fuddiolwyr ofyn am o leiaf nifer o ddyfynbrisiau a chael lleiafswm o dri lle bo modd.

DS: Safonau gofynnol WEFO - tri dyfynbris (neu wahoddiadau i gynnig / tendro) am bryniadau> £ 5k (net o TAW); un dyfynbris os yw <£ 5k (net o TAW) a chydymffurfio â rheolau 'gwrthdaro buddiannau' - yn berthnasol i'r **holl** fuddiolwyr, hyd yn oed lle maent wedi sefydlu rheolau prynu / caffael - gweler adran 36.3.4 am ragor o fanylion

Mae'n **rhaid** i fuddiolwyr ddilyn y rheolau 'gwrthdaro buddiannau' a nodir yn 36.3.6 hefyd.

Rhaid i unrhyw ddetholiad a dyfarniad o gontractau gadw at egwyddorion Cytuniad yr UE canlynol:
- Anwahaniaethol;
- Triniaeth Gyfartal a
- Tryloywder

Nid yw'n angenrheidiol cyhoeddi cais am dendrau/ gwahoddiadau i dendro ar gyfer gweithgarwch caffael preifat fel arfer, oni bai fod hynny'n ofynnol yn ôl eich gweithdrefnau prynu/ caffael sefydledig chi eich hun.

Nid yw'r cyfeiriad at 'weithdrefnau prynu/ caffael sefydledig' o anghenraid yn golygu strategaeth neu ddatganiad polisi caffael ffurfiol (ond os ydynt yn bodoli, mae angen ymlynu wrthynt) – gallai gweithdrefnau presennol fod yn weithdrefnau gweithredol/ cyfarwyddiadau desg sy'n dogfennu'r modd y mae'n rhaid i gyflogeion y sefydliad ystyried gwerth am arian/ cystadleuaeth wrth brynu eitemau â gwerth uchel/ ymrwymo i gontractau. Bydd hyn yn amrywio rhwng BBaChau gwahanol ond gallai gynnwys er enghraifft:

- Cael dyfynbrisiau (ar lafar neu'n ysgrifenedig) cyn gosod archebion;
- Cymeradwyaeth, awdurdodiad, adolygiadau gan ail berson cyn gosod archebion (lefelau gwahanol o awdurdod o bosibl gan ddibynnu ar werth y pryniant/ contract);
- Gwirio hanes cyflenwyr cyn gosod archeb arall;

- Adolygiad gan arbenigwr allanol/ adolygiad gan gymar (cyn gosod archeb/ llofnodi contract);
- Adolygiad/ cymeradwyaeth gan fwrdd cyfarwyddwyr/ gweithredol;
- Trothwyon, neu ffactorau eraill, sy'n pennu pa un a ddylid rhedeg hysbyseb agored (gwahoddiad i roi dyfynbris neu wahoddiad i dendro) yn hytrach na chysylltu'n uniongyrchol â darpar gontractwyr penodol.
- Buddiolwyr sydd y tu hwnt i gwmpas y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus, er bod rhaid i awdurdodau nad ydynt yn contractio ddefnyddio arferion teg ac agored, gan gynnwys tendro cystadleuol, wrth ymrwymo i gontractau o unrhyw fath y bwriadwch chi hawlio arian gan y Cronfeydd Strwythurol.

Yn absenoldeb polisïau o'r fath mae'r canlynol yn enghraifft orau o ble i ddechrau:

• Rhaid i chi roi proses ar waith sy'n asesu rhinweddau'r bidiau yn ddiduedd: (Achos busnes, gyda rhag-amcangyfrif gwirioneddol o gost ac angen)

Disgrifiad contract sy'n anwahaniaethol, ni allwch gyfeirio at frand penodol, cymhwyster, ardystiad tarddiad penodol neu nodau masnach; er mwyn dangos cydnabyddiaeth gydnabyddedig, dylech ei gwneud yn glir y bydd yr un cyfwerth yr un mor ddilys (Tystiolaeth o ymgysylltu cyn tendro a / neu ymchwil marchnad, Manyleb Gofyniad

• Dylunio'r broses fel nad oes gwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol i gynigwyr gan Aelod-wladwriaethau eraill, e.e. Wrth ddatgan bod yn rhaid i'r cwmni fod yn Gymry

• Darparu'r un wybodaeth am gyfle y contract i bawb sydd â diddordeb (gan ddarparu'r holl wybodaeth ymlaen llaw, gan gynnwys gwerth amcangyfrifedig lle bo'n bosibl, yn y cyfarwyddiadau i Gyfynwyr / Manyleb / Hysbyseb / Hysbysiad Contract), gan sicrhau bod yr holl ddogfennau ar gael yn rhydd yn yr un lle, dogfennu a chyhoeddi unrhyw ohebiaeth neu atebion i eglurhad i bob Cynigydd â diddordeb?

• Rhoi terfynau amser priodol ar waith i ganiatáu i gynigwyr ystyried y contract a chyflwyno cais ystyrlon. Yn ogystal â sicrhau bod unrhyw estyniadau / diwygiadau i'r hysbysiad yn cael eu cyfleu i bob ymgeisydd posibl (gan gadw cofnod o ymadroddion o fuddiannau / cais i gymryd rhan)

• Cofnodi'n ysgrifenedig a Rheoli gwrthdaro buddiannau posibl (gweler adran 36.3.6)

• Sicrhau bod rheolau perthnasol y broses ymgeisio, gan gynnwys meini prawf

dyfarnu, yn cael eu cyfathrebu'n ysgrifenedig i ddarpar gynigwyr o'r cychwyn (Hysbyseb / Hysbysiad Contract)

• Gwneud cais am y rheolau prosesu cynnig cyfathrebiedig yn yr un modd i bob ymgeisydd trwy gydol y broses (dogfen werthuso tendr, copïau o gyfathrebu, cyfweliadau, cyflwyniadau a gynhelir gyda Chynigwyr)

• Dyfarnu'r contract i gynigydd yn ôl teilyngdod eu cais ac yn unol â'r rheolau gweithdrefnol a nodir ar ddechrau'r broses a chadw tystiolaeth i gadarnhau sut y gwnaethpwyd y penderfyniad (cadw'r holl geisiadau a dderbyniwyd, papur cyfiawnhad sy'n dangos penderfyniadau allweddol a gymerwyd a pam, llythyrau dyfarnu, hysbysiad dyfarnu / cyhoeddiadau)

Mae angen i'r rheolau fod yn ddigon manwl a gweithdrefnol o ran eu natur i alluogi archwiliadau/ gwiriadau i ganfod pa un a gafodd y rheolau eu dilyn ai peidio. Felly ni fyddai polisïau neu strategaethau 'lefel uchel' (h.y. 'bydd staff yn ystyried gwerth am arian') yn cyflawni'r gofyniad hwn.

Mae dogfennu'r broses gaffael gyfan a chyfiawnhau pob penderfyniad allweddol yn ofyniad hanfodol i sicrhau y gellir gwirio neu archwilio rheolaidddeb gwariant.

Dogfen ddefnyddiol / ddefnyddiol:
http://gov.wales/docs/wefo/publications/151005publicprocurementguidance.pdf

Yn gryno: Os nad yw buddiolwr yn Awdurdod Contractio ac nad yw'n ymgymryd â chontract cyhoeddus â chymhorthdal yna nid yw'n ddarostyngedig i reolau caffael cyhoeddus. Nid yw WEFO yn rhagnodi unrhyw reolau neu weithdrefnau penodol ar sut mae angen i'r cwmni i gynnal ei weithdrefnau ar wahân i ddangos gwerth am arian, cadw at safonau gofynnol WEFO a rheoli gwrthdaro buddiannau. Os oes gan y buddiolwr ei weithdrefnau caffael ei hun ar waith, dylent hefyd gadw at neu ddilyn y gweithdrefnau hyn ar gyfer eu prynu. Bydd archwiliadau / gwiriadau yn gwirio a yw buddiolwr wedi dilyn ei weithdrefnau arferol a nodir yn eu polisi caffael yn ogystal â safonau gofynnol WEFO.

Contractau Cyhoeddus a osodir gan gyrff preifat

Er nad yw cyrff yn y sector preifat fel arfer yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth caffael cyhoeddus, mae dau eithriad:

a) Contractau Cyhoeddus Cymorthdaledig

Ystyr contract cyhoeddus cymorthdaledig yw contract a ddyfarnwyd gan gorff ac eithrio Awdurdod Contractio/ Endid Contractio ond:

- Lle mae awdurdod contractio'n cyfrannu **mwy na 50%** o'r swm a fydd yn cael ei dalu o dan y contract yn uniongyrchol (mae hyn yn cynnwys y cyfraniad o Gronfeydd yr UE ond mae hefyd yn cynnwys cyfraniadau eraill a fydd yn cael eu darparu gan awdurdodau contractio eraill); **ac**
- mae'r contract yn 'gontract gwaith cyhoeddus cymorthdaledig' ar gyfer gweithgareddau peirianneg sifil, gwaith adeiladu ar gyfer ysbytai; cyfleusterau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer chwaraeon, adloniant a hamdden; adeilad ysgol a phrifysgol; neu adeiladau at ddibenion gweinyddol; neu
- mae'r contract yn gontract gwasanaethau cyhoeddus cymorthdaledig mewn perthynas â'r contract gwaith cyhoeddus cymorthdaledig (a ddiffinnir uchod).

Lle mae hyn yn berthnasol, mae'r awdurdod cyhoeddus sy'n dyfarnu'r grant dan orfodaeth i'w gwneud yn un o amodau'r grant bod y corff cymorthdaledig (corff preifat) yn cydymffurfio â deddfwriaeth caffael cyhoeddus fel pe bai'n awdurdod cyhoeddus.

Gweler Rheoliad 13 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 am fanylion pellach.

b) Contractau Consesiwn Gwaith Cyhoeddus

Contractau yw'r rhain lle mae contractwr yn cael hawliau i ymelwa ar y gwaith – e.e. tollffyrdd, tollbontydd – a lle mae'n ofynnol i'r consesiynydd buddugol gydymffurfio â gofynion hysbysebu penodol yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) ar gyfer contractau gwaith y mae'n bwriadu eu dyfarnu i drydydd partïon.

36.3.3 Sefydliadau o fewn cwmpas Datganiad Caffael Cyhoeddus Cymru (WPPS)

Atgoffir sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, yn unol â'r datganiad gan y gweinidog ar Bolisi Caffael Cymru (6 Rhagfyr 2012), bod disgwyl i'r **sector cyhoeddus yng Nghymru** hysbysebu pob contract dros £25,000 ar www.**GwerthwchiGymru.co.uk** ac ymlynu wrth y darpariaethau eraill a nodir yn y datganiad, gan gynnwys:

- Budd i'r Gymuned – mae'n rhaid i werth ychwanegol trwy bolisi Budd i'r Gymuned fod yn ystyriaeth hanfodol ym mhob gweithgarwch caffael cyhoeddus.
- Defnyddio'r dull SQUID fel y dull safonol o ddethol cyflenwyr.
- Sicrhau bod sgiliau ac adnoddau digonol yn eu lle i gyflawni gweithgarwch effeithiol o ran caffael a rheoli contractau.

36.3.4 Safonau Gofynnol ar gyfer yr holl Weithgarwch Prynu a Chaffael

Mae rhaid i fuddiolwyr ymlynu bob amser wrth eu strategaeth, polisïau a safonau caffael sefydledig hwy eu hunain yn ogystal â safon ofynnol WEFO ar gyfer pryniadau.

Rhaid i holl fuddiolwyr hefyd gadw at y rheolau 'gwrthdaro buddiannau' yn adran 36.3.6.

Yn niffyg unrhyw ddeddfwriaeth a rheolau caffael perthnasol ar lefel yr UE, y DU neu Gymru, rydym yn caniatáu i fuddiolwyr ddefnyddio'u polisïau a'u gweithdrefnau sefydledig hwy eu hunain os oes dogfennau ategol ar gael, pan ofynnir amdanynt, i ddangos bod y gweithdrefnau hynny wedi cael eu dilyn gan y buddiolwr ar gyfer ei wariant/ contractau ei hun nas cefnogir gan arian cyhoeddus.

Mae'r tabl isod yn nodi'r safonau gofynnol:

Gwerth Prynu	**Gofynion**
< £5000 (net o TAW)	Rhaid cael un dyfyniad ysgrifenedig neu lafar
> £5000 (net o TAW)	Rhaid cael isafswm o dri dyfynbris ysgrifenedig neu dri gwahoddiad i gyflwyno bid / tendr (oni bai ei fod yn methu â chanfod tri darpar ddarparwr)
Cytundebau Fframwaith	Pan ddefnyddir cytundeb fframwaith sefydledig, rhaid glynu at y gweithdrefnau 'galw i ffwrdd' a bennir yn y cytundeb hwnnw hefyd (Sylwer: Bydd caffael y Cytundeb Fframwaith yn ddarostyngedig i'r un gofynion archwilio)

Mae'r trothwy o £ 5,000 yn golygu cyfanswm gwerth y pryniant, y gorchymyn neu'r contract (net o TAW lle y bo'n berthnasol). Nid yw'n golygu gwerth grant yr UE na'r gefnogaeth gyhoeddus a dderbynnir gan y buddiolwr.

Ar gyfer 'Contractau Cyhoeddus' yn unig

£25,000 hyd at Drothwyon Caffael Cyhoeddus perthnasol yr UE

Proses dendro ffurfiol, hysbysebu ar GwerthwchiGymru, ceisio isafswm o 3 chynnig (y weithdrefn ddyfarnu – dyfarnu contract)

[Mae'r holl ffigyrau trothwy yn rhai cyn ychwanegu TAW].

Os ydych yn methu â chael tri dyfynbris/ tri chynigiwr posibl

Os nad ydych yn gallu cael tri dyfynbris, mae'n rhaid i chi gadw cofnod o'r rhesymau â chyfiawnhad addas pam nad oeddech yn gallu cael tri chyflenwr/ darparwr posibl.

Os mai dim ond un darparwr/ cyflenwr sydd ar gael neu'n ddichonadwy (e.e. offer neu wasanaethau unigryw, arbenigol/ addasedig ar gael gan un cwmni yn unig) mae'n rhaid i chi gadw cofnodion i egluro a chyfiawnhau'r rhesymau dros ddod i'r

casgliad nad oes darparwyr eraill ar gyfer y fanyleb neu'r cynnyrch a ddymunir/ dim cystadleuaeth/ dim marchnad (a bydd hyn yn cael ei brofi mewn archwiliadau diweddarach).

Lle gellir negodi'r pris (h.y. lle nad yw'n dariff safonol/ pris catalog penodedig gan y gweithgynhyrchwr etc) mae'n rhaid bod ymgais hefyd i negodi'r pris isaf posibl ac mae'n rhaid cadw tystiolaeth i ddangos hyn.

36.3.5 Sefydliadau /Busnesau Bach a Chanolig (Buddiolwyr) sy'n cael Cymorth Ariannol Uniongyrchol drwy gyfrwng Cynllun Grant sy'n Ddarostyngedig i Reolau Cymorth Gwladwriaethol

Yng Nghymru caiff gweithrediadau o'r fath eu rheoli gan Gorff Cyfryngol. Mae rhagor o wybodaeth yn y ddogfen 'Modelau Cyflawni' gan WEFO.

Caiff sefydliadau / busnesau bach a chanolig (BBaCh) fabwysiadu'r polisïau caffael y maent wedi'u sefydlu eu hunain - gan gynnwys polisïau sy'n galw am lai a/neu fwy na'r 3 dyfynbris gofynnol. Y gofyniad sylfaenol yw sicrhau'ch bod yn cymhwyso'ch proses gaffael yn briodol. Caiff eich polisïau eu hasesu gan Gorff Cyfryngol i sicrhau bod y pris yn rhesymol, bod contractwr priodol wedi'i ddewis a'ch bod yn sicrhau gwerth am arian.

Os nad oes gan y sefydliad / BBcCH broses gaffael benodol, rhaid mabwysiadu system Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau gwerth mwy neu lai na £5,000, fel y nodir yn 36.3.4 uchod. Os nad oes modd darparu tri dyfynbris am gontract gwerth llai na £5,000, gellir dyfarnu'r contract, cyhyd ag y bo'r BBaCh a'r Corff Cyfryngol yn cadw cofnodion sy'n dangos:

- pam nad oedd modd darparu tri dyfynbris, a
- bod y BBaCh a'r Corff Cyfryngol yn argyhoeddedig bod y pris y cytunwyd arno'n cynnig gwerth am arian

Sylwch: Os yw sefydliadau / BBaCh yn mabwysiadu system Llywodraeth Cymru, bydd disgwyl iddynt weithio gyda'r Corff Cyfryngol i ddatblygu trefniadau caffael / prynu priodol, gan sicrhau y bydd trefniadau prynu yn y dyfodol yn glynu wrth yr egwyddor o sicrhau gwerth am arian.

Rhaid cadw at y rheolau'n ymwneud â gwrthdaro buddiannau (a amlinellir yn 36.3.6. isod) drwy gydol y broses gaffael/prynu.

36.3.6 Ymdrin â Gwrthdaro Buddiannau (Gwirioneddol, Posibl neu Ganfyddedig)

Mae'n bosibl y bydd staff, rheolwyr neu gyfarwyddwyr/ perchnogion buddiolwr, neu bobl sy'n gysylltiedig â hwy (megis perthnasau, partneriaid busnes neu ffrindiau) yn dymuno tendro am gontract sy'n cael ei gynnig gan y buddiolwr.

Nid yw hyn yn waharddedig ond bydd angen i'r buddiolwr sefydlu trefniadau diogelu priodol er mwyn cynnal y weithdrefn gaffael mewn ffordd mor agored a thryloyw â phosibl.

Os oes gan staff, rheolwyr neu gyfarwyddwyr/ perchnogion y buddiolwr, neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â hwy, fuddiant mewn unrhyw gynnig posibl am gontract a gynigir gan fuddiolwr:

- mae'n rhaid i'r person hwnnw **ddatgan y buddiant** yn ysgrifenedig wrth Gadeirydd y buddiolwr (neu'r swyddog uchaf ei rent os mai'r Cadeirydd yw'r unigolyn dan sylw), gyda chopi i'r swyddog gweithredol uchaf ei reng (Prif Weithredwr/ Prif Swyddog Gweithredu/ Rheolwr Gyfarwyddwr etc). Os oes gan y buddiolwr bolisïau presennol ar ymdrin â gwrthdaro buddiannau posibl, gellir hysbysu'r swyddogion a enwir yn y polisi hwnnw ynghylch y gwrthdaro posibl.
- Ni ddylai'r person â buddiant **gymryd unrhyw ran o gwbl** yn unrhyw un o'r gweithdrefnau tendro;
- dylai'r buddiolwr ystyried sut y dylai ei ganllawiau caffael gael eu cymhwyso i sicrhau nid dim ond bod y weithdrefn yn deg i'r holl gynigwyr ond y gall gael ei **gweld i fod** yn deg hefyd;
- pe bai'r contract fel arfer yn cael ei ddyfarnu trwy weithdrefn tendr sengl/ dyfarnu contract yn uniongyrchol, (h.y. llai na £5000 (net o TAW)); argymhellir bod y buddiolwr yn ceisio dyfynbrisiau ysgrifenedig gan o leiaf ddau gyflenwr/ darparwr arall i ddangos bod y contract wedi'i brisio'n deg, yn seiliedig ar y farchnad;
- mae'n rhaid i bob cam yn y weithdrefn gael ei gofnodi'n ffurfiol ac mae'n rhaid i'r cofnodion gael eu cadw ar ffeil a bod ar gael i'w harchwilio.

Diben y canllawiau hyn yw sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn ffordd deg a phriodol ac nad yw uniondeb y buddiolwr yn cael ei danseilio.

Os oes gan y buddiolwr weithdrefnau gwrthdaro buddiannau sydd, o leiaf, yn cyrraedd yr un safon ag a nodir uchod, gellir dilyn ei weithdrefnau ei hun.

<u>Y pris isaf ynteu'r gwerth gorau am arian?</u>

Mae'n rhaid i chi seilio eich pryniannau ar y gwerth gorau am arian gan ystyried ansawdd y gwasanaeth, nwyddau neu waith a gynigir (y 'gymhareb orau rhwng pris ac ansawdd') **neu** ar y pris isaf.

Ar gyfer y gymhareb orau rhwng pris ac ansawdd, mae pris yn agwedd hanfodol – ynghyd â meini prawf o ran ansawdd, megis ansawdd technegol, costau rhedeg, amseroedd cyflawni, gwasanaeth ar ôl gwerthu a chymorth technegol etc – ond nid yw'n awtomatig yn angenrheidiol dethol y cynnig â'r pris isaf.

Mae'n rhaid i'r meini prawf sy'n diffinio 'ansawdd' fod yn eglur ac yn gyson â diben arfaethedig y pryniant.

Rheolau cyffredinol ynglŷn â chyflawni gweithgareddau a gefnogir gan ESF/ERDF trwy ddarpariaeth wedi'i chaffael ('darpariaeth ar gontract allanol'/ darpariaeth o dan gontract)

Os nad oes gennych y galluedd neu'r gallu i reoli neu weithredu rhai elfennau o'r prosiect eich hun, gallwch gontractio cwmnïau allanol i ddarparu'r gwasanaethau, nwyddau neu waith, yn amodol ar y rheolau isod.

Gall contractau a osodir ar delerau masnachol safonol gynnwys elw ac nid oes yn rhaid i gyflenwr gydymffurfio â'r rheolau cymhwystra yn y ddogfen hon oni bai eich bod chi'n gofyn iddynt wneud hynny. Mae contract a osodwyd yn briodol, gan ymlynu wrth egwyddorion tryloywder a chyfle cyfartal ar gyfer yr holl gynigwyr posibl, yn darparu sicrwydd o werth am arian a defnydd priodol o gronfeydd yr UE.

Mae'n rhaid i fuddiolwyr sicrhau bod y contractwr llwyddiannus yn cytuno i ddarparu'r hawliau mynediad angenrheidiol ar gyfer staff gwiriadau ac archwilwyr i gynnal camau gwirio, adolygiadau, archwiliadau ac ymchwiliadau mewn perthynas â'r gweithgareddau gyda chymorth yr UE a gyflawnir gan gontractwr (cyflawni gweithgareddau prosiect trwy ddarpariaeth wedi'i chaffael), gan gynnwys amodau cysylltiedig sy'n ymwneud â'r UE megis cyhoeddusrwydd/ byrddau biliau a.y.b. Cyfrifoldeb y buddiolwr yw sicrhau bod y rhwymedigaeth hon yn cael ei derbyn gan y contractwr cyn bod contractau'n cael eu dyfarnu.

Contractau a osodwyd cyn dechrau eich prosiect

Gallwch ddefnyddio contractau presennol, gan gynnwys contractau fframwaith/ trefniadau yn ôl y galw, os cawsant eu gosod yn wreiddiol mewn modd a oedd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion caffael cyhoeddus y CE bryd hynny. Os nad oeddech yn 'awdurdod contractio/ endid contractio' fel a ddiffinnir yng nghyfarwyddebau'r CE, mae'n rhaid i chi ddangos tystiolaeth bod y broses dyfarnu contract yn cydymffurfio â pholisïau eich sefydliad eich hun ac yn cynrychioli gwerth am arian.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r cofnodion sy'n gysylltiedig â'r broses gaffael wreiddiol fod ar gael i'w harchwilio ac y byddant yn cael eu hystyried yn rhan o gofnodion eich prosiect. Mae mynediad at y cofnodion hyn yn ofynnol ar gyfer y cyfnod cadw dogfennau a gadarnhawyd yn eich cytundeb cyllid.

Os nad ydych yn gallu cael mynediad at y cofnodion caffael gwreiddiol na'u hadfer, neu os na chafodd y contract ei osod mewn modd a oedd yn cydymffurfio, mae costau'r contract yn anghymwys ar gyfer cymorth o gronfeydd yr UE.

Caiff y rheolau eu crynhoi yn y tabl hwn ac maent yn gysylltiedig â'r buddiolwr sy'n gyfrifol am y weithdrefn gaffael/ brynu – unig fuddiolwr, buddiolwr arweiniol neu gyd-fuddiolwr.

#	Cwestiwn	Ateb
1	Ydych chi'n awdurdod contractio/ awdurdod contractio is-ganolog fel a ddiffinnir yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015?	**YDYM** > Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r rheoliadau contractau cyhoeddus, gan gynnwys contractau islaw trothwyon perthnasol yr UE. Os ydych chi o fewn cwmpas Datganiad Polisi Caffael Cymru, mae disgwyl i chi hefyd ddilyn y gofynion hynny yn ogystal â'ch polisïau a gweithdrefnau mewnol chi eich hun. **NAC YDYM** – Ewch i 2
2	A yw eich sefydliad o fewn cwmpas Datganiad Polisi Caffael Cymru?	**YDY** – Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â gofynion Datganiad Polisi Caffael Cymru yn ogystal â'ch polisïau a gweithdrefnau mewnol chi eich hun. **NAC YDY** – Ewch i 3
3	Ydych chi'n gwmni preifat sy'n gosod 'contract cyhoeddus cymorthdaledig'?	**YDYM** – Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn ogystal â'ch polisïau sefydlwyd a gweithdrefnau mewnol chi eich hun. **NAC YDYM** – Ewch i 4
4	Oes gennych chi reolau mewnol sefydledig ynglŷn â	**OES / GALLWN** –

	phrynu/ caffael sy'n cynnwys cael dyfynbrisiau cystadleuol a/neu wahodd datganiadau o ddiddordeb/ tendrau am gontractau? Allwch chi ddarparu tystiolaeth, os oes angen, bod y gweithdrefnau hyn wedi cael eu dilyn wrth brynu/ caffael ar gyfer contractau nas cefnogir gan arian cyhoeddus allanol?	Gallwch ddilyn eich polisïau a gweithdrefnau mewnol sefydledig chi eich hun yn amodol ar y **safonau gofynnol** **NAC OES / NA ALLWN** – Mae'n rhaid i chi ddilyn y rheolau a nodir yn 36.3.4.

Cysylltwch â ni i gael eglurhad os nad yw eich sefyllfa arbennig chi wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon.

36.4 Cymorth Gwladwriaethol

Mae Cymorth Gwladwriaethol yn derm gan y CE ar gyfer adnoddau cyhoeddus a ddarperir yn ddetholus ar gyfer ymgymeriadau masnachol sydd â'r potensial i effeithio ar gystadleuaeth a masnach o fewn yr UE.

Gallai'r math hwn o gymorth cyhoeddus – Cymorth Gwladwriaethol – gamystumio'r farchnad, a fyddai yn ei dro'n gallu arwain at lai o gystadleurwydd ar gyfer busnesau, llai o arloesedd ac, yn y pen draw, prisiau uwch i ddefnyddwyr.

Mae'r diffiniad o Gymorth Gwladwriaethol yn deillio o Erthygl 107 a 108 o Gytuniad yr UE ac mae'n trosi'n 5 prawf a nodir isod. Mae'n rhaid bodloni **pob un o'r pum prawf** i'r rheolau ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol fod yn berthnasol.

1. Rhoddir cymorth gan un o Aelod-wladwriaethau'r UE NEU drwy adnoddau gwladwriaethol megis cronfeydd Ewropeaidd a reoli gan weinyddiaethau cyhoeddus cenedlaethol neu drwy ddosbarthu arian y loteri.
2. Mae'r cymorth yn rhoi mantais i'r derbynnydd.
3. Mae'n ffafrio rhai ymgymeriadau masnachol penodol NEU weithredoedd i gynhyrchu rhai nwyddau penodol h.y. mae'n ddetholus o ran ei natur.
4. Mae'n camystumio cystadleuaeth NEU mae ganddo'r potensial i gamystumio cystadleuaeth.
5. Mae'r gweithgaredd yn fasnachadwy rhwng Aelod-wladwriaethau'r UE ac mae gan y cymorth y potensial i effeithio ar y fasnach honno.

Mae cymhwysiad eang i Gymorth Gwladwriaethol gan y gall ymwneud ag unrhyw gymorth a ddarperir ar gyfer ymgymeriadau. Y diffiniad o 'ymgymeriad' yw unrhyw endid, ni waeth beth fo'i statws cyfreithiol, sy'n cyflawni gweithgareddau economaidd neu sy'n cystadlu â sefydliadau masnachol.

Nid oes yn rhaid i'r ymgymeriad fod yn gwneud elw cyn belled â bod y gweithgaredd a gyflawnir yn un **a chanddo gystadleuwyr masnachol mewn egwyddor**. Gall sefydliadau cyhoeddus, elusennau, prifysgolion, endidau gwirfoddol, mentrau cymdeithasol a sefydliadau dielw oll gael eu hystyried yn 'ymgymeriadau' pan fônt yn cyflawni gweithgaredd economaidd.

Mae'r potensial i gamystumio cystadleuaeth ac effeithio ar feini prawf masnach yn eang iawn – mae gan hyd yn oed symiau bach iawn o gymorth y potensial i gamystumio cystadleuaeth ac mae'n ddigon bod cynnyrch neu wasanaeth yn cael ei fasnachu rhwng Aelod-wladwriaethau hyd yn oed os nad yw derbynnydd y cymorth ei hun yn masnachu ag Aelod-wladwriaethau eraill.

Er bod y Cytuniad Ewropeaidd yn nodi bod Cymorth Gwladwriaethol yn anghydnaws â'r farchnad gyffredin, ceir amgylchiadau lle gellir caniatáu Cymorth Gwladwriaethol.

Caiff yr amgylchiadau hyn eu nodi yn y **Rheolau Cymorth Gwladwriaethol** – cyfres o fframweithiau, canllawiau ac esemptiadau. Mae'r rheolau hyn yn galluogi Aelod-wladwriaethau i ddarparu cymorth i gyflawni canlyniadau polisi a ddymunir.

Lle ystyrir bod y cymorth yn Gymorth Gwladwriaethol, mae angen i ddarparwr y cymorth/ gweinyddwr y cymorth sicrhau bod y cymeradwyaethau, esemptiadau a/neu hysbysiadau angenrheidiol yn eu lle.

Ni allwn ond dyfarnu cyllid lle'r ydym yn fodlon bod y potensial i Gymorth Gwladwriaethol fod yn bresennol wedi cael ei asesu'n briodol ac, os yw'n ofynnol, bod cymorth o'r fath yn cael ei ganiatáu gan y rheolau Cymorth Gwladwriaethol. Gallai Cymorth Gwladwriaethol fod yn bresennol ar sawl lefel mewn gweithrediad WEFO:

- Lle mae WEFO yn dyfarnu cymorth ariannol i fuddiolwr.
- Lle mae WEFO yn dyfarnu cymorth ariannol i fuddiolwr arweiniol sy'n trosglwyddo'r cymorth i un neu fwy o gyd-fuddiolwyr a gymeradwywyd gan WEFO i gyflawni rhai elfennau o'r gweithrediad.
- Lle mae WEFO yn awdurdodi 'Corff Cyfryngol' i ddyfarnu cymorth ariannol i fuddiolwyr ar ran WEFO.
- Lle mae sefydliad cyflawni, sydd wedi'i gontractio gan un o fuddiolwyr WEFO, yn darparu cymorth ariannol neu anariannol ar gyfer defnyddwyr terfynol/ derbynyddion terfynol sy'n bodloni'r pum prawf ar gyfer Cymorth Gwladwriaethol, e.e. lle mae darparwr gwasanaethau o dan gontract yn cael ei ddefnyddio i ddosbarthu cymorth ariannol i gwmnïau ar ran y buddiolwr.
- Mae'n hanfodol bod Buddiolwyr yn rheoli unrhyw ofynion Cymorth Gwladwriaethol yn y ffordd briodol. Rhaid i fuddiolwyr sicrhau eu bod yn gweithredu'r prosesau a'r gweithdrefnau cywir i reoli triniaeth unrhyw gymorth gwladwriaethol.
- Ar gyfer Buddiolwyr sy'n defnyddio cynllun GBER cofrestredig yna mae'n rhaid iddynt sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r gweithgaredd sy'n cael ei wneud yn yr

Ymgyrch. Rhaid i'r Buddiolwr sicrhau eu bod yn ysgrifennu at y sefydliad sy'n derbyn y cymorth ac yn penderfynu faint o gymorth a gawsant hyd yn hyn a chynnal cofnod o hyn. Mae angen i'r Buddiolwr hefyd gadw cofnod o'r holl gymorth a roddir a chwblhau ffurflen flynyddol i'r Tîm Cymorth Gwladwriaethol bob blwyddyn.

- Ar gyfer Buddiolwyr sy'n defnyddio'r cynllun De-Minimis mae trothwy 200,000 Ewro ac mae'n rhaid i Fuddiolwyr sicrhau nad yw'r derbynnydd cymorth yn fwy na'r trothwy hwn dros gyfnod ariannol 3 blynedd. Rhaid i'r Buddiolwr sefydlu faint o gymorth a gawsant hyd yma cyn y gallwch chi roi cymorth iddynt. Rhaid i'r Buddiolwr hefyd ysgrifennu at y derbynnydd cymorth a rhoi gwybod iddynt am werth y cymorth de-minimis a roddwyd iddynt.
- Am ragor o wybodaeth fanwl am Gymorth Gwladwriaethol, ewch i wefan Cymorth Gwladwriaethol trwy'r ddolen ganlynol: **http://gov.wales/funding/state-aid/?lang=en**

Nodi: O fis Gorffennaf 2016 mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau gyhoeddi buddiolwyr yr holl ddyfarniadau cymorth unigol sy'n uwch na € 500,000 a hysbyswyd i Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r offeryn adrodd ar-lein a ddarperir ar

http://gov.wales/funding/state-aid/gber/tryloywder/?lang=en

37. Rheolau ac Amodau ar gyfer Cymorth Technegol

Lle disgrifir hynny yn y cynllun busnes/ cais am gyllid a lle'i cymeradwywyd gennym ni, gall y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd gefnogi camau gweithredu ar gyfer:

- paratoi, rheoli, monitro a gwerthuso rhaglenni;
- cyfarfodydd y pwyllgor monitro rhaglenni ac unrhyw is-bwyllgorau;
- mesurau gwybodaeth a chyfathrebu ar gyfer rhaglenni, gan gynnwys costau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd;
- rhwydweithio sy'n gysylltiedig â gweithredu'r rhaglenni'n effeithlon ac yn effeithiol;
- datrys cwynion;
- rheoli ac archwilio rhaglenni, gan gynnwys mesurau atal twyll a llygredigaeth;
- camau gweithredu i leihau'r baich gweinyddol ar fuddiolwyr, gan gynnwys cyflwyno systemau cyfnewid data electronig ('e-Gydlyniant');
- dim ond pan ragwelir hynny yn y Rhaglenni Gweithredol a fabwysiadwyd gan y Comisiwn, camau gweithredu sy'n atgyfnerthu gallu awdurdodau rhaglenni, a buddiolwyr, i weinyddu a defnyddio Cronfeydd yr UE; a
- camau gweithredu i atgyfnerthu gallu, a chyfnewid arferion gorau rhwng, partneriaid perthnasol; a
- tâl ar gyfer aelodau arbenigol a benodwyd rwy broses gyhoeddus a chadeirydd y pwyllgor monitro rhaglenni.

Gall y camau gweithredu hyn ymwneud â chyfnod rhaglenni 2014-2020 yn ogystal â chyfnod rhaglenni blaenorol neu ddilynol, os yw hyn wedi'i gynnwys yn y cynllun busnes cymeradwy.

Nid yw cymorth ar ffurf Cymorth Technegol wedi'i gynnwys yn y rheolau sy'n ymwneud â refeniw a ddisgrifir yn Adran 32.

Ni all Cymorth Technegol y Cronfeydd Strwythurol gefnogi gweithgareddau'r Rhaglen Datblygu Gwledig – ac mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd – ac felly defnyddir y trefniant canlynol i ddyrannu costau gweithgareddau cyffredin sydd o fudd i'r holl Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd a reolir gan Lywodraeth Cymru, megis y pwyllgor monitro rhaglenni sengl a gweithgareddau eraill i gydgysylltu'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.

Dyrennir costau ar sail pro rata ar gyfer pob un o bum rhaglen y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd a reolir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru (dwy raglen ESF, dwy raglen ERDF, un rhaglen EAFRD), wedi'u mesur yn ôl y gyfran ganrannol pro rata o **gyfraniadau cyllid yr UE ar y cyfan** fel a nodir yng Nghytundeb Partneriaeth y DU a fabwysiadwyd gan y CE yn 2014.

Gall gweithgareddau gael eu gweithredu y tu allan i ardal y rhaglen gyllid, ond o fewn yr UE, ar yr amod bod y prosiect er budd y rhaglen weithredol sy'n darparu'r cyllid.

Gall gwariant mewn perthynas â Chymorth Technegol gael ei ysgwyddo y tu allan i'r UE os yw o fudd i ardal y rhaglen ond mae'n rhaid i chi geisio ein cymeradwyaeth ni i'r math hwn o wariant ymlaen llaw er mwyn i ni allu cadarnhau ei fod yn angenrheidiol a gwirio y gellir sefydlu trefniadau rheoli ac archwilio priodol.

Caiff camau gweithredu mewn perthynas â Chymorth Technegol sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau a thasgau sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithredu rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol eu cyflawni gan:

- yr awdurdod rheoli (WEFO)
- yr awdurdod ardystio (WEFO)
- yr awdurdod archwilio (Llywodraeth Cymru, Tîm Archwilio'r Cronfeydd Ewropeaidd)
- unrhyw gyrff cyfryngol sy'n cyflawni swyddogaethau a thasgau rheoli wedi'u dirprwyo

Mewn rhai achosion, gall cyrff eraill gyflawni rhai o'r swyddogaethau hyn, er enghraifft cydgysylltu'r broses o weithredu rhaglenni, ond rhaid peidio â defnyddio cronfeydd cymorth technegol i gefnogi **swyddogaethau nad ydynt yn angenrheidiol** ar gyfer gweithredu rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn effeithlon ac yn effeithiol.

ACHOSION PENODOL

Cyrff Cyfryngol

Gellir darparu cymorth technegol ar gyfer costau cymwys a ysgwyddwyd wrth gyflawni'r swyddogaethau a thasgau rheoli a ddirprwywyd gan WEFO. Mae'n rhaid i gostau cymwys y corff cyfryngol fod yn gysylltiedig dim ond â'r gweithrediadau a enwir yn benodol ac a gytunwyd yn ysgrifenedig gyda WEFO.

38. Cyfuno Cymorth o fwy nag un o Gronfeydd yr UE

Hyblygrwydd ar draws cronfeydd (ERDF ac ESF)

Mae'n bosibl i ERDF gefnogi, mewn modd cyflenwol, ran o'ch gweithrediad ERDF y mae ei gweithgareddau'n gymwys i gael cymorth ESF.

Yn yr un modd, mae'n bosibl i ESF gefnogi, mewn modd cyflenwol, ran o'ch gweithrediad ESF y mae ei gweithgareddau'n gymwys i gael cymorth ERDF.

Os byddwn yn cymeradwyo'r hyblygrwydd hwn, byddwch wedyn yn gallu gweinyddu'r buddsoddiad aml-gronfa hwn fel un gweithrediad WEFO.

Os caiff yr opsiwn hwn ei gymeradwyo gennym ni, y sail i gymhwystra yw'r rheolau sy'n berthnasol i'r **gronfa y mae'r gweithgareddau (fel arfer) yn gymwys ar ei chyfer**, ac mae'n rhaid i'r rhain fod yn angenrheidiol er mwyn gweithredu'r gweithrediad yn llwyddiannus ac yn uniongyrchol gysylltiedig ag ef.

Er enghraifft, os yw'r rhaglen ESF yn cefnogi gweithrediad ESF (80% o gyfanswm costau'r prosiect) a hefyd yn cefnogi rhai gweithgareddau sydd fel arfer yn gymwys o dan ERDF (20% o gyfanswm costau'r prosiect) – bydd rheolau cymhwystra ERDF yn berthnasol i'r 20% o weithgareddau ERDF sy'n digwydd o fewn y gweithrediad ESF hwn.

Ni allwn ond defnyddio'r hyblygrwydd hwn hyd at derfyn o 10% o gyfraniad grant yr UE a ddyrennir i bob blaenoriaeth o fewn y Rhaglenni Gweithredol ac felly dylech wirio gyda ni i weld a oes cyfle i gynnig y math hwn o hyblygrwydd i chi.

Os byddwn yn cymeradwyo'r hyblygrwydd hwn ar draws cronfeydd, gallwn ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw werthusiadau dilynol o brosiectau'n ystyried ac yn adrodd ar effeithiolrwydd y cymorth ar draws cronfeydd.

Mwy o wybodaeth: Gweler erthygl 98 o Reoliad yr UE 1303/2013

Cyllido eich prosiect o fwy nag un o Gronfeydd neu Raglenni'r UE

Mae'n bosibl i'ch prosiect gael cymorth gan yr UE o un neu fwy o'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd neu o un neu fwy o'r rhaglenni ac o offerynnau eraill yr UE, ar yr amod nad yw pob eitem o wariant sydd wedi'i chynnwys mewn cais

am ad-daliad o un o’r Cronfeydd yn cael cymorth o Gronfa arall neu offeryn arall gan yr UE, na chymorth o’r un Gronfa dan raglen arall.

Yn ogystal â gwahanu’r eitemau o wariant yn eglur, mae’n hanfodol adnabod pa ffynhonnell gyllido sydd wedi creu pa allbynnau, canlyniadau a deilliannau eraill i’r rhaglen.

Ni all cronfeydd eraill yr UE na Chronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd eraill gael eu defnyddio fel cyllid cyfatebol cenedlaethol ar gyfer eich prosiect.

Mae rheolau mwy hyblyg yn bodoli ar gyfer buddsoddiadau a gefnogir gan Horizon 2020 a’r Cronfeydd Strwythurol ond mae hyn y tu allan i gwmpas y nodyn cyfarwyddyd hwn.

ATODIAD A – Gweithrediadau Cydweithredol

Caiff gweithrediad cydweithredol ei reoli, neu ei reoli a'i gyflawni, gan fwy nag un sefydliad, h.y. buddiolwr arweiniol ac un 'cyd-fuddiolwr' neu fwy a gytunwyd gyda ni ymlaen llaw. Gweler ein nodyn cyfarwyddyd ar wahân '**Modelau Cyflawni WEFO 2014-2020**' sydd ar gael ar dudalennau Cyllid yr UE ar wefan Llywodraeth Cymru.

Pan fyddwn yn cymeradwyo gweithrediad cydweithredol, gall costau a gweithgareddau'r sefydliadau partner gael eu cefnogi o gronfeydd yr UE os ydynt yn cydymffurfio â'r holl reolau perthnasol ar gyfer buddiolwyr.

O'n safbwynt ni, y buddiolwr arweiniol sy'n llwyr gyfrifol am ddefnydd cydymffurfiol ac effeithiol o gronfeydd yr UE ond gall y buddiolwr arweiniol sefydlu trefniadau i rannu, neu drosglwyddo, risgiau i'w bartneriaid cydweithredol.

Gall y trefniadau rhannu risgiau hyn gynnwys, er enghraifft, cytuno sut y byddir yn ymdrin â rhwymedigaethau ariannol ar gyfer unrhyw gyllid a gaiff ei ganslo neu ei adennill gennym ni os byddwn yn canfod nad yw rheolau ac amodau cyllido wedi cael eu bodloni ar gyfer y gwariant a gafodd ei ddatgan gan y sefydliadau partner.

Gwariant

Gall costau a ysgwyddwyd ac a dalwyd gan gyd-fuddiolwyr gael eu cynnwys yn hawliadau'r buddiolwr arweiniol am daliadau dim ond os yw'r buddiolwr arweiniol yn fodlon bod y buddiolwyr eraill yn ymwybodol o'r rheolau ar gyfer buddiolwyr a nodir yn y ddogfen hon a'r cytundeb cyllid grant a'u bod mewn sefyllfa i gydymffurfio â hwy.

Gellir cynnwys y costau sy'n cael eu talu a'u talu gan fuddiolwyr ar y cyd yn hawliadau talu'r buddiolwr arweiniol yn unig os yw'r buddiolwr ar y cyd wedi cadarnhau eu bod yn derbyn y rheolau buddiolwyr a nodir yn y ddogfen hon a'r cytundeb ariannu grant, trwy arwyddo'r Atodlen 3 berthnasol yn y cytundeb cyllido ar gyfer y gweithrediad.

Er nad yw buddiolwyr arweiniol yn cynnal 'gwiriadau' o wariant a ddatganwyd gan eu partneriaid – caiff y dasg hon ei chadw ar gyfer WEFO a byddai felly'n arwain at ddyblygu a chostau diangen – mae disgwyl i'r buddiolwr arweiniol:

- Gyflawni camau gwirio rheolaidd i sicrhau bod cyd-fuddiolwyr yn ymlynu wrth delerau'r cytundeb partneriaeth/ cytundeb lefel gwasanaeth.
- Ei fodloni ei hun bod pob cyd-fuddiolwr yn deall y rheolau ac amodau ar gyfer buddiolwyr a nodir yng Nghytundeb Cyllid WEFO a'r rheolau a dogfennau cyfarwyddyd ynglŷn â chymhwystra gwariant.
- Ei fodloni ei hun bod pob buddiolwr wedi sefydlu prosesau a rheolaethau effeithiol i atal a chanfod unrhyw wallau neu dwyll cyn yr adroddir ar wariant cymwys wrth y buddiolwr arweiniol.

- Lle nad yw cyd-fuddiolwr yn meddu ar yr adnoddau neu'r arbenigedd i gyflawni prosesau a rheolaethau o'r fath ei hun, gall y buddiolwr arweiniol ei gynorthwyo i gyflawni'r rheolaethau hyn.
- Dilysu'r gwariant a'r derbyniadau a ddatganwyd gan gyd-fuddiolwyr trwy wirio cyflawnrwydd a chywirdeb rhestrau trafodiadau; cyflawni 'gwiriad rhesymolrwydd' o'r symiau a'r mathau o gostau a gaiff eu hawlio; a cheisio sicrwydd bod costau cymwys yn gysylltiedig dim ond â gweithgareddau/camau gweithredu a gymeradwywyd gennym ni.

Ac eithrio hapwiriadau mewn perthynas â'r uchod, ni ddylai'r buddiolwr arweiniol dystio fel rhan o'r drefn arferol i'r costau a'r derbyniadau yr adroddir arnynt gan gyd-fuddiolwyr yn eu dogfennau ategol: cyflawnir y rheolaethau hyn gan WEFO ac, fel tasg ddiangen, ni ellir hawlio amdanynt gan y buddiolwr fel defnydd cymwys o amser staff. Gall buddiolwr arweiniol gyflawni ei gamau gwirio ei hun sy'n debyg i 'wiriadau' o gyd-fuddiolwyr ond byddai'r amser staff/ costau staff cysylltiedig yn anghymwys. Felly, dylai buddiolwyr arweiniol ystyried cryfhau eu cytundebau partneriaeth os oes ganddynt bryderon ynghylch adennill symiau a dalwyd heb hawl a/neu ganslo grant gan yr UE sy'n briodoladwy i gyd-fuddiolwr.

Mae'n rhaid i fuddiolwyr arweiniol beidio ag ychwanegu symiau tybiannol at y costau a ysgwyddwyd gan eu partneriaid pan fônt yn cyflwyno hawliad i ni, e.e. taliadau am wasanaethau, taliadau rheoli, ychwanegiadau, prisio ar sail cost ac ychwanegiad etc

Refeniw Prosiect
Mae'n rhaid i fuddiolwyr arweiniol sicrhau bod unrhyw refeniw y mae cyd-fuddiolwyr ac unrhyw fuddiolwr/ partner cyflawni arall yn ei gael yn cael ei gofnodi ac yr adroddir arno yn yr un ffordd â rhwymedigaethau'r buddiolwr arweiniol a nodir yn Adran 32.

Cyfraniadau o Fath Arall
Nid yw cyd-fuddiolwyr a phartneriaid cyflawni'n 'drydydd partïon' i'r gweithrediad ac felly ni allant ddarparu cyfraniadau o fath arall ar gyfer y gweithrediad. Mae cyfraniadau cyd-fuddiolwyr i'r prosiect felly'n cael eu trin fel cyllid cyfatebol 'adnoddau eu hunain' o fewn ystyr adran 33 ac nid fel cyllid cyfatebol o fath arall.

Gall partner adael i'r prosiect ddefnyddio asedau, eiddo, offer, dodrefn ac ati y mae eisoes yn berchen arnynt. Gallai hyn fod er mwyn i'r partner eu defnyddio ar y prosiect neu gallent gael eu darparu i bartneriaid eraill neu'r buddiolwr arweiniol eu defnyddio. Mae'r un egwyddor yn berthnasol â phan fo hyn yn digwydd ar lefel y buddiolwr arweiniol – mae cost prynu eitemau o'r fath yn anghymwys ond gellir hawlio costau dibrisiant asedau a chostau atgyweirio a chynnal a chadw asedau lle caiff hyn ei gyfiawnhau – gweler 7.5.4.

ATODIAD B – Archwiliadau a Gwiriadau

Cyffredinol

Mae ‘gwiriadau’ yn golygu camau gwirio y mae WEFO yn eu cyflawni ar weithrediadau a phrosiectau. Gall y rhain fod yn gamau gwirio ‘desg’ a gyflawnir o bell yn ein swyddfeydd ni neu gallant olygu ymweliadau â’r mannau lle caiff cofnodion eu cadw ac, os yn wahanol, lle mae gweithgareddau’r prosiect yn digwydd. Gall WEFO ofyn i gontractwyr neu Gyrff Cyfryngol gyflawni gwiriadau ar ei rhan.

Mae ‘archwiliadau cenedlaethol’ yn golygu archwiliadau a gyflawnir gan Dîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd Llywodraeth Cymru, sef ‘awdurdod archwilio’ dynodedig rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE. Mae’r archwiliadau hyn yn golygu cynnal ymweliadau â’r mannau lle caiff cofnodion eu cadw ac, os yn wahanol, lle mae’r gweithgareddau a gefnogir yn digwydd.

Mae ‘archwiliadau’r CE’ yn golygu archwiliadau a gyflawnir gan staff y Comisiwn Ewropeaidd. Nid yw’n golygu archwiliadau a gyflawnir gan Lys Archwilwyr Ewrop.

At ddibenion ystadegol neu atal a chanfod twyll, gall fod yn angenrheidiol i staff gwiriadau ac archwiliadau gael mynediad at gofnodion cyfrifyddu cyffredinol buddiolwr, hyd yn oed lle caiff prosiect ei gyllido gan ddefnyddio lwmpsymiau, costau unedau neu gyfraddau safonol (costau symlach yn hytrach na ‘chostau real’). Fodd bynnag, **ni** fydd y camau gwirio hyn yn cael eu defnyddio i gwestiynu gwerthoedd y gyfradd safonol, y costau unedau neu’r lwmpsymiau a gytunwyd yn barod gennym ni yn eich llythyr dyfarnu cyllid.

Mesurau i osgoi Dyblygu Archwiliadau

I osgoi archwiliadau gormodol, defnyddir y dull canlynol:

- Ni fydd gweithrediadau ERDF â gwerth is (cyfanswm gwariant cymwys ddim yn uwch na EUR 200,000 am ERDF neu 150,000 am ESF) yn cael eu harchwilio fwy nag unwaith gan archwilwyr y CE nac archwilwyr cenedlaethol **yn ystod oes** y gweithrediad. Mae’r cyfnod hwn yn dechrau o ddyddiad dyfarnu’r cyllid ac yn para nes bod WEFO yn darparu ei chyfrifon blynyddol i’r CE am y flwyddyn gyfrifyddu (Gorffennaf – Mehefin) pan ystyrir bod y gweithrediad wedi’i ‘gwblhau’n llawn’.
- Bydd gweithrediadau eraill uwch na'r trothwy y gronfa priod nid i'w harchwilio fwy nag unwaith gan EC neu archwilwyr Cenedlaethol yn yr un flwyddyn (1 Gorffennaf i 30 Mehefin).
- Ni fydd yr holl weithrediadau ERDF eraill (sy’n uwch na’r trothwy o EUR 200,000) yn cael eu harchwilio fwy nag unwaith gan archwilwyr y CE nac archwilwyr cenedlaethol **yn yr un flwyddyn** (1 Gorffennaf – 30 Mehefin).

- Hefyd ni fydd gweithrediadau'n cael archwiliad gan archwilwyr y CE nac archwilwyr cenedlaethol mewn unrhyw flwyddyn os cafwyd archwiliad yn barod yn y flwyddyn honno gan Lys Archwilwyr Ewrop. Ni fydd y rheol hon ond yn berthnasol os yw archwilwyr y CE neu archwilwyr cenedlaethol yn fodlon bod canlyniadau'r gwaith archwilio a gyflawnwyd gan Lys Archwilwyr Ewrop yn gallu cael eu derbyn at ddiben cyflawni eu priod dasgau hwy.

Fel eithriad i'r rheolau uchod, ceidw archwilwyr y CE neu archwilwyr cenedlaethol yr hawl i gynnal archwiliadau o weithrediadau lle maent hwy, neu Lys Archwilwyr Ewrop, wedi canfod **risg penodol o afreoleidd-dra neu dwyll**, yn achos tystiolaeth o ddiffygion difrifol yng ngweithrediad effeithiol system reoli'r rhaglen.

Gall y CE hefyd, at ddiben asesu gwaith yr awdurdod archwilio cenedlaethol, adolygu trywydd archwilio'r awdurdod archwilio neu gymryd rhan mewn archwiliadau yn y fan a'r lle o'r awdurdod archwilio a lle, yn unol â safonau archwilio a dderbynnir yn rhyngwladol, mae'n angenrheidiol at ddiben cael sicrwydd ynghylch gweithrediad effeithiol yr awdurdod archwilio, gall y CE gynnal archwiliadau o weithrediadau.

Mwy o wybodaeth: erthygl 148 o Reoliad yr UE 1303/2013.

ATODIAD C – Trywyddion Archwilio

COFNODION CYFRIFYDDU

Mae'n rhaid i gofnodion cyfrifyddu ariannol ar lefel y buddiolwr (buddiolwr arweiniol; cyd-fuddiolwr; neu fuddiolwr cynllun cymorth) ddarparu gwybodaeth fanwl am gostau a ysgwyddwyd mewn gwirionedd a, lle y bo'n berthnasol, a dalwyd, ynghyd ag arian a gafwyd yn gyllid cyfatebol ariannol gan drydydd partïon; refeniw a grëwyd gan y prosiect, a derbyniadau neu gredydau eraill megis ad-daliadau, dychwelyd blaendaliadau, taliadau 'arian-yn-ôl', rhyddhau symiau ar gyfer hapddigwyddiadau, a nodiadau credyd.

Mae'n rhaid i fuddiolwyr wahaniaethu'n eglur rhwng trafodiadau prosiect yr UE a thrafodiadau busnes eraill, naill ai trwy ddefnyddio system gyfrifyddu ar wahân neu drwy ddefnyddio codau cyfrifyddu – rhai â llaw neu rai sy'n seiliedig ar system – sy'n creu cyswllt unigryw rhwng y trafodiadau a phrosiect yr UE.

Mae'n rhaid i'r cofnodion cyfrifyddu ddangos, o leiaf, **ddyddiad** y trafodiad, **gwerth** pob eitem, a **gwybodaeth adnabod** ddigonol i'w gwneud yn bosib cysylltu'r trafodiad â'r dogfennau ategol.

Hefyd, mae'n rhaid i arferion cyfrifyddu costau a gweithdrefnau rheoli mewnol arferol y buddiolwr hwyluso **proses gysoni uniongyrchol** rhwng y symiau a ddatganwyd wrth WEFO, y symiau a gofnodwyd yn eu cyfrifon a'r symiau a nodwyd yn y ddogfennaeth ategol.

Mae'n rhaid i ymyriadau â llaw yn y cofnodion cyfrifyddu – megis addasiadau a throsglwyddiadau yn y dyddlyfr – fod yn olrheiniadwy, wedi'u dogfennu ac wedi'u cyfiawnhau.

Ar gyfer eitemau o wariant sy'n gysylltiedig â mwy nag un gweithrediad a gyllidir gan yr UE, mae'n rhaid i'r modd y caiff costau eu dyrannu rhwng y gweithrediad a'r gweithrediadau eraill fod wedi'i nodi mewn papurau gwaith ategol ac mae'n rhaid sicrhau nad oes mwy na 100% o bob cost yn cael ei hawlio.

Mewn gweithrediadau cydweithredol, mae'r buddiolwr arweiniol yn cydgrynhoi derbyniadau a chostau cymwys pob buddiolwr yn un hawliad am daliadau i'w gyflwyno i WEFO. Mae'n rhaid i'r buddiolwr arweiniol gadw papurau gwaith i ddangos sut y mae'r hawliad am daliadau wedi'i gydgrynhoi'n cysoni â'r costau a derbyniadau sylfaenol a ddatganwyd gan bob buddiolwr yn y gweithrediad.

Ym mhob achos, mae'n rhaid gallu **cysylltu gwariant cymwys â'r gweithgareddau cyfatebol** a achosodd y costau hynny. Er enghraifft, mae'n rhaid gallu olrhain **taflenni presenoldeb** a **phrawf cyflawni** ar gyfer gweithgareddau a gefnogir i'r anfonebau cost a chostau staff cysylltiedig (gan gynnwys, os yw'n berthnasol, cofnodion amser staff). Mae hon yn ystyriaeth allweddol pan fo gwiriadau ac

archwiliadau'n ceisio profi **realiti gweithgareddau'r prosiect**: nid dim ond pa un a ellir profi'r costau.

DOGFENNAU ATEGOL

Mae pob gweithrediad yn wahanol ond y rheol gyffredinol yw bod yn rhaid i fuddiolwyr gadw'r **holl ddogfennau sy'n angenrheidiol i ddangos bod rheolau ac amodau'r cyllid wedi cael eu bodloni**.

Mae'n rhaid i fuddiolwyr gadw tystiolaeth **briodol** a **digonol** i brofi bod eu prosiect yn cael ei weithredu'n briodol a chymhwystra'r gwariant sydd wedi'i ddatgan. Mae '***digonolrwydd***' yn ymwneud â maint y dystiolaeth; mae '***priodoldeb***' yn ymwneud â'i hansawdd.

Ystyrir bod tystiolaeth yn ddigonol ac yn briodol os yw'n ddigon perswadiol i gael ei derbyn gan staff gwiriadau ac archwiliadau, a fydd yn cael eu harwain gan safonau archwilio a dderbynnir yn gyffredinol.

Mae'n rhaid bod yr holl ddogfennau ategol yn wiriadwy, yn archwiliadwy ac ar gael yn rhwydd.

Felly, er nad yw'n bosibl darparu rhestr gynhwysfawr o ddogfennau ategol, dyma'r rhai mwyaf cyffredin:

- Prawf bod costau wedi cael eu hysgwyddo mewn gwirionedd: anfonebau taledig, biliau neu gyfriflenni ynghyd ag archeb brynu; nodiadau derbyn nwyddau (os yn berthnasol); cofnodion y gyflogres; contractau etc
- Prawf bod costau wedi'u talu: cyfriflenni banc, adroddiadau BACS/ CHAPS, bonion llyfrau sieciau/ copïau o sieciau wedi'u talu.
- Prawf o gost (neu werth) cyfraniadau o fath arall a phrawf bod y cyfraniad wedi'i ddarparu ar gyfer/ ei ddefnyddio gan y prosiect.
- Dogfennau i brofi realiti allbynnau a chanlyniadau yr adroddwyd arnynt.
- Adroddiadau gwerthuso.
- Cofnodion caffael a rheoli contractau, gan gynnwys manylion cynigion aflwyddiannus.
- Rhestr eiddo neu gofrestr ar gyfer offer ac asedau eraill.
- Tystiolaeth sy'n profi cydymffurfiaeth â'r holl amodau eraill ar gyfer cyllid a gaiff eu hesbonio yn y ddogfen hon a'r cytundeb cyllid grant – rheolau Cymorth Gwladwriaethol; mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd, themâu trawsbynciol, cydymffurfiaeth amgylcheddol etc
- Ar gyfer gwariant a ddatganwyd ar sail costau unedau (costau symlach): cofnodion digonol a dogfennaeth ategol arall i brofi nifer yr unedau a ddatganwyd. Nid oes angen i fuddiolwyr adnabod y costau cymwys gwirioneddol a dalwyd na chadw na darparu dogfennaeth ategol (megis datganiadau cyfrifyddu) i brofi'r swm a ddatganwyd am bob uned.

- Ar gyfer gwariant a ddatganwyd ar sail cyfraddau safonol (costau symlach): cofnodion digonol a dogfennaeth ategol arall i brofi cymhwystra'r costau y mae'r ganran ar sail cyfradd safonol yn cael ei chymhwyso iddynt. Nid oes angen i fuddiolwyr adnabod y costau a dalwyd na darparu dogfennaeth ategol (megis datganiadau cyfrifyddu) i brofi'r symiau o wariant cymwys a ddatganwyd ar sail cyfradd safonol. Fodd bynnag, mae'n dal yn rhaid i fuddiolwyr gadw cofnod o enwau'r staff sy'n gweithio ar y prosiect ym mhob cyfnod hawlio, y mae'n rhaid iddo gael ei ategu wedyn gan ddogfennau cyflogaeth perthnasol megis contractau, llythyrau secondio, taflenni amser (os yn angenrheidiol) etc
- Ar gyfer gwariant a gaiff ei ddatgan ar sail lwmpsymiau (costau symlach): cofnodion digonol a dogfennaeth ategol arall i brofi bod y cerrig milltir neu ddigwyddiadau cyfatebol, fel a nodir yn y cytundeb cyllid grant, wedi'u gweithredu'n briodol. Nid oes angen i'r buddiolwyr adnabod y costau cymwys gwirioneddol a dalwyd na darparu dogfennaeth ategol (megis datganiadau cyfrifyddu) i brofi'r swm a ddatganwyd fel lwmpswm.
- Ffotograffau o fyrddau biliau, placiau a phosteri.
- Copïau o lyfrynnau hyrwyddo, deunyddiau hyfforddi, tystysgrifau/ gwobrau am gymwysterau a chwblhau hyfforddiant.

Dogfennau Ategol ar gyfer Costau Staff

Ar gyfer costau staff (boed yn 'gostau real' neu 'gostau unedau'), efallai y bydd angen i staff gadw **cofnodion amser** ar gyfer nifer yr oriau a ddatganwyd ym mhob cyfnod hawlio. Mae'n rhaid i'r cofnodion amser gael eu llofnodi/ eu hawdurdodi gan yr aelod o staff a'i oruchwylydd, o leiaf yn fisol ond gorau oll os yn wythnosol.

Ar gyfer pobl sy'n gweithio ar weithrediad/ prosiect WEFO yn unig, nid oes angen cadw cofnodion amser os yw'r naill neu'r llall o'r canlynol yn wir:

(a) mae'r contract cyflogaeth, telerau ac amodau'r secondiad, y swydd-ddisgrifiad (neu ddogfen debyg) yn aseinio'r unigolyn yn eglur i weithio'i holl oriau cytundebol **neu** nifer penodedig o oriau cytundebol rheolaidd ar y gweithrediad; neu

(b) mae'r buddiolwr yn llofnodi datganiad sy'n cadarnhau bod y staff dan sylw wedi gweithio ar y gweithrediad WEFO am eu holl oriau cytundebol neu nifer penodedig o oriau cytundebol. Mae'n rhaid i'r datganiad hwn gael ei arnodi â'r dyddiad a'i awdurdodi/ ei gydlofnodi gan yr aelod o staff dan sylw i ddangos ei fod yn ei dderbyn a dylai fod rheswm â chyfiawnhad eglur pam nad oedd y gwaith ar brosiect yr UE wedi'i nodi yn y dogfennau cyflogaeth perthnasol ymlaen llaw.

Mae'n rhaid i fuddiolwyr allu cyfiawnhau a, lle y bo'n berthnasol, darparu dogfennau ategol i ddangos cyswllt â'r gwaith ar brosiect yr UE a wnaed a'r canlyniadau a gyflawnwyd am yr oriau staff a ddatganwyd fel costau cymwys. Mae hyn yn berthnasol ni waeth pa un a yw costau staff yn cael eu hawlio ar sail 'costau real' ynteu 'costau symlach'.

Mae'n rhaid manylu ar y trywydd archwilio ar gyfer costau staff fesul aelod unigol o staff (ac nid wedi'u cydgrynhoi ar lefel gryno) sy'n gwneud gwaith.

Mae'n rhaid i'r costau staff cymwys fod yn gyson â chofnodion cyfrifyddu arferol y buddiolwr (h.y. trafodiadau yn y cyfriflyfr cyffredinol, datganiadau ariannol) a dogfennaeth ategol (h.y. contractau cyflogaeth, cydgytundebau llafur/ cytundebau ag undebau llafur, cofnodion amser, cyfriflenni banc yn dangos bod y cyflogau wedi cael eu talu i'r unigolion etc).

Yn niffyg systemau cofnodi amser strwythuredig ('taflenni amser' cyfrifiadurol neu bapur), gall gwiriadau ac archwiliadau – yn ôl eu disgresiwn – ystyried derbyn tystiolaeth arall sy'n ategu nifer yr oriau a ddatganwyd os ydynt yn ystyried bod hynny'n cynnig lefel o sicrwydd sy'n cyfateb i'r sicrwydd a ddarperir gan daflenni amser strwythuredig. Gellir ystyried tystiolaeth arall bosibl yn ôl disgresiwn y staff gwiriadau/ archwiliadau, megis (rhestr anghynhwysfawr): dogfennau teithio sy'n profi cyfranogiad mewn cyfarfod neu weithgaredd (pàs bordio, tocynnau teithio, anfoneb gwesty etc) a chofnodion y cyfarfod/ digwyddiad; rhestrau presenoldeb; papurau gwaith; llyfrau log; dyddiaduron proffesiynol/personol; dogfennau sy'n gysylltiedig â chyflwyniadau; cyhoeddiadau; gohebiaeth megis llythyrau, nodiadau, memos, negeseuon e-bost etc

Mae'n rhaid i Systemau Cofrestru Amser/ Taflenni Amser Gynnwys:

- enw a chyfeirnod ('dynodwr achos') y gweithrediad(au) WEFO.
- enw'r cyflogwr/ buddiolwr.
- enw llawn (enw cyntaf a chyfenw), dyddiad ac awdurdodiad/ llofnod y person sy'n gweithio ar brosiect yr UE.
- nifer yr oriau am bob diwrnod gwaith a ddatganwyd ar gyfer prosiect yr UE.
- enw llawn ac awdurdodiad/ llofnod goruchwylydd/ rheolwr prosiect
- disgrifiad byr – neu godau sy'n cysylltu â manylion pellach/ dogfennau ategol – o'r gweithgareddau a gyflawnwyd, i ddeall a dangos pa waith a wnaed er mwyn gallu gwirio'n rhwydd bod y gwaith a wnaed yn cyfateb i'r gweithgareddau a gymeradwywyd gan WEFO.

Rydym yn darparu templed ar gyfer taflen amser bapur – gweler **TEMPLED 1** – ac mae fersiwn Excel ar gael ar gais.

Mae'n rhaid i wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn taflenni amser gyfateb i gofnodion eraill, er enghraifft, cofnodion o wyliau blynyddol ac absenoldeb oherwydd salwch a gymerwyd, a theithio sy'n gysylltiedig â gwaith.

ATODIAD D – Cardiau Cyfraddau Costau Symlach (mewn grym o fis Tachwedd 2014)

Ar Gyfer Gweithrediadau ERDF			
Costau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio costau symlach	**Math o gost symlach**	**Disgrifiad**	**Argaeledd**
COSTAU ANUNIONGYRCHOL	Cyfradd safonol: 15% o **gostau staff** uniongyrchol cymwys	Cyfrifir costau anuniongyrchol cymwys gan ddefnyddio'r cyfrifiad yn ôl cyfradd safonol heb unrhyw angen i gyfiawnhau'r gyfradd. Nid oes angen trywydd archwilio ar gyfer y costau anuniongyrchol real. Caiff y gwariant a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r gyfradd safonol ei thrin wedyn fel pe bai wedi'i hysgwyddo a'i thalu mewn gwirionedd gan y buddiolwr, gan gynnwys at ddibenion cyllid cyfatebol.	Yr **holl** weithrediadau sy'n amlwg yn cael budd o gostau anuniongyrchol.
COSTAU ANUNIONGYRCHOL	Cyfradd safonol: 25% o **gostau uniongyrchol** cymwys.	Fel yr uchod. Nid yw'r costau uniongyrchol cymwys canlynol yn cael eu hystyried yn rhai sy'n effeithio'n sylweddol ar gostau anuniongyrchol real buddiolwr ac felly rhaid peidio â'u cynnwys yn y cyfrifiad trwy eu didynnu o gostau uniongyrchol cymwys cyn bod y 25% yn cael ei gyfrifo: costau isgontractio (h.y. cyflawni gweithrediadau, prosiectau neu **weithgareddau yn gyfan gwbl trwy <u>ddarpariaeth o dan gontract</u>)** costau adnoddau a ddarparwyd gan drydydd partïon ond nas defnyddir ar safle'r buddiolwr cymorth ariannol uniongyrchol a ddarperir ar gyfer trydydd partïon (e.e. grantiau, taliadau etc)	Prosiectau **ymchwil ac arloesedd** cymhwysol: gweler y rheolau cymhwyso yn Adran 19.
COSTAU STAFF	Cost uned: cyfradd fesul awr mewn	Cyfradd(au) fesul awr a gytunwyd fesul achos unigol ar gyfer pob buddiolwr yn seiliedig ar y costau staff cymwys gwirioneddol diweddaraf ar gyfer yr aelodau unigol o staff –	Yr **holl** weithrediadau.

	£oedd ar gyfer **staff** sy'n rheoli ac yn cyflawni prosiectau.	neu grwpiau o staff ar raddau tebyg/ â phrofiad tebyg – dros y 12 mis blaenorol. Gellir diweddaru cyfraddau fesul awr bob 2 flynedd ar gais. Wrth gyfrifo cyfradd fesul awr, defnyddir oriau gwaith cynhyrchiol blynyddol y cyflogeion (mae gofyn cyfiawnhau â dogfennau ategol) neu gellir defnyddio oriau tybiedig o 1,720 heb gyfiawnhad.	
Ar Gyfer Gweithrediadau ESF lle mae'r Cymorth Cyhoeddus yn <u>€100,000 o leiaf</u>			
Costau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio costau symlach	**Math o gost symlach**	**Disgrifiad**	**Argaeledd**
COSTAU ANUNIONGYRCHOL	Cyfradd safonol: 15% o **gostau staff** uniongyrchol cymwys	Cyfrifir costau anuniongyrchol cymwys gan ddefnyddio'r cyfrifiad yn ôl cyfradd safonol heb unrhyw angen i gyfiawnhau'r gyfradd. Nid oes angen trywydd archwilio ar gyfer y costau anuniongyrchol real. Caiff y gwariant a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r gyfradd safonol ei thrin wedyn fel pe bai wedi'i hysgwyddo a'i thalu mewn gwirionedd gan y buddiolwr, gan gynnwys at ddibenion cyllid cyfatebol.	Yr **holl** weithrediadau sy'n amlwg yn cael budd o gostau anuniongyrchol.
COSTAU ANUNIONGYRCHOL	Cyfradd safonol: 25% o **gostau uniongyrchol** cymwys.	Fel yr uchod. Nid yw'r costau uniongyrchol cymwys canlynol yn cael eu hystyried yn rhai sy'n effeithio'n sylweddol ar gostau anuniongyrchol real buddiolwr ac felly rhaid peidio â'u cynnwys yn y cyfrifiad trwy eu didynnu o gostau uniongyrchol cymwys cyn bod y 25% yn cael ei gyfrifo: costau isgontractio (h.y. cyflawni gweithrediadau, prosiectau neu weithgareddau yn **gyfan gwbl trwy <u>ddarpariaeth o dan gontract</u>)** **costau adnoddau a ddarparwyd gan drydydd partïon ond nas defnyddir ar safle'r buddiolwr** **cymorth ariannol uniongyrchol a ddarperir ar gyfer trydydd partïon (e.e. grantiau, taliadau etc)**	Prosiectau **ymchwil ac arloesedd** cymhwysol: gweler y rheolau cymhwyso yn Adran 19.

COSTAU ANUNIONGYRCHOL, CYFRANIADAU O FATH ARALL, DIBRISIANT, A CHOSTAU UNIONGYRCHOL (ac eithrio costau staff uniongyrchol)	Cyfradd safonol: 40% o **gostau staff** uniongyrchol cymwys	Yr unig gostau cymwys a gaiff eu gwirio mewn cofnodion cyfrifyddu a dogfennau ategol yw costau staff uniongyrchol. Ystyrir bod y gyfradd safonol o 40% yn berthnasol i'r holl gostau eraill. Gellir hawlio'r costau staff uniongyrchol ar sail cost unedau (cyfradd fesul awr) hefyd – gweler isod – gan gynnwys defnyddio 1,720 o oriau blynyddol, heb orfod cyfiawnhau hynny. Mae 'costau staff' yn golygu cyflogeion y buddiolwr; personél sydd wedi'u secondio i weithio ar brosiect yr UE; costau unigolion sy'n gweithio ar y prosiect o dan gontract uniongyrchol (staff allanol) ond nid yw hyn yn cynnwys: contractau gwasanaethau gyda chwmnïau (hyd yn oed os mai cwmnïau 'un person' ydynt); gweithwyr prosiect gwirfoddol; neu amser cyfranogwyr ESF.	Yr **holl** weithrediadau.
COSTAU STAFF	Cost uned: cyfradd fesul awr mewn £oedd ar gyfer **staff** sy'n rheoli ac yn cyflawni prosiectau.	Cyfradd(au) fesul awr a gytunwyd fesul achos unigol ar gyfer pob buddiolwr yn seiliedig ar y costau staff cymwys gwirioneddol diweddaraf ar gyfer yr aelodau unigol o staff – neu grwpiau o staff ar raddau tebyg/ â phrofiad tebyg – dros y 12 mis blaenorol. Gellir diweddaru cyfraddau fesul awr bob 2 flynedd ar gais. Wrth gyfrifo cyfradd fesul awr, defnyddir oriau gwaith cynhyrchiol blynyddol y cyflogeion (mae gofyn cyfiawnhau â dogfennau ategol) neu gellir defnyddio oriau tybiedig o 1,720 heb gyfiawnhad.	Yr **holl** weithrediadau.

Ar Gyfer Gweithrediadau ESF lle <u>nad yw'r Cymorth Cyhoeddus yn uwch na €100,000</u>			
Costau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio costau symlach	**Math o gost symlach**	**Disgrifiad**	**Argaeledd**
YR HOLL GOSTAU CYMWYS	Cyfraddau safonol Costau unedau Lwmpsymiau	Gall WEFO ystyried cytuno ar drefniadau costau symlach ar gyfer yr holl gostau cymwys yn seiliedig **dim ond ar gyllideb ddrafft** a gyflwynwyd gan y buddiolwr. Nid oes unrhyw gyfiawnhad arall o gyfraddau/ symiau'r gost symlach yn ofynnol y tu hwnt i adolygiad o'r gyllideb ddrafft. – Gellir ystyried cyfraddau safonol ar gyfer yr holl gategorïau costau ond <u>ni ddylai cyfraddau safonol ar gyfer costau anuniongyrchol byth fod yn uwch na 25%</u> o gostau uniongyrchol cymwys. – Mae costau unedau a lwmpsymiau ar gael hefyd yn seiliedig ar y gyllideb ddrafft a maint disgwyliedig gweithgareddau neu allbynnau. – Bydd WEFO yn asesu'r gyllideb ddrafft ar gyfer rhesymolrwydd a bydd angen iddi ddeall y tybiaethau o ran cost ar gyfer y gyllideb.	Gweithrediadau lle nad yw'r cymorth cyhoeddus arfaethedig (ar lefel yr UE a chenedlaethol) yn uwch na €100,000 (wedi'i asesu ar y cam cymeradwyo cyllid yn unig)

Ar Gyfer Gweithrediadau ESF lle nad yw'r Cymorth Cyhoeddus yn uwch na €50,000			
Costau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio costau symlach	**Math o gost symlach**	**Disgrifiad**	**Argaeledd**
YR HOLL GOSTAU CYMWYS	Defnydd **gorfodol** o gyfraddau safonol, costau unedau a Lwmpsymiau	Mae'n rhaid defnyddio costau symlach ar gyfer yr holl gostau cymwys. Ni fydd costau real – costau a ysgwyddwyd ac a dalwyd mewn gwirionedd, costau dibrisiant a chyfraniadau o fath arall – yn cael eu derbyn fel gwariant cymwys. Mae dau eithriad: - Nid yw'r rheol yn berthnasol i weithrediadau a gefnogir o fewn fframwaith cynllun Cymorth Gwladwriaethol NEU mewn achosion lle nad yw costau symlach yn berthnasol gan y byddant yn cael eu gweithredu trwy gaffael yn unig. - Lle defnyddir cyfraddau safonol, gall y categorïau costau y bydd y % ar sail cyfradd safonol yn cael ei chymhwyso iddynt gael eu had-dalu ar sail costau real a ysgwyddwyd ac a dalwyd gan y buddiolwr. Mewn geiriau eraill, caniateir 'costau real' dim ond lle byddant yn cael eu defnyddio fel y sail ar gyfer cost symlach yn ôl cyfradd safonol.	Gweithrediadau lle nad yw'r cymorth cyhoeddus arfaethedig (ar lefel yr UE a chenedlaethol) yn uwch na €50,000 (wedi'i asesu ar y cam cymeradwyo cyllid yn unig)

NODIADAU

- Ar gyfer y trothwyon ESF y dynodir eu gwerth mewn Ewros (€50,000, €100,000) a'r cap o €100,000 ar 'lwmpsymiau', mae WEFO yn archwilio'r gyfradd gyfnewid sy'n berthnasol ar y diwrnod y cymeradwyir y gweithrediad.
- Lle mae gweithrediad yn amlwg yn ennyn costau anuniongyrchol, ni all y costau hyn ond cael eu cyfrifo gan ddefnyddio costau symlach yn ôl cyfradd safonol. Nid oes dull 'costau real' arall ar gael.

- Lle mae prosiect o bosibl yn gymwys ar gyfer mwy nag un gyfradd sylfaenol sydd wedi'i bwriadu i gwmpasu costau anuniongyrchol (15%, 25%, neu 40%), dim ond un gyfradd safonol y gellir ei dethol ar gyfer pob prosiect. Mewn geiriau eraill, ni ellir cronni'r canrannau – maent yn cau ei gilydd allan. Fodd bynnag, mae'n bosibl i brosiectau gwahanol o fewn yr un gweithrediad fod yn gymwys ar gyfer lefelau gwahanol o gyfradd sylfaenol ar gyfer eu costau uniongyrchol penodol.
- Mae'n rhaid i gostau talu i gontractwyr/ darparwyr gwasanaethau am weithgareddau neu brosiectau wedi'u caffael yn llawn mewn gweithrediad gael eu datgan gan ddefnyddio 'costau real' – nid yw costau symlach yn berthnasol ar gyfer y rhan honno o'r gweithrediad.

ATODIAD E – Darparu Hyfforddiant Diogelwch yn y Gweithle Trwy Ddarpariaeth wedi'i Chaffael (ESF)

Yn dilyn yr wybodaeth a ddarperir yn nogfen gyfarwyddyd **Modelau Cyflawni WEFO 2014-2020**, mae'n rhaid i ddarpariaeth o ran cyrsiau hyfforddiant diogelwch yn y gweithle ar gyfer cyflogeion fod wedi'i chaffael (h.y. darpariaeth o dan gontract – nid darpariaeth uniongyrchol gan y buddiolwr).

Ystyr 'Hyfforddiant Diogelwch yn y Gweithle'

Mae hyn yn golygu hyfforddiant sydd wedi'i fwriadu'n bennaf i gefnogi diogelwch yn y gweithle. Mae'n cynnwys, er enghraifft, mesurau iechyd a diogelwch a hyfforddiant cymorth cyntaf. Ceir rhestr anghynhwysfawr isod o gyrsiau hyfforddi nodweddiadol.

Cefndir

Mae canllawiau 'Modelau Cyflawni WEFO 2014-2020' yn egluro lle mae gweithgaredd yn 'economaidd' o ran natur, y dylai'r gweithgaredd hwnnw gael ei gyflawni fel arfer trwy ddarpariaeth wedi'i chaffael. Yr ystyriaeth allweddol yw pa un a oes arwyddion bod marchnad weithredol yn bodoli ar gyfer y gweithgaredd dan sylw.

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi cael sylwadau gan nifer o gwmnïau hyfforddi ledled Cymru sydd wedi nodi eu bod yn darparu hyfforddiant diogelwch yn y gweithle ar sail fasnachol ac y gallai cymorthdaliadau cyhoeddus a ddefnyddir gan fuddiolwyr WEFO i gyflawni'r gweithgaredd hwn effeithio ar eu busnes.

Rydym wedi dod i'r casgliad felly, ni waeth beth fo'r sefyllfa o ran Cymorth Gwladwriaethol, bod tystiolaeth eglur bod marchnad weithredol yn bodoli i ddarparu hyfforddiant diogelwch yn y gweithle ar gyfer cyflogeion yng Nghymru. O ganlyniad, mae'n rhaid i'n hyfforddiant diogelwch yn y gweithle gael ei gyflawni trwy ddarpariaeth wedi'i chaffael.

Trwy eithriad, lle mae testunau diogelwch yn y gweithle'n cael sylw fel rhan o gyrsiau hyfforddi neu raglenni dysgu a datblygu hirach, mwy sylweddol (megis prentisiaethau), nid oes angen i'r elfen o ran diogelwch yn y gweithle gael ei chaffael ar wahân o ganlyniad i'r rheol hon.

Atgoffir buddiolwyr bod rhwymedigaethau hyfforddiant cyhoeddus (hyfforddiant y mae'n ofynnol i gyflogwyr ei ddarparu ar gyfer eu staff dan gyfreithiau a rheoliadau'r UE/DU ni waeth pa un a yw gweithrediad WEFO yn bodoli ai peidio) yn anghymwys ar gyfer cymorth ESF.

Rhestr anghynhwysfawr o gyrsiau nodweddiadol o ran Hyfforddiant Diogelwch yn y Gweithle

- Gweithio ar uchder
- Ymwybyddiaeth o asbestos
- Olwynion sgraffinio
- COSHH / egwyddorion COSHH
- Cymorth Cyntaf Brys/ Cymorth Cyntaf yn y gwaith
- Codi a chario
- Diogelwch bwyd/ hylendid bwyd
- Asesu risgiau
- Goruchwylio timau'n ddiogel
- Diogelwch tân / asesu'r perygl o dân
- Diogelwch ysgolion
- Aseswr Cyfarpar Sgrîn Arddangos
- Dirgryniad llaw a braich
- Ymwybyddiaeth o facteriwm clefyd y lleng filwyr
- Diogelwch sgaffaldau
- Diogelwch safleoedd
- Mannau cyfyng
- Pasbort Diogelwch y Grŵp Diogelwch Cenedlaethol Cleient / Contractwr (CCNSG)
- CompEx
- Cyfarpar Diogelwch Personol
- Tyrrau / Mynediad PASMA
- Rheoli'n ddiogel / gweithio'n ddiogel IOSH
- Diploma / tystysgrif NEBOSH

Nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr a dylid ystyried bod unrhyw gyrsiau eraill nas rhestrwyd sydd wedi'u bwriadu yn bennaf i gefnogi diogelwch yn y gweithle yn perthyn i'r un categori.

I gael rhagor o wybodaeth:

www.cymru.gov.uk

@wefowales / @wefocymru

Desg Gymorth Ymholiadau 0845 010 3355

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government